# TAG

## Astudiaethau Crefyddol

**RS3 ETH:**
***Astudio Crefydd a Moeseg* (U2)**

***gan Gordon Reid***

# Pwnc 1:  Damcaniaeth Rhinwedd Aristotle

AMCAN
Ar ddiwedd y pwnc hwn dylech allu:

- Esbonio natur Moeseg Rhinwedd
- Archwilio'r pynciau moesol o amgylch syniadau Aristotle
- Gwerthuso'r dadleuon dros ac yn erbyn Moeseg Rhinwedd
- Deall ac archwilio safbwyntiau crefyddol
- Gwerthuso Moeseg Rhinwedd yn erbyn deontoleg a chanlyniadaeth
- Archwilio pynciau sy'n codi o safbwyntiau ysgolheigion.

**Beth yw Moeseg Rhinwedd?**

Mae Moeseg Rhinwedd yn ymwneud â datblygiad cymeriad, yn hytrach nag â rheolau ymddygiad neu ganlyniadau gweithredoedd. Mae moesegydd rhinwedd yn dweud mai'r hyn sy'n bwysig yw nid beth mae rhywun yn ei wneud na'r canlyniadau, ond yn hytrach beth mae'r penderfyniad i weithredu yn ei ddweud am ei gymeriad moesol.

***Aristotle a beth sy'n gwneud rhywun yn 'dda'***

Cafodd Moeseg Rhinwedd ei chysylltu yn y lle cyntaf â'r athronydd Groegaidd Aristotle. Ym *Moeseg Nicomacheaidd* dywedodd fod gan bawb bwrpas neu swyddogaeth a alwodd yn '**telos**', sef bod pawb yn cyflawni eu potensial ac yn gwireddu eu hamcan terfynol. I Aristotle, yr amcan hwnnw yw i bobl fod yn 'dda' a byw bywyd da. Golyga hynny fod yn rhaid i bawb dreulio'u bywyd yn datblygu ynddynt eu hunain nodweddion daioni, neu'r hyn mae ef yn ei alw yn 'rhinwedd'.

Roedd Aristotle yn credu bod rhinwedd yn cael ei chanfod nid yn yr hyn mae pobl yn ei wneud ond yn y math o berson ydyn nhw. Peth hawdd, meddai, yw gwneud pethau da – cyflawni gweithredoedd caredig, er enghraifft – ond nid yw hynny'n gwneud neb yn berson da na rhinweddol. Mae daioni'n ymwneud â chymeriad, ac fe'i datblygir dros amser hir.

Pwnc Trafod:

A oes gan fodau dynol amcan neu bwrpas terfynol?

Yn ôl Aristotle, rhinweddau yw'r '*nodweddion sy'n arwain at fywyd da*' – priodoleddau fel dewrder, tosturi, gwirionedd a chyfiawnder. Rhaid i'r sawl sydd am fyw yn iawn a chyflawni ei wir botensial feithrin yn ei fywyd briodoleddau da. Y pwysicaf o'r rhain oedd dedwyddwch (*eudaimonia*); golyga hynny ddau beth, sef bod yn hapus a byw bywyd da. Dywed Aristotle y dylai pawb gyrraedd eudaimonia yn eu bywyd drwy fyw'r bywyd da yn eu cymuned a thrwy ymgyfeillachu ac ymwneud ag eraill, oherwydd bydd y gymdeithas y mae'r person yn byw ynddi o gymorth iddo i ddatblygu ei gymeriad.

Fodd bynnag, mae'n pwysleisio na ellir gweithredu'n rhinweddol er mwyn cyrraedd diben arbennig. Nid er mwyn cael rhywbeth y bydd rhywun yn gweithredu'n rhinweddol; 'amcan israddol' yw hynny. Yn hytrach, bydd rhywun yn gweithredu'n rhinweddol am fod hapusrwydd, daioni a rhinwedd yn 'amcanion uwchraddol' sy'n bwysig i'r person ei hun ac i'r gymuned a'r gymdeithas y mae'n byw ynddynt. Bydd y sawl sy'n datblygu'r rhinweddau ynddo'i hun yn gallu gweithredu'n dda ac yn gyfannol a chael boddhad o wneud yr hyn sy'n iawn, nid oherwydd unrhyw resymau na dibenion allanol, ond am mai dyna yw'r peth iawn i'w wneud. Nid yw'r person da neu rinweddol yn gweithredu mewn modd arbennig am y *dylai* wneud hynny nac ychwaith am fod arno *eisiau* gwneud hynny, ond am ei fod yn gwybod mai dyna'r ffordd *iawn*. Yn ôl Aristotle:

*'Peth hawdd yw gwneud gweithred dda, ond nid peth hawdd yw mynd i'r arfer sefydlog o wneud gweithredoedd o'r fath.'*

Pwnc Seminar:

Ai hapusrwydd a chyflawni rhinwedd yw prif amcan bywyd mewn gwirionedd?

A oes yna amcanion gwell?

Beth yw 'eudaimonia'?

### *Athrawiaeth y Cymedr*

Dywedodd Aristotle mai'r ffordd iawn o ymddwyn yw dilyn y '**cymedr euraid**', sef gweithredu yn y man canol rhwng dau eithaf – gormodedd ar y naill law a phrinder ar y llall. Mae i bob rhinwedd fai cyfatebol: er enghraifft, y man canol rhwng llwfrdra a rhyfyg (dau fai) yw dewrder; dewrder, felly, yw'r 'cymedr euraid'. Yn ôl Aristotle, bydd pobl yn darganfod beth yw'r cymedr euraid i rinwedd arbennig a sut i'w ddilyn trwy wylio patrymau da o ymddygiad, a dysgu oddi wrthynt, a thrwy hyfforddi a datblygu'r rhinwedd nes iddi ddod yn ffordd awtomatig o fyw ac ymddwyn ac yn rhan o'u cymeriad. O wneud hyn dônt i fod yn bersonau rhinweddol a fydd yn cyflawni gweithredoedd rhinweddol wrth i'w cymeriad, yn raddol, feddiannu'r rhinwedd.

Nid peth hawdd yw dod o hyd i'r cymedr, ac ni ddywedodd Aristotle beth yw'r cymedr i bob rhinwedd. Yn sicr ddigon, nid oedd yn golygu man canol mewn ystyr rifol; soniodd yn hytrach am 'y swm cywir ar yr amser cywir'. Mewn geiriau eraill, mae'r cymedr yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Er enghraifft, fe all treulio amser yn sgwrsio â chardotyn a rhannu cinio ag ef fod weithiau yn fwy o gymorth iddo (ac yn beth mwy rhinweddol i'w wneud) na dim ond rhoi arian iddo. Ond nid yw hynny'n golygu mai felly y mae hi bob amser.



Pwnc Trafod:

A yw hi'n bosibl mewn gwirionedd wybod beth i'w wneud drwy geisio dod o hyd i'r man canol rhwng dau eithaf?

### *Rhinweddau Deallusol a Moesol*

Dywedodd Aristotle mai cysyniadau allweddol Moeseg Rhinwedd yw '*arete*' (rhinwedd neu ragoriaeth foesol) a '*phronesis*' (doethineb foesol ac ymarferol). Mae dau fath o rinwedd, meddai Aristotle – rhinweddau moesol a rhinweddau deallusol; gyda'i gilydd maen nhw'n cynhyrchu'r 'rhagoriaethau cymeriad' angenrheidiol i berson da neu rinweddol. Y rhagoriaethau hyn yw:

- Bod yn 'eneidfawr'
- Bod yn Gyfiawn a Theg
- Bod yn arweinydd ymarferol a doeth
- Bod yn gyfaill da
- Bod â boneddigeiddrwydd (kalokagathia) gŵr bonheddig.

I Aristotle, yr allwedd i hapusrwydd yw bod rhywun yn cymryd ei arwain gan reswm ac yn dilyn rhesymegu synhwyrol eraill – mae hyn yn arwain at ddoethineb, a doethineb yn arwain at hapusrwydd. Mae'r sawl sy'n gwneud hyn yn hapus am ei fod yn cyflawni ei bwrpas fel enaid rhesymegol. Diogela'r rhinweddau y berthynas (er enghraifft, cyfeillgarwch) rhwng pobl a'i gilydd na all pobl fod yn wir hapus hebddi. Dadleua Aristotle mai'r nodwedd sy'n gwahaniaethu dynolryw oddi wrth bopeth arall yw rheswm, a bod yn rhaid i weithgaredd uchaf y ddynolryw gynnwys rheswm.

'*Swyddogaeth dyn yw gweithgaredd yr enaid yn unol â rheswm'.*

Dosbarthodd Aristotle rinweddau fel a ganlyn:

**Y Pedair Prif Rinwedd – y rhai pwysicaf:**

- Dirwest
- Dewrder
- Doethineb
- Cyfiawnder.

**Y Rhinweddau Deallusol:**

- Sophia – doethineb ddamcaniaethol
- Phronesis – doethineb ymarferol
- Gallu ymarferol
- Synnwyr cyffredin
- Greddf
- Dyfeisgarwch
- Deall
- Crebwyll
- Clyfrwch.

**Y Rhinweddau Moesol:**

- Caredigrwydd
- Haelioni
- Amynedd
- Geirwiredd
- Cyfeillgarwch
- Gwroldeb
- Rhyddfrydedd.

I ddarganfod gwir ddaioni, meddai Aristotle, rhaid i bobl chwilio am y dull uchaf o feddwl:

‘*Ni ddylem ddilyn y cyngor poblogaidd ac, am mai meidrol ydym, gael dim ond meddyliau meidrol, ond dylem ddatblygu i fod yn anfeidrol a gwneud popeth tuag at fyw’r hyn sydd orau ynom.’*

Pwnc Seminar:

Pa mor berthnasol yw’r cysyniadau o rinweddau deallusol a moesol wrth wneud penderfyniadau moesegol?

*Beirniadu Safbwynt Aristotle*


Bu sawl beirniadaeth ar ddamcaniaeth Aristotle dros y canrifoedd. Y prif feirniadaethau yw:

- Nid yw'n hawdd cymhwyso'r Cymedr Euraid at bob rhinwedd. Er enghraifft, dewrder yw'r cymedr rhwng llwfrdra a rhyfyg, ond a oes yna gymedr i bob rhinwedd?
- Nid yw Aristotle yn rhoi unrhyw arweiniad mewn sefyllfaoedd lle mae rhinweddau'n gwrthdaro a lle mae ar bobl angen rheolau i'w tywys.
- Mae'r pwyslais ar *fod* yn hytrach nag ar *wneud* yn cynhyrchu damcaniaeth hunanol, sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygiad personol nag ar yr effaith y gall yr hyn a wna rhywun ei gael ar eraill.
- Rhinweddau gwrywaidd, gan fwyaf, yw'r rhinweddau y rhoddai Aristotle werth arnynt – dewrder, er enghraifft, ac anrhydedd. Ychydig o le a roddir i rinweddau benywaidd fel gwyleidd-dra ac empathi.
- Mae gan wahanol ddiwylliannau wahanol werthoedd.
- Ysgrifennai Aristotle yn un o wladwriaethau dinesig Gwlad Groeg y ganrif CC lle'r oedd anghydraddoldeb rhwng uchelwyr a chaethweision yn beth arferol.



Pwnc Trafod:

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng 'rhywun da' a rhywun sy'n gwneud gweithredoedd da?



Pwnc Seminar:

I ba raddau y mae'r feirniadaeth ar Foeseg Rhinwedd Aristotle yn ei thanseilio fel damcaniaeth foesegol gredadwy?

*Y safbwynt crefyddol ar Foeseg Rhinwedd*

Mae cysylltiad agos rhwng Moeseg Rhinwedd a moesoldeb crefyddol. Er enghraifft, ystyria Cristnogion mai Iesu Grist yw'r enghraifft berffaith o berson rhinweddol, ac y mae dysgeidiaeth Iesu yn gyfundrefn o foeseg rhinwedd a sylfaenwyd ar ffyniant cyffredinol yr unigolyn a'r gymuned ac y gellir ei chymhwyso at fywyd bob dydd:

'*Carwch eich gelynion, gwnewch ddaioni i'r rhai sy'n eich casáu . . .*' – Luc 6:27

'*Dyma fy ngorchymyn i: carwch eich gilydd fel y cerais i chwi. Nid oes gan neb gariad mwy na hyn, sef bod rhywun yn rhoi ei einioes dros ei gyfeillion.*' – Ioan 15:12

Yn wir, y mae'r Eglwys Gristnogol nid yn unig yn derbyn y Pedair Prif Rinwedd, y mae hefyd wedi ychwanegu tair 'rhinwedd ddiwinyddol' o'r eiddo'i hun – ffydd,

gobaith a chariad:

*'Mewn gair, y mae ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn, yn aros. A'r mwyaf o'r rhain yw cariad.'* – 1 Corinthiaid 13: 13

Daethpwyd i adnabod y tair rhinwedd hyn, ynghyd â'r Prif Rinweddau, fel y '*rhinweddau nefol*'. Mae'r Eglwys hefyd yn cefnogi'r rhinweddau a elwir yn '*rhinweddau gwrthgyferbyniol'* y mae'n rhaid eu dilyn i osgoi'r 'saith pechod marwol'. Felly:

| ***Rhinweddau Gwrthgyferbyniol*** | ***Saith Pechod Marwol*** |
|---|---|
| **Gwyleidd-dra** | **Balchder** |
| **Caredigrwydd** | **Cenfigen** |
| **Dirwest** | **Glythineb** |
| **Diweirdeb** | **Trachwant** |
| **Amynedd** | **Dicllonedd** |
| **Rhydfrydedd** | **Blys** |
| **Diwydrwydd** | **Diogi** |

Yn *Virtue Ethics* (Prometheus 2002), dadleua Richard Taylor y gall cyfundrefn o foesoldeb a sylfaenwyd ar orchmynion dwyfol ddigalonni pobl rhag cyrraedd eu potensial. Myn fod Cristnogaeth yn rhoi gormod o bwyslais ar fod pobl yn gydradd ac nid yw'n annog unigolion i ymdrechu i fod yn rhinweddol.

Pwnc Seminar:

'Mae Moeseg Rhinwedd yn gydnaws ag agwedd Gristnogol at foesoldeb.' Gwerthuswch yr honiad hwn.


***Damcaniaeth rhinwedd fel damcaniaeth ddeontolegol neu ganlyniadol***

Fe all mai'r ffordd orau o ddeall Moeseg Rhinwedd yw ei gwrthgyferbynnu â damcaniaethau moesegol eraill, yn enwedig moeseg ddeontolegol a moeseg ganlyniadol.

Mewn moeseg ddeontolegol, y person da yw'r sawl sy'n dilyn nifer o reolau gosodedig, cyffredinol a digyfnewid, y cyfeirir atynt weithiau fel 'dyletswyddau'. Un o'r damcaniaethau deontolegol mwyaf adnabyddus yw Damcaniaeth y Gorchymyn Dwyfol. Roedd Immanuel Kant yn pleidio'r ddamcaniaeth, ac awgrymodd fod y rheolau neu'r dyletswyddau hyn wedi eu rhoi, ar un ystyr, gan Dduw, fel yn achos y Deg Gorchymyn, a'u bod yn orchmynion moesol diamod y mae'n rhaid eu dilyn beth bynnag yw'r amgylchiadau.

Mewn moeseg ganlyniadol, ar y llaw arall, y person da yw’r sawl y caiff ei weithredoedd y canlyniad gorau – y canlyniad yw’r peth pwysicaf. Mewn geiriau eraill, daw daioni o’r hyn a wna person ac o’i effaith. Un ddamcaniaeth foesegol adnabyddus yw Iwtilitariaeth, sy’n datgan y dylai canlyniad penderfyniad moesol arwain at hapusrwydd mwyaf y nifer mwyaf o bobl.

Yn wahanol i’r pwyslais deontolegol ar ufuddhau i reolau a’r pwyslais canlyniadol ar sicrhau’r canlyniad gorau, mae Moeseg Rhinwedd yn gweld daioni yn nhermau bod yn hytrach na gwneud. Mae’n tynnu sylw at y rhinweddau neu’r nodweddion sy’n ddymunol ac yn annog pobl i’w mabwysiadu er eu mwyn eu hunain. Pam? Am mai lles yr unigolyn yw’r allwedd i’w hapusrwydd ac i sicrhau ‘eudaimonia’. I Aristotle, dyma ddiben bywyd dynol – ymarfer a defnyddio rhinweddau i dyfu, aeddfedu a darganfod dedwyddwch.



Pwnc Seminar:

Pa nodweddion y mae Moeseg Rhinwedd yn eu rhannu ag (i) Deontoleg a (ii) canlyniadaeth?

Ym mha ffyrdd y mae Moeseg Rhinwedd yn wahanol?

Pa un sy’n eich argyhoeddi fwyaf a pham?

***Gwendidau Moeseg Rhinwedd***

- Sut y mae penderfynu pa rinweddau yw’r rhai pwysicaf i’w datblygu?
- Mae rhai diwylliannau a chymdeithasau yn rhoi mwy o werth ar rai rhinweddau nag ar eraill – er enghraifft, dewrder corfforol sydd bwysicaf mewn rhai cymdeithasau, mewn eraill, gallu deallusol.
- Gall rhai rhinweddau fod yn feiau – er enghraifft, dangos dewrder mewn rhyfel gormesol.
- Nid yw Moeseg Rhinwedd yn cynorthwyo pobl i benderfynu sut i ddatrys cyfyng-gyngor.
- Rhoddir gormod o bwyslais ar ddatblygiad personol a rhy ychydig ar arweiniad ymarferol.
- Rhaid gwerthuso pa rinweddau sydd i’w dymuno fwyaf, ac y mae’n bosibl na fyddai pawb yn ystyried mai hyd yn oed y person mwyaf amlwg ei rinweddau yw’r patrwm ymddygiad gorau.
- Susan Wolf: ‘*Wn i ddim a oes yna seintiau moesol. Ond os oes, rwy’n falch nad wyf fi na neb o’r rhai a garaf fwyaf, yn eu plith.’* (Dyfynnir yn *Ahluwalia*, 2001.)

Pwnc Ymchwil:

'Dylai cyflawni rhinwedd fod yn brif ddiben moesoldeb.'
Gwerthuswch yr honiad hwn.

Pwnc Trafod:

Sut y byddai Moeseg Rhinwedd yn gymorth i eneth yn ei harddegau benderfynu cael erthyliad neu beidio?

***Agweddau modern at Foeseg Rhinwedd***

Daeth Moeseg Rhinwedd yn boblogaidd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac y mae nifer o ysgolheigion yn ei chefnogi.

- ***Alastair MacIntyre***

Yn *After Virtue* (Duckworth, 1997) honnodd Alastair MacIntyre nad yw rhinweddau yn bethau sefydlog a digyfnewid ond eu bod yn tarddu o'r cymdeithasau lle maen nhw'n cael eu harddel – mae rhinweddau yn perthyn i amseroedd a lleoedd arbennig ac y mae iddynt gyd-destun hanesyddol. Golyga hyn fod Moeseg Rhinwedd yn ddefnyddiol a phriodol i fywyd modern am y gall newid fel y mae cymdeithas yn newid. Yn ôl MacIntyre:

*'Mae holl fywyd dynolryw yn cyrraedd ei uchafbwynt yng ngweithgaredd athronydd damcaniaethol a chanddo incwm rhesymol.'*

Noda nad oes fawr o werth i ddamcaniaethau deontolegol na chanlyniadol am eu bod yn llafurus a chymhleth. Mae ymdrin â moeseg o safbwynt rhinwedd yn fwy realistig ac yn haws i'w gymhwyso at fywyd bob dydd am fod pobl, pan fyddant yn wynebu problem foesol neu foesegol, yn tueddu i droi'n naturiol bron at ateb sy'n seiliedig ar rinwedd.

Mae MacIntyre yn cefnogi, ond yn mireinio, safbwyntiau gwreiddiol Aristotle. Awgryma mai prif ddiben rhinwedd yw rhoi rheswm da i bobl dros weithredu'n foesol. Gwna hynny drwy gyflwyno'r syniad o '*arfer*'. Ceir arferion ym mhob cymdeithas ddynol, a ffyrdd ydynt o weithredu trwy '*bethau da mewnol*' sy'n arwain at safonau rhagoriaeth. Meddai MacIntyre:

'*Wrth arfer, rwy'n mynd i olygu unrhyw ffurf drefnus a chymhleth o weithgaredd cydweithredol dynol a sefydlwyd mewn cymdeithas, sy'n rhyddhau pethau da mewnol perthnasol i'r gweithgaredd hwnnw i geisio cyrraedd y safonau rhagoriaeth hynny sy'n briodol iddo, ac o ganlyniad yn estyn gallu pobl i gyrraedd safonau rhagoriaeth.'*

'*Pethau da mewnol'* yw'r pethau hynny na ellir eu cael ond trwy gyfranogi ac y gellir priodoli iddynt safonau hysbys o ragoriaeth ac sy'n dda ynddynt eu hunain – er enghraifft, gweithgareddau cymdeithasol fel chwarae gwyddbwyll neu nodweddion megis diwydrwydd sy'n cynorthwyo pobl i ganolbwyntio ar waith caled. Cred MacIntyre fod dilyn arferion o'r fath yn rheolaidd ac aml yn gymorth i bobl ddatblygu'r rhinweddau y mae arnynt eu hangen i gyflawni eu pwrpas. Rhydd hyn, meddai, achos rhesymol iddynt dros weithredu'n foesol.

Pwysleisia Macintyre hefyd bwysigrwydd '*pethau da allanol'*, sef pethau ymarferol fel bwyd da, cartref diogel a dillad i'w gwisgo. Mae'r rhain i gyd yn rhan o fywyd o eudaimonia am eu bod yn gwneud pobl yn hapusach.

Yn olaf, tanlinella MacIntyre sut y newidiodd rhinweddau – o'r cyfnod cynharaf pan oedd ar gymunedau bach angen eu hamddiffyn eu hunain ac mai'r rhinweddau gwrywaidd, cryfder a dewrder, oedd y rhinweddau pwysicaf, hyd at gyfnod Aristotle a'r gwladwriaethau dinesig, lle mai'r rhinweddau pwysicaf oedd doethineb, cyfiawnder a dirwest.

- ***Elizabeth Anscombe***

Yn ei llyfr, *Modern Moral Philosophy* (1958), dadleuodd Elizabeth Anscombe fod cyfundrefnau moesol megis deontoleg a sylfaenwyd ar orchmynion moesol absoliwt a deddfau oddi wrth Dduw wedi hen ddyddio mewn cymdeithas lle nad oes gan lawer o bobl bellach gred grefyddol. Cred Anscombe ei bod yn bwysig i gymdeithas ddychwelyd at gyfundrefn foesol seiliedig ar ddatblygiad a chynnydd personol – yr hyn mae'n ei alw yn 'ffyniant dynol' a hyrwyddo rhinwedd er ei mwyn ei hun – ac fel enghraifft dywed fod y sawl sy'n rhoi i'r tlodion ar sail trugaredd yn foesol well na'r sawl sy'n rhoi o ddyletswydd, am ei fod yn gweithredu ar sail rhinwedd a moesoldeb – o'r galon yn hytrach nag o'r pen.

Honna Anscombe dri pheth dadleuol:

1. Dylid gosod moesoldeb modern o'r neilltu nes bod gennym ddealltwriaeth ddigonol o seicoleg rhesymegu moesol.
2. Dylid rhoi'r gorau i bob cysyniad o orfodaeth foesol a dyletswydd foesol nes i seicoleg wneud ei gwaith. Mae Anscombe yn gwrthod y syniad y dylai dyletswydd fod yn ddiben ynddi ei hun ac yn mynnu nad yw pwysleisio dyletswydd yn cyfateb o gwbl i anghenion a gobeithion pobl. Mae'n cydnabod y gall moesoldeb, fel elusengarwch, fod yn beth oer ac annynol ac yn wrthwyneb i'r hyn y bwriedir iddi fod.
3. Camarweiniwyd y rhan fwyaf o athronwyr moesol modern ynglŷn â gwir natur rhesymegu moesegol a damcaniaethu moesol.

**Tasg Ysgrifennu:**
**(i) Esboniwch brif nodweddion Moeseg Rhinwedd Aristotle a rhoddwch enghreifftiau i ddarlunio eich ateb.**
**(ii) Mae 'Sut fath o berson ddylwn i fod?' yn bwysicach cwestiwn moesegol na 'Beth ddylwn ei wneud?'. Archwiliwch yr honiad hwn.**

# Pwnc Dau: Damcaniaeth Foesol Kant

AMCAN
Ar ddiwedd y pwnc hwn dylech allu:

- Esbonio a gwerthuso gwerth diffinio moeseg heb gyfeirio at fod trosgynnol ac awdurdod
- Esbonio a gwerthuso'r cysyniad mai diben moesoldeb yw ymgyrraedd at y daioni uchaf
- Esbonio a gwerthuso rôl dyletswydd a rheswm dynol mewn gwneud penderfyniad moesegol a gweithredu'n foesol
- Esbonio a gwerthuso'r gorchymyn diamod a datganiadau synthetig a dadansoddol
- Esbonio a gwerthuso gwaith W. D. Ross gyda golwg ar ddyletswyddau *prima facie.*

## 1. Moeseg heb awdurdod dwyfol

Roedd Kant yn credu yn Nuw, ond ni chredai y dylai moesoldeb fod yn fater syml o ufuddhau i orchmynion Duw. Yn hytrach, roedd yn tybio y dylai moesoldeb geisio darganfod beth sy'n dderbyniol i bawb sy'n gallu meddwl yn rhesymegol am fod yn foesol. Credai y dylai hynny arwain pobl i sefydlu egwyddorion moesol cyffredinol y mae pawb yn gallu eu derbyn.

Yn benodol arwyddocaol i'n pwrpas ni, yr oedd Kant am egluro'r berthynas rhwng crefydd a moesoldeb, ac am wneud hynny mewn tair ffordd:

- Yn gyntaf, mae'n sylwi nad oes ar foesoldeb angen crefydd o gwbl, yn y modd y darganfyddwn beth yw ein dyletswydd nac yn ein cymhelliad dros wneud y ddyletswydd honno.
- Yn ail, mae moesoldeb yn arwain yn anochel at grefydd.
- Yn drydydd, mae crefydd (o'i hystyried yn oddrychol) yn cydnabod pob dyletswydd fel gorchymyn dwyfol. Felly, mae'n gymorth, defnyddiol ond dianghenraid, i'r bywyd moesol.

Fodd bynnag – ac mae hyn yn bwysig – dywedodd Kant na all fod unrhyw ddyletswyddau arbennig tuag at Dduw yn y math o grefydd gyffredinol yr oedd ef yn ceisio'i sefydlu. Am na all Duw dderbyn dim oddi wrth y ddynolryw bechadurus, disgrifir pob 'moddion gras', gan gynnwys gweddïau a'r sacramentau, fel 'ffydd ffetish'. Teimlai Kant mai dim ond rhithiau oedd y pethau hyn ac mai peryglus oedd synied amdanyn nhw fel pinacl byw'n foesol – dibenion ac iddynt werth moesol ynddynt eu hunain yn hytrach na dulliau o gynyddu mewn daioni moesol. Mae Kant yn honni'n feiddgar nad oes rhaid i grefydd ofalu am ddim ond am ein dyletswydd at gyd-ddyn, a bod Duw ei hun, sut bynnag y deellir ef, yn rhan o'r dull hwnnw o sefydlu moesoldeb dynol seiliedig ar ddyletswydd.

I Kant, rhaid i'r wir eglwys fod yn deyrnas ar y ddaear, yn tyfu o ddatblygiad moesol ei haelodau. Nid yw hyd yn oed Iesu yn bwysig ond fel enghraifft glasurol neu fodel o berffeithrwydd moesol, a rhaid ail-ddehongli pob syniad amdano i ddibynnu nid ar honiadau hanes ond ar yr honiadau sy'n hysbys i reswm yn unig.

Roedd yn credu hefyd, gan fod gan bawb reswm a chydwybod, y byddai'n bosibl i bawb ddeall gwirioneddau moesol yn annibynnol ar brofiad. Mae moesoldeb yn cael ei adnabod heb orfod cael ei brofi ac, am fod rheswm yn beth cyffredinol, bydd rhesymegu moesol yn arwain at yr un canlyniadau dro ar ôl tro. Rhoddodd Kant yr enw *heteronomi* sy'n golygu, yn llythrennol, 'unrhyw gyfraith arall', i'r weithred o dderbyn arweiniad arall – egwyddorion Iwtilitariaeth, er enghraifft – i foesoldeb. Roedd heteronomi, meddai, bob amser yn anghywir.

Pwnc trafod:

Beth allai fod yn ddadleuol iawn ynglŷn â dealltwriaeth Kant o'r berthynas rhwng crefydd a moesoldeb? Beth yw'r goblygiadau i lawer o gredinwyr o ddileu'r awdurdod dwyfol o foesoldeb? Os nad yw'n ddigon dilyn moesoldeb crefyddol i fod yn foesol dda, sut y gall credinwyr fod yn sicr eu bod yn gwneud y peth iawn? Os ydych am esboniad pellach ar y syniad hwn, gofynnwch i'ch athro.

Daliai Kant yn gadarn at y safbwynt bod moesoldeb yn codi o'r natur ddynol a bod moesoldeb yn gosod dyletswyddau absoliwt y mae'n rhaid i bobl eu gwneud ni waeth beth arall sy'n digwydd na pha ddylanwadau eraill a all fod arnynt. Ond daliai hefyd – ac ymddengys fod hyn bron yn mynd yn groes i resymeg – na all y synnwyr hwn o ddyletswydd foesol godi ond o gyfraith a osodwn arnom *ein hunain*. Nid yn y modd gormesol y deellir hi weithiau yn yr unfed ganrif ar hugain y deallai Kant ddyletswydd; nid rhywbeth caethiwus ac annymunol mohoni, ond rhywbeth a oedd yn ei hanfod yn rhydd. Dim ond os ydym yn *rhydd* y gall y wybodaeth fod yn *rhaid* i ni wneud rhywbeth ac y *gallwn* ei wneud fod yn wir. Mae bod yn wirioneddol rydd yn golygu nad ydym dan ddylanwad neb na dim arall, fel y gallwn benderfynu'n llwyr drosom ein hunain.

Yn ddiddorol, golyga hyn na allwn, wrth weithredu'n foesol, weithredu fel offerynnau nac ag unrhyw fwriad ond gwneud daioni er ei fwyn ei hun. Ni allwn geisio pethau naturiol dda – er enghraifft, hapusrwydd, pleser, hawliau a breintiau – na gweithredu gyda'r bwriad o gadw'r cyfreithiau a roddodd Duw (moeseg gorchmynion dwyfol) am fod Duw yn rhywbeth y tu allan i ni. Nid yw hyd yn oed yn golygu bod moesoldeb yn gofyn i ni wneud daioni i eraill. Yr unig ddyletswyddau moesol arnom yw'r rhai hynny sy'n deillio o gyfraith foesol a wneir gennym *ni ein hunain* ac sy'n dweud wrthym am weithredu mewn modd y mae pawb yn rhesymol yn gallu cytuno arno – mae'n gyfraith foesol sy'n gosod egwyddorion cyffredinol.

Yn ôl Kant, nid gofyn i ni wneud daioni i eraill y mae'r gyfraith foesol. Yn hytrach, dweud wrthym y mae i beidio â gweithredu ond mewn ffyrdd y gallwn oll yn rhesymol gytuno arnynt - ni ac eraill. Mae'n gosod egwyddorion cyffredinol sy'n annibynnol ar bob ffactor a all ddylanwadu ar weithrediadau eraill o'r eiddom - hyd yn oed ar Dduw ei hun. Pwrpas hyn yw gosod prawf moesol y gallwn ei gymhwyso cyn gweithredu - profi'n cynlluniau. Gall pob un ohonom, yn ôl Kant, ofyn 'A allaf fi, heb groesddweud fy hun, ewyllysio i'r weithred hon ddod yn ddeddf y bydd pawb bob amser yn ufuddhau iddi? Dim ond os yw'r weithred a fwriadwn yn pasio'r prawf hwn y gallwn wneud y weithred.

Mae safbwynt Kant yn chwalu'n llwyr y safbwynt bod gweithred yn un dda os yw'n cynhyrchu canlyniadau da, neu os yw'n fodd o gyrraedd rhyw fath o ddiben – hyd yn oed ufudd-dod i Dduw. Yn hytrach, ym marn Kant rhaid inni bob amser benderfynu, trwy ddefnyddio rheswm, beth sy'n *iawn* cyn y gallwn wybod beth sy'n *dda*, a thrwy ddeddfu drosom ein hunain credai ein bod yn creu mwy o barch at y gyfraith am ein bod yn wirioneddol ymreolaethol (yn ein llywodraethu ein hunain).

Yn groes i beth camddeall a fu ar ddamcaniaeth foesol Kant, nid awgrymodd mai'r cyfiawnhad dros weithredu'n foesol yw gwobr ddwyfol. '*Rhaid i foesoldeb beidio ag ymostwng. Rhaid i'w natur hi ei hun ei hargymell. Mae popeth arall, hyd yn oed wobr ddwyfol, fel pe bai'n ddim o'i gymharu â hi … Dylai sylfeini ysgogiad moesol eu cyflwyno'u hunain er eu mwyn eu hunain.'* Felly, ni all moesoldeb byth gyd-fynd â hunan-les. Gall gwobrau a chosbau fod yn rhesymau ychwanegol dros wneud yr hyn y dylem ei wneud, ond ni allant fod yr unig reswm.

Yn*The Critique of Practical Reason*, dadleuodd Kant nad oedd ond un peth yn sicr, sef bod yna ddeddf foesol na ellir ei chyflawni ond os yw Duw'n bod. Dywedodd y gall pawb, trwy ddefnyddio rheswm, ganfod deddf foesol yn y bydysawd a bod gorfodaeth neu ddyletswydd arnynt i geisio'r daioni uchaf. Term Kant am y daioni uchaf oedd y ***summum bonum***. Roedd y ddyletswydd hon yn **orchymyn diamod** yr oedd pobl dan orfodaeth i'w ddilyn er ei fwyn ei hun, ac nid yn orchymyn amodol (a roddai flaenoriaethau uwchben yr hyn sy'n gynhenid dda). Er hynny, yn ôl Kant, gan na ellir byth fodloni'r ddeddf foesol yn y bywyd hwn a bod y *summum bonum* y tu hwnt i gyrraedd pobl heb gymorth, mae bodolaeth Duw yn angenrheidiol os yw diben moesoldeb i'w gyflawni.

Pwnc seminar:

Mewn grwpiau neu barau trafodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno na ddylai fod i foesoldeb unrhyw ddiben ond ef ei hun. A yw hyn yn ymarferol? I ba raddau y byddwn yn deddfu moesoldeb i ni ein hunain? A yw'n fwy neu'n llai tebygol ein bod yn mabwysiadu moesoldeb a ddeddfwyd i ni gan eraill? Rhowch adborth o'ch trafodaethau i'r dosbarth.

Am ein bod yn gosod dyletswyddau moesol arnom ein hunain, credai Kant fod gennym reswm dilys dros weithredu arnynt, a bod y rheswm hwnnw'n codi o ymarfer ein rheswm mewn rhyddid. Rydym yn rhydd hefyd i osod cyfyngiadau moesol arnom ein hunain. Y rhyddid hwn yw ffynhonnell gwerth ac urddas dynol, a dyna sy'n ein gwahaniaethau ni, fodau dynol, oddi wrth anifeiliaid am ein bod yn asesu'n rhesymegol werth moesol ein gweithredoedd yn annibynnol ar ein dyheadau hunangeisiol. Mae hunan-les yn ein cymell i weithredu ar orchmynion amodol ac nid yw hyn yn peri unrhyw anhawster i Kant cyn belled â'n bod yn cydnabod nad oes i weithredoedd o'r fath unrhyw werth moesol – yr ydym yn eu gwneud am fod gennym gymhelliad dros weithredu. I'r gwrthwyneb, pan weithredwn heb unrhyw gymhelliad ond gwneud yr hyn a ofynnir gennym o safbwynt moesol, yr ydym yn gweithredu mewn rhyddid a gyda gwir ymreolaeth.

I Kant, nid yw moesoldeb byth yn ymwneud â chael yr hyn a fynnwn; mae'n ymwneud yn hytrach ag ymarfer ein gallu i wneud dewis moesol rhydd, gallu sy'n cael ei danseilio os caniatawn i'n hemosiwn orlywodraethu ein rheswm.

Roedd gan Kant safbwynt neilltuol bod moesoldeb yn deillio o'r natur ddynol, ond mabwysiadodd Thomas Reid (1710-96), sefydlydd yr ysgol 'synnwyr cyffredin' Albanaidd, a Jeremy Bentham (1748-1832), cefnogwr mwyaf adnabyddus iwtilitariaeth, hefyd y gred y gall egwyddorion moesol haniaethol gyfarwyddo moesoldeb. Roedd Kant, felly, wedi sefydlu'r egwyddor sylfaenol o weithred foesol y gellir ei chyffredinoli heb fod yn anghyson.

Mae'r egwyddor o gyffredinoli yn gwbl ganolog i feddwl moesegol Kant. Roedd am gynnig dull systematig o benderfynu pa bryd y gellir cyfiawnhau ein gweithredoedd moesol, a'r ateb oedd: 'Gweithredwch fel pe bai egwyddor eich gweithred i ddod yn ddeddf gyffredinol.' Galluoga'r ateb hwn i asiantau moesol weithredu'n gyson trwy sefydlu egwyddorion y gellir eu cymhwyso at bob achos tebyg. Pan ofynnwn 'A allaf fi gyffredinoli fy egwyddor?' – er enghraifft, y dylwn aros gartref o'r ysgol bob tro y mae'r tywydd yn ddrwg – rhaid inni ofyn a fyddem ni am i bob myfyriwr aros gartref yn gyson pryd bynnag y bydd y tywydd yn ddrwg. Mae Kant yn mynnu na ddylem ystyried canlyniadau'r weithred – er enghraifft, dosbarthiadau gwag a chynnydd araf yn y pwnc – dim ond a yw'r egwyddor yn dal dŵr ai peidio. Damcaniaethau yn unig yw'r canlyniadau posibl ac ni allwn i gyd gytuno ar beth sy'n ganlyniad da neu'n ganlyniad drwg. Fodd bynnag, nid yw'r egwyddor dan sylw yn dal dŵr, oherwydd pe bai'r myfyrwyr yn aros gartref o'r ysgol pan fo'r tywydd yn ddrwg, fe fyddai'r athrawon yn aros gartref hefyd am na fyddai yno fyfyrwyr i'w dysgu. Felly, does dim pwynt cynnig yr egwyddor y dylai myfyrwyr beidio â mynd i'r ysgol ar dywydd drwg gan y byddai'r ysgol wedi cau, heb na myfyrwyr nac athrawon.

Mae cyffredinoli yn gwneud moesoldeb yn beth sefydlog. Os oes syniad gwahanol o dda a drwg mewn gwahanol unigolion, diwylliannau ac amgylchiadau, ni fydd gan fywyd moesol y gymdeithas y sylfaen angenrheidiol o ymddiriedaeth a chysondeb i'n galluogi i ddatblygu'n foesol. Rhaid gwreiddio moesoldeb, felly, mewn rhywbeth sy'n ddiamod dda, ac enw Kant ar hynny yw yr 'ewyllys da'. Gellir defnyddio unrhyw beth arall y gallwn

roi gwerth arno at amcanion drwg, ond ni ellir defnyddio’r ewyllys da ond at amcanion da am mai ewyllys i ddilyn y ddeddf foesol ydyw. Ni all hyd yn oed hapusrwydd, sy’n rhan bwysig o’r meddwl iwtilitaraidd, fod yn rhydd oddi wrth gymhellion drwg – fe wyddom fod pobl yn aml yn hunanol ac yn gosod eu syniad nhw eu hunain o hapusrwydd o flaen y lles cyffredin. Mae’r ewyllys da’n gweithredu ar yr unig gymhelliad moesol cywir – parch at y gyfraith foesol – ac ni all dim y tu allan i ewyllys da’r asiant effeithio ar werth moesol cymhelliad o’r fath.

Sylfaenir moeseg Kant, felly, ar yr egwyddor ein bod yn asiantau moesol sy’n gallu trafod ymddygiad moesol yn rhesymol, a dewis yn rhydd ar sail y trafod hwnnw. Yn arwyddocaol, golyga hyn fod yn rhaid i bob asiant moesol gydnabod y gall pob unigolyn ddilyn y broses resymegol o drafod a dewis. O ganlyniad, rhaid i ni gydnabod gwerth cynhenid pob bod dynol sy’n gallu ffurfio barn resymegol ac annibynnol ar sut i fyw. Rhaid i ni, felly, ymrwymo i barchu buddiannau pobl eraill. Rhaid i wir foesoldeb fynd y tu hwnt i hoffter a dewis a hunan-les, a hyd yn oed ymrwymiad i ddeddf foesol Duw. Nid oes dim ond cymhelliad yr ewyllys da yn ddigon i ddangos i ni beth sy’n dda.

Tasg seminar:
Ystyriwch pa mor gyson a defnyddiol yw’r egwyddor o gyffredinoli. Meddyliwch am dri honiad y gellid eu cyffredinoli mewn egwyddor a phenderfynwch a yw hynny’n ddigon i’w gwneud yn honiadau moesol. A ydynt o werth moesol *oherwydd* y gellir eu cyffredinoli? Ceisiwch sefydlu pa feini prawf sy’n gwneud honiad yn foesol werthfawr yn hytrach na rhywbeth y gellir ei gyffredinoli’n ymarferol. Er enghraifft, gall fod yn gyffredinol ymarferol dweud ‘Rhaid i bawb yrru ar ochr chwith y ffordd’, ond a yw hynny’n gwneud yr honiad yn egwyddor foesol?

## 2. Y Daioni Uchaf fel Amcan Moesoldeb

Credai Kant y gellir dod o hyd i’r daioni uchaf mewn rhinwedd yn hytrach nag mewn unrhyw beth da naturiol neu allanol fel hapusrwydd, er bod yn rhaid iddo yn y pen draw gynnwys hapusrwydd hefyd. Nid yw rhinwedd yn dibynnu ar hapusrwydd, ond mae’n gwneud pobl yn deilwng i brofi hapusrwydd, a’r daioni uchaf y gellir ei amgyffred fyddai undod perffaith rhwng rhinwedd a hapusrwydd a’r ddeubeth yn cydymffurfio â’r ddeddf foesol. Dadleua Kant ‘na ellir galw dim yn ddiamod dda ond yr ewyllys da’, a’r peth gorau y gall pobl ei wneud yw gweithio tuag at ddaioni perffaith, ond gan na cheir byth wared â’r frwydr rhwng y dyhead i ufuddhau i’r gyfraith foesol a’r demtasiwn i bechu ni ellir cyrraedd y daioni uchaf yn y bywyd hwn.

Sylfaenwyd dadl Kant ar yr egwyddor ei bod yn rhesymegol foddhaol y dylid gwobrwyo gwir rinwedd â hapusrwydd, gan nad yw daioni – er y gellir dadlau y dylai fod – yn wobr ynddo'i hun. Mae cyrraedd y *summum bonum*, felly, yn rheidrwydd ac, fel y cyfryw, dylai fod yn bosibl. Fodd bynnag, gan ei bod yn amlwg na all bodau dynol gyrraedd y stad berffaith hon, honna Kant fod angen '*hawlio hefyd bod achos i natur gyfan, ar wahân i natur ei hun ac yn cynnwys egwyddor y cysylltiad hwn, sef yr union gytgord rhwng hapusrwydd a moesoldeb . . . Mae'n dilyn bod hawlio posibilrwydd o ddaioni uchaf deilliadol (y byd gorau) yn golygu hawlio hefyd realiti daioni uchaf gwreiddiol, hynny yw bodolaeth Duw.*' I Kant, arweiniai'r prawf rhesymegol hwn o fodolaeth Duw at brofi ei bod yn gwbl angenrheidiol fod bywyd ar ôl marwolaeth lle y cyflawnir o'r diwedd y *summum bonum*.



Pwnc trafod:

I ba raddau y mae dadl Kant yn gwneud synnwyr i chi? Os dylai pobl gyrraedd y daioni uchaf, a'i bod yn amhosibl iddynt wneud hynny, a ydych yn ystyried ei bod yn foddhaol datrys y broblem trwy hawlio bod Duw'n bod? Esboniwch mewn ysgrifen pam neu pam ddim.

Er na all bodau dynol wneud hynny trwy eu rhinwedd eu hunain, credai fod '*Cristnogaeth yn cyflawni'r diffyg hwn . . . trwy gyflwyno byd lle mae bodau rhesymol yn ymroi'n llwyr i'r ddeddf foesol; dyma Deyrnas Dduw, lle y daw natur a moesoldeb i gytgord sy'n estron i'r naill a'r llall, trwy Awdur sanctaidd y byd sy'n gwneud y daioni uchaf yn bosibl'.* Dadleuodd Kant fod moesoldeb a'i honiad angenrheidiol fod yna fod dwyfol sy'n bodloni'r ddeddf foesol yn hysbys *a priori*. Mewn geiriau eraill, nid ein profiad o'r byd oedd yn dangos bodolaeth Duw; roedd ei fodolaeth yn ofynnol oherwydd rheswm yn unig. Ni fyddai ymddygiad moesol yn annilys pe na bai Duw yn bod, ond ni ellir cyrraedd amcan uchaf moesoldeb os nad yw Duw yn bod.

Mae gwendid y ddadl hon yn syml, ac eto'n arwyddocaol, sef bod Kant yn dadlau bod *dylai* yn golygu *gall* – y *dylai* bodau dynol gyflawni'r *summum bonum*, ond na *allant* wneud hynny – ac yn rhagdybio *a priori* mai'r unig ateb i'r broblem yw bodolaeth Duw. Ymhellach, dadleua mai trwy'r daioni uchaf y mae ufuddhau i'r ddeddf foesol resymegol, ac eto mewn rhannau eraill o'i foeseg dadleua fod yn rhaid cyflawni gweithred foesol yn annibynnol ar unrhyw amcan na gwobr a ragwelir. Felly, gofynnir i bobl fod â chymhellion sy'n annibynnol ar unrhyw amcan arfaethedig ac, ar yr un pryd, fod yn ymwybodol fod yn rhaid i'r ddeddf foesol gael ei chyfiawnhau trwy gyrraedd y daioni uchaf.

Tasg ysgrifennu:
(i) Esboniwch ddadleuon Kant fod yn rhaid i weithred foesol fod yn weithred rydd ond bod yn rhaid i'r daioni uchaf yn y pen draw gyfiawnhau moesoldeb.
(ii) I ba raddau yr ydych yn ystyried bod anhawster gyda'r dadleuon hyn?

### 3. Dyletswydd a Rheswm Dynol

Tra bo Iwtilitariaeth, sy'n ddamcaniaeth deleolegol, yn dal bod gwerth moesol gweithred – boed dda neu ddrwg – yn dibynnu ar ganlyniad y weithred neu ar amgylchiadau ei chyflawni, yn unol â'r hyn y barnwyd eisoes ei fod yn dda, sylfaenir damcaniaethau deontolegol ar y safbwynt bod rhai gweithredoedd sy'n dda neu'n ddrwg ynddynt eu hunain, beth bynnag yw eu canlyniad. Mae gweithredoedd anghywir yn ddrwg *per se* ac nid gweithredoedd cywir o angenrheidrwydd mo'r gweithredoedd hynny sy'n arwain at ddaioni neu at unrhyw amcan arall, er enghraifft, yr hyn sydd o fudd i'r asiant. Ond mae deontoleg yn nodi bod rhai gweithredoedd yn ddrwg hyd yn oed os ydynt yn cynhyrchu canlyniadau rhagweledig a da a gweithredoedd sy'n dda oherwydd y math o weithredoedd ydynt. I'r deontolegydd, peth gwrthrychol yw moesoldeb. Fe'i sylfaenwyd ar yr hyn y *gwyddom* ei fod yn iawn, a does dim lle i emosiwn na rhagweld amcan.

Gall deontoleg gymryd sawl ffurf, ac er bod pob un ohonynt yn rhoi dyletswydd wrth galon gweithred foesol, roedd Kant yn ymwneud yn arbennig â'r berthynas rhwng dyletswydd a moesoldeb sy'n barnu bod gweithred yn foesol gywir os yw'n cydweddu â set y cytunwyd arni o ddyletswyddau a phethau sy'n rheidrwydd. Ystyriai Kant fod i unigolyn gyflawni ei ddyletswydd dim ond am mai dyna *yw* ei ddyletswydd y '*perffeithrwydd uchaf ar fod dyn*ol'. Rhaid i'r deontolegydd nid yn unig gyflawni gweithredoedd sy'n dda ynddynt eu hunain; rhaid iddo hefyd gadw rhag cyflawni gweithredoedd y mae'n hysbys eu bod yn anghywir. Gelwir y rhain yn 'gyfyngiadau deontolegol'; byddem ni'n eu galw'n rheolau neu gyfreithiau. Mae ufudd-dod i'r cyfyngiadau hyn yn nodweddiadol anhyblyg ac yn drwyadl ddiduedd. Bydd y deontolegydd yn mynnu na chaniateir inni dorri rheol neu gyfyngiad hyd yn oed os bydd niwed difrifol yn digwydd o ganlyniad, ac ni ellir ffafrio unrhyw unigolyn. Cysylltir deontoleg yn aml, felly, ag absoliwtiaeth foesol, sy'n cymryd y safbwynt bod yna safonau absoliwt yn codi o ryw ffynhonnell sylfaenol o foesoldeb, boed honno y natur ddynol, rheswm, y bydysawd, neu ddeddfroddwr dwyfol, ac a bery'n ddigyfnewid ni waeth beth fo diwylliant na chredoau cymdeithas.

Mynegir cyfyngiadau neu ddeddfau deontolegol yn ddieithriad yn negyddol: 'peidiwch â gwneud', nid 'gwnewch'. Palmanta'r cyfyngiadau hyn y ffordd at ddiffinio beth sy'n orfodol neu beth yw ein **dyletswydd**. Mae i ddeontoleg, felly, ddwy haen – darganfod beth a ganiateir a beth nas caniateir. Dadleua Charles Fried mai â'r hyn a ganiateir ddylai fod yn ganolbwynt sylw'r deontolegydd: '*Ar ôl i rywun osgoi drygioni a gwneud ei ddyletswydd, y mae o hyd ddewisiadau diderfyn i'w gwneud.'*

- **Gwneud penderfyniadau moesol**

Yn gyntaf, nid oes rhaid i ddeontolegydd ystyried canlyniadau gweithred oherwydd trwy ddefnyddio rheswm gall ddweud ymlaen llaw a yw gweithred yn un gywir neu'n un anghywir. Gall greddf lywio rheswm trwy ddangos, er enghraifft, sut i drin pobl, pa oblygiadau sy'n dilyn pan wnawn addewidion neu gytundebau, a hawl unigolion i beidio â chael eu cam-drin na'u bradychu ac i gael eu trin yn deg a chyfartal. Ond nid yw'r rhestr hon yn unig yn dweud wrthym pam y mae'r gweithredoedd hyn yn iawn, ym marn y deontolegydd, ar wahân i'r egwyddor sylfaenol bod moeseg yn gofyn i ni drin pobl eraill fel bodau rhesymol. Ymhellach, gall gweithred fod yn ddeontolegol anghywir os yw'n rhywbeth y mae'n rhaid i ni *beidio* â'i wneud, beth bynnag yr amgylchiadau, a gall rheswm cyffredin dynolryw ein galluogi i adnabod gweithred o'r fath. Yn bennaf oll, rhaid i weithred foesol fod yn fwy na'r rheolau moesol a chrefyddol hynny sy'n amlwg yn dda a boddhaus. Dysgai Iesu fod mwy na hynny i wir ddaioni:

*'Os carwch y rhai sy'n eich caru chwi, pa wobr sydd i chwi? Onid yw hyd yn oed y casglwyr trethi yn gwneud cymaint â hynny?  Ac os cyfarchwch eich cydnabod yn unig, pa ragoriaeth sydd yn hynny? Onid yw'r Cenhedloedd hyd yn oed yn gwneud cymaint â hynny? Felly byddwch chwi'n berffaith fel y mae eich Tad nefol yn berffaith'* (Mathew 5:46-48).
*'Ond gwae chwi'r Phariseaid, oherwydd yr ydych yn talu degwm o fintys a rhyw a phob llysieuyn, ond yn diystyru cyfiawnder a chariad Duw, yr union bethau y dylasech ofalu amdanynt, ond heb esgeuluso'r lleill'* (Luc 11:42).

Mae deontoleg llythyren y gyfraith yn troi moesoldeb yn set o reolau y byddwn yn ufuddhau neu'n anufuddhau iddynt, ond ychydig o werth a rydd i'r syniad bod pobl yn aelodau o gymuned foesol sy'n hyrwyddo ffyniant eraill yn hytrach na dim ond osgoi eu niweidio.

Eto i gyd, fel hyn yn aml y dehonglir damcaniaeth foesol Kant, ar y rhagdybiaeth mai'r rheswm dros unrhyw weithred yw bod rheidrwydd moesol i'w gwneud. Ond yn aml nid yw dilyn y rheolau moesol cywir yn ddigon – rhaid bod gennym hefyd y cymhelliad cywir. Fodd bynnag, yn wrthrychol ac absoliwt, nid yn oddrychol, y penderfynir dyletswyddau a rhwymedigaethau cywir, neu dewisiadau personol fyddant, nid rhwymedigaethau cyffredinol. Er enghraifft, soniodd Kant am ddau siopwr posibl, un yn gostwng ei brisiau i fod yn deg â'i gwsmeriaid ac un yn gostwng ei brisiau i ddenu mwy o gwsmeriaid. Dim ond y siopwr cyntaf y gellir ei ystyried yn wirioneddol foesol, am ei fod yn gweithredu'n llwyr allan o ddyletswydd at ei gwsmeriaid. Call a chyfrwys yw'r ail siopwr a hunan-les yw ei gymhelliad.




Pwnc trafod:

Sut mae'r safbwynt hwn yn effeithio ar eich dealltwriaeth o foesoldeb? A gawsoch eich argyhoeddi bod yn rhaid i weithred foesol dda fod yn rhydd oddi wrth unrhyw gymhelliad personol? A yw'n bosibl datblygu safbwynt moesol a fydd yn sicrhau y gallwn weithredu gyda'r fath gymhelliad moesol diamwys? A yw hynny'n beth i'w ddymuno?

4. **Y Gorchymyn Diamod**

Ceisiodd Kant ddarganfod yr egwyddor resymegol a all fod y **gorchymyn diamod** sy'n sail i bob barn foesegol. Rhaid i'r gorchymyn fod yn ddiamod, yn hytrach nag yn **amodol**, am na all gwir foesoldeb ddibynnu ar ffactorau allanol, dewisiadau na gwahanol amgylchiadau. Roedd Kant yn credu nad gorchmynion amodol yw gorchmynion moesol am fod gorchmynion amodol yn dweud wrthym sut i gyrraedd rhyw amcan penodol. Er enghraifft, os gofyn rhywun i mi sut i wneud yn dda yn ei arholiadau Lefel A, fe ddywedaf fi wrtho am weithio'n galed. Os bydd yn dilyn y gorchymyn, fe fydd yn cyflawni ei amcan, sef gwneud yn dda. Fodd bynnag, mae gorchymyn diamod – er enghraifft, 'Byddwch yn garedig' – yn amcan ynddo'i hun  Mae'n mynegi ein dyletswydd absoliwt a diamod i weithredu mewn ffordd arbennig. Mae Kant yn mynnu mai gorchmynion o'r fath yw'r unig arweiniad i ymddygiad moesol. Dim ond ewyllys da, wedi'i feithrin gan ddefnydd o reswm ac yn gweithio i ddileu'r pethau hynny sy'n ei gwneud hi'n amhosibl dod i benderfyniadau rhesymegol, a all weithredu ar sail gorchymyn diamod a dim arall. Yn ôl Kant, mae gweithredoedd o'r math hwn yn foesol uwch na phob gweithred arall: '*Rhaid i'r gwahaniaeth rhwng dyn da a dyn drwg . . . ddibynnu . . . ar ba un o'r ddau gymhelliad a wna'n amod i'r llall.*' Er enghraifft, mae rhywun sy'n rhoi i elusen er mwyn tynnu sylw ato'i hun yn dal i fod o fudd i'r elusen, ond fe ddadleuai Kant nad yw'r rhoi yn weithred foesol am mai'r prif gymhelliad yw tynnu sylw at haelioni'r rhoddwr.

Mae dewisiadau personol yn arwain at orchmynion amodol, neu at orchmynion a rheswm y tu ôl iddynt: '*Os ydych am fod yn boblogaidd, byddwch yn hael.'* Nid yw hyn yn gosod haelioni yn egwyddor *a priori*, ond mae'n rhoi rheswm pham y dylid bod yn hael. Dadleuodd Kant nad yw dewisiadau a thueddiadau personol yn anghywir o angenrheidrwydd, ond ni ellir ymddiried ynddynt fel arweiniad dibynadwy i'r hyn sy'n foesol gywir. Yn ei hanfod, dadl Kant yw y byddwn yn gweithredu'n gywir mewn unrhyw amgylchiad os gweithredwn yn ôl ein dyletswydd. Mae dyletswydd yn disodli tueddiadau personol a chymhellion annheilwng ac yn sicrhau ein bod yn gweithredu ar orchymyn diamod.



Tasg seminar:

Meddyliwch am fwy o enghreifftiau o'r math hwn, lle mae gweithred yn ymddangos yn un foesol ond y byddai Kant yn ystyried nad oes iddi unrhyw werth moesol am fod cymhellion eraill gan y sawl a'i gwnaeth. Trafodwch eich enghreifftiau gyda gweddill y dosbarth.

- **Datganiadau moesol dadansoddol a synthetig**

Seilir dealltwriaeth Kant o ddatganiad gwirioneddol foesol ar y rhagdybiaeth fod yn rhaid iddo fod yn ddadansoddol wir. Datganiad dadansoddol yw un sy'n wir trwy ddiffiniad – er enghraifft, yr honiad mai 'Dyn dibriod yw hen lanc' neu mai 'Crwn yw cylch' – ac na fedrir, felly, ei wrth-ddweud. Ar y llaw arall, datganiad synthetig yw un na ellir profi ei fod yn wir neu'n anwir ond trwy gyfeirio at ffactorau allanol. Er enghraifft, gall y datganiad 'Mae gan fwrdd bedair coes' fod yn wir neu'n anwir yn dibynnu ar ba fwrdd sydd dan sylw.

Roedd David Hume wedi dweud bod datganiadau naill ai'n ddatganiadau ffeithiol am y byd (synthetig) neu'n ddatganiadau ynglŷn â gwerthoedd neu syniadau (dadansoddol). Mae datganiadau synthetig yn amodol ac yn hysbys *a posteriori*, tra bod datganiadau dadansoddol yn ddiamod ac yn hysbys *a priori* am nad oes angen dim ond rheswm dynol i wybod beth sy'n foesol dda. Defnyddiodd Kant y syniad hwn yn *The Critique of Pure Reason.* Dadleuodd mai i'r ail gategori y perthyn datganiadau moesol, am mai dim ond felly y gallant fod yn wir trwy ddiffiniad a gosod rheidrwydd moesol arnom. Nid oes mewn datganiadau dadansoddol ddim gwybodaeth empirig ac nid ydynt, felly, yn dibynnu ar amgylchiadau a all newid. O ganlyniad, gallwn fod yn sicr nad yw eu gwerth moesol yn agored i newid. Rhaid, felly, sylfaenu pob gorchymyn diamod ar honiad moesol sy'n ddadansoddol wir ac y gellir ei gymhwyso'n gyson at bawb. Mae'n dilyn y gellir ystyried bod y gorchymyn 'Byddwch yn garedig' yn ddadansoddol wir am nad oes arno angen dim cyfiawnhad na phrawf pellach ac nad oes unrhyw amgylchiad pan fyddai'n anghyson gofyn i asiant moesol fod yn garedig.

Er yr ystyrir datganiadau synthetig fel rheol yn ddatganiadau a sylfaenwyd ar dystiolaeth empirig, mae'n ddiddorol fod Kant yn credu y gall datganiadau moesol fod yn *synthetig a priori*, wedi eu sylfaenu ar wybodaeth sydd, heb brofiad, yn rhoi inni wirioneddau nad ydynt yn dawtolegau. Nid yw dweud mai 'peth da yw gwneud ein dyletswydd' yn dawtoleg ar linellau 'crwn yw cylch', ond cred Kant y gallwn serch hynny wybod ei fod yn ddywediad gwir, heb unrhyw brofiad na phrawf i'w gadarnhau.

**Fformiwlâu Gweithredu'n Iawn**

Ceisiai Kant ddarganfod y gorchymyn diamod canolog a fyddai'n sail i bob gweithred, a daeth o hyd iddo yn y ***Fformiwla Deddf Natur*** sy'n gofyn bod pobl yn '*gweithredu yn y fath fodd y gallai eu gweithredoedd ddod yn gyfraith gyffredino*l'. Os na ellir cyffredinoli'r rheol neu'r egwyddor sy'n rheoli ein gweithredoedd, ac os na allwn ewyllysio bod pawb yn dilyn yr un rheol, yna nid yw'n rheol foesol. Darlunia Kant yr egwyddor â'r enghraifft o wneud addewid. Os wyf fi, a mi wedi addo ad-dalu benthyciad, yn gweld rhywbeth yr wyf am ei brynu, ond y bydd gwneud hynny yn golygu gwario'r arian y dylwn fod yn ei ad-dalu, nid wyf yn gweithredu ar yr egwyddor gyffredinol 'Cadwch eich addewidion', ond yr wyf yn hytrach yn hyrwyddo egwyddor arall, sef 'Cadwch eich addewidion os na fydd hynny yn fy amddifadu i o rywbeth y mae ei eisiau arnaf.' Mae'n amlwg nad yw'r egwyddor honno yn un gyffredinol na rhesymegol, neu byddai'r holl gyfundrefn addewidion yn torri i lawr.

Sefydlodd llyfr Kant, ***Formula of Kingdom Ends***, yr egwyddor y dylid cyflawni pob gweithred fel pe bai'r unigolyn yn '*aelod yn gwneud deddfau mewn teyrnas o ddibenion*'. Dylai hyn sicrhau bod pob unigolyn yn sylweddoli pa mor arwyddocaol yw'r rhan sydd ganddo i'w chwarae mewn sefydlu canllawiau a rheolau moesol. Myn y ***Fformiwla diben ynddo'i hun*** fod gweithred yn sicrhau y rhoddir gwerth ar fodau dynol ynddynt eu hunain, yn hytrach nag fel moddion i gyrraedd diben. Trwy hynny, cydnabyddir eu gwerth cynhenid, yn hytrach na'u gwerth posibl fel offerynnau i gyflawni rhyw amcan neu'i gilydd.

Pwnc trafod:

Mae'n amlwg bod gan Kant ffydd fawr yng ngallu pobl i weithio'n rhesymegol i gyrraedd casgliad o'r fath ac i weithredu'n rhydd yn ôl egwyddorion. A ydych yn meddwl y gellir cyfiawnhau'r ffydd hon? A ydyw pobl, fel rheol, yn gofalu amddiffyn gwerth cynhenid bodau dynol? A ydych yn meddwl bod Kant yn gwneud yn well yn hyn o beth na'r Iwtilitariaid?

Yn olaf, mae'r ***Fformiwla ymreolaeth*** yn mynnu bod egwyddor foesol ddilys yn weithred asiant sy'n foesol rydd. Fel y gwyddom, mae'n bwysig peidio â meddwl bod cyfundrefn ddeontolegol Kant yn golygu cefnu ar ewyllys rydd na'r gallu i gyflawni gweithred foesol sy'n rhydd ddiamheuol. Yr asiant o hyd sy'n dewis gwneud ei ddyletswydd neu beidio, oherwydd fe all asiant moesol sylweddoli beth yw ei ddyletswydd foesol ac eto dewis peidio â'i gwneud. Myn Kant na wna dyn drwg mo'i ddyletswydd ond os yw hynny'n cyfateb i'r hyn mae'n ei ystyried sydd er hunan-les iddo ef, ond bydd dyn da, pan wyneba wrthdaro rhwng hunan-les a rheidrwydd, yn dewis yn rhydd gwneud ei ddyletswydd. Nid oes angen unrhyw reswm arall dros weithredu'n foesol. I'r cwestiwn 'Pam bod yn foesol?' mae'r ateb 'Am ei fod yn foesol' yn gwbl ddigonol.

**A yw Deontoleg yn Argyhoeddi?**

*Mae mwy i'r safbwynt moesol na bod yn barod i gyffredinoli eich rheolau. Mae Kant a'i ddilynwyr yn methu gweld y ffaith hon, er eu bod yn iawn i feddwl bod parodrwydd o'r fath yn rhan ohoni.* (William K. Frankena, **Ethics,** Prentice Hall, 1973.)

**Cryfderau'r Ddamcaniaeth**

- Rhoddir mwy o werth ar gymhelliad nag ar ganlyniadau, na ellir eu rheoli; mae cymhelliad da yn werthfawr ynddo'i hun.
- Mae'n egwyddor ddyngarol sy'n ystyried bod pawb yn gydradd o ran gwerth ac yn deilwng o amddiffyniad.
- Mae cyfiawnder bob amser yn absoliwt, hyd yn oed os nad yw'r mwyafrif yn cael budd ohono.
- Mae'n cydnabod gwerth moesoldeb absoliwt nad yw'n newid yn ôl amser na diwylliant.
- Mae'n rhoi canllawiau gwrthrychol i benderfyniadau moesol, heb fod angen pendroni maith. Gall fformiwlâu Kant ynglŷn â gweithredu cywir arwain at ddealltwriaeth reddfol o'r hyn sy'n iawn.

**Gwendidau'r Ddamcaniaeth**

- Mae rhwymedigaeth foesol yn ymddangos yn beth mympwyol os nad yw'n ddim ond dyletswydd. Mewn gwirionedd, y mae llawer iawn o bethau'n dylanwadu ar y modd y gwnawn benderfyniadau, ac fe allwn gwestiynu a yw dyletswydd yn gystal cymhelliad ag yr awgryma Kant.

- I ba raddau y gall ewyllys da neu gymhelliad da leddfu canlyniad trychinebus? A ydym yn fodlon i rywun ddweud wrthym ‘Gwnewch eich dyletswydd’ heb ein bod yn deall pam?
- O’i dilyn i’w phen draw rhesymegol, mae’r egwyddor o gyffredinoli yn afresymol. Yn fwy na hynny, gallwn gynnig rheol y gellid ei chyffredinoli ond y gellid dadlau hefyd y byddai’n golygu gweithredu’n anfoesol; er enghraifft, ‘Peidiwch â thorri addewid i neb ond i ddynion o’r enw John’. Felly, gan y gellir cyffredinoli unrhyw beth, rhaid inni wrth ryw ffordd arall o benderfynu beth sy’n foesol dda. Nid oes pen draw i’r hyn y gellir ei gyffredinoli. Er y gall ymddangos yn afresymol dadlau y dylid ystyried ‘Lladd dy hun’ yn orchymyn diamod, i rywun sy’n dioddef o iselder ysbryd difrifol, gall fod yn beth cwbl resymol.
- Beirniadodd Jeremy Bentham ddeontoleg ar y sail nad yw’r egwyddorion digyfnewid y bydd deontolegwyr yn eu priodoli i reswm yn ddim mewn gwirionedd ond barn oddrychol. Dadleuodd John Stuart Mill fod deontolegwyr at ei gilydd yn methu egluro pa egwyddorion a ddylai gael blaenoriaeth pan fydd gwrthdaro rhwng hawliau a dyletswyddau ac na all deontoleg, felly, gynnig arweiniad moesol llawn.
- Dylai damcaniaeth foesol aeddfed ganiatáu eithriadau; dim ond pan fo damcaniaeth yn ddigon hyblyg i addasu i amgylchiadau y gellir dweud ei bod yn wir ymarferol.
- Sut mae gwneud penderfyniad pan fo dwy ddyletswydd foesol neu fwy yn gwrthdaro – er enghraifft, os gofynnir i chi ddweud y gwir ond y byddai gwneud hynny yn achosi niwed i berson diniwed?



Pwnc seminar:

Yn eich grwpiau, trafodwch wahanol gryfderau a gwendidau deontoleg. Yna lluniwch gynllun traethawd ar y cwestiwn ‘I ba raddau mae deontoleg yn methu cynnig arweiniad moesol defnyddiol?’

**5. W. D. Ross a Dyletswyddau Prima Facie**


Cafodd y syniad o foesoldeb fel dyletswydd rywfaint o adfywiad yn yr ugeinfed ganrif ar ffurf dyletswyddau *prima facie*. Dadleuodd y greddfolwr W. D. Ross fod y syniad o weithredu cymhelliad yn ddisynnwyr am na allwn ddewis pam y byddwn yn gweithredu. Ni allwn ond dewis sut y byddwn yn gweithredu, ac mae’r asiant moesol aeddfed yn gwybod yn reddfol beth sy’n dda. Yn ôl Ross:

*Mae moesau, fel egwyddorion mathemateg, yn hunanamlwg i’r meddwl aeddfed . . . Mae’r drefn foesol sy’n cael ei mynegi mewn gosodiadau yn gymaint rhan o natur sylfaenol y bydysawd ag yw’r strwythur gofodol neu rifol sy’n cael ei fynegi yn rheolau geometreg neu rifyddeg.’*

Eto, nid oedd Ross yn credu mai ystyried ei chanlyniadau yw’r unig ffordd i farnu moeseg gweithred. Roedd yn glynu at egwyddor Kant mai peth gwrthrychol yw moesoldeb, ond mae hefyd yn beth amodol (gall newid yn ôl y sefyllfa), a dibynna a ddylid dilyn egwyddorion moesol ar ba ddyletswydd sydd bwysicaf yn y sefyllfa sydd ohoni. Mewn unrhyw sefyllfa foesol, gall llawer o bethau fod yn bwysig – cynifer o bethau fel na ellir eu rhifo i gyd. Ond ymhlith


y pethau sydd o bwys y mae cymwynasgarwch (cynorthwyo eraill); hunanwellhad (datblygu ein doniau); cyfiawnder (trin eraill yn deg a chydradd); ffyddlondeb (cadw addewidion); diolchgarwch (gwerthfawrogi'r hyn a wnaeth eraill); dim niweidioldeb (osgoi niweidio eraill); a gwneud iawn (ad-dalu yr hyn sy'n ddyledus i eraill). Dyma'r ffordd i benderfynu rhwng dyletswyddau sy'n gwrthdaro, oherwydd gall greddf eich galluogi i ddewis a chydnabod ar yr un pryd werth parhaol pob dyletswydd gyffredinol.

Bydd nifer o ffactorau'n effeithio ar yr hyn a wnawn mewn gwirionedd. Efallai bod arnom ddyled o ddiolchgarwch i rywun; efallai ein bod wedi gwneud addewid i rywun; neu efallai ein bod mewn perthynas sy'n anochel yn mynd i ffafrio rhywun. Mae Ross yn galw'r pethau hyn yn ddyletswyddau *prima facie*, neu ddyletswyddau amodol sy'n gymwys ar yr amod nad oes goblygiadau pwysicach yn bresennol. Yn eu hanfod, dyletswyddau *prima facie* yw'r dyletswyddau hynny y dywed ein greddf wrthym eu bod yn bwysicach na'r dyletswyddau eraill sy'n cystadlu neu'n gwrthdaro â nhw. Fodd bynnag, ni allwn ddweud ymlaen llaw beth fydd y ddyletswydd *prima facie* berthnasol; dim ond trwy ddilyn ein greddf yn y sefyllfa dan sylw y byddwn yn gwybod beth yw'r ddyletswydd briodol, a bydd angen rhyw gymaint o farnu cyn y gallwn benderfynu. Ni threfnir dyletswyddau *prima facie* yn ôl eu pwysigrwydd; nid ydynt ond rhestr amhendant o bethau sydd, rywsut neu'i gilydd, yn gwneud gwahaniaeth. Nid yw gwrthdaro rhwng dyletswyddau *prima facie* yn negyddu'r naill na'r llall ohonynt. Yn hytrach, gwrthdaro ydyw rhwng dau beth sydd o werth, ac fe'i datrysir nid trwy waredu'r naill na'r llall ond trwy benderfynu pa un o'r ddau sydd bwysicaf yn y sefyllfa sydd ohoni. Yr unig ffordd i ennill gwybodaeth foesol, yn ôl Ross, yw trwy brofiad moesol, gan mai profiad sy'n dangos i ni pa bryd mae rhai dyletswyddau moesol yn bwysig a pha bryd maen nhw'n llai pwysig. Mae'r reddf sy'n ein galluogi i ganfod dyletswydd *prima facie* yn peri i ni amgyffred y gwirionedd. Os cawsom fagwraeth foesol dda, fe fyddwn yn *gweld* pa reol foesol sy'n berthnasol a sut i'w chymhwyso.



Pwnc seminar:

Yn eich grwpiau meddyliwch am sefyllfa lle, efallai, na fyddai'r egwyddor o ddyletswyddau *prima facie* o unrhyw gymorth, neu o leiaf na wnâi ddim ond dwyn i'r amlwg ddyletswyddau a oedd yn gwrthdaro â'i gilydd. Er enghraifft, yn y dadleuon ar erthylu ac ewthanasia, efallai fod y gwrthdaro dyletswyddau yn rhy bwysig i ddatrys y cwestiwn yn foddhaol. Archwiliwch y materion hyn a chyflwynwch adborth i weddill y dosbarth.



Tasg seminar:

Ystyriwch y sefyllfa hon (allan o *Ethics* gan Dwight Furrow, Continuum, 2005).

Dychmygwch fy mod wedi addo mynd i gyngerdd a roddir gan gyfaill, ond ar y munud olaf, mae aelod o'r teulu'n fy ffonio i ofyn i mi fynd ag ef i'r ysbyty. Mae gen i ddyletswyddau sy'n gwrthdaro: rwyf wedi gwneud addewid sy'n golygu fy mod dan rwymedigaeth i fynd i

> gyngerdd fy nghyfaill, ond mae dyletswydd arnaf hefyd i rwystro niwed i'r rhai a garaf. Sut y gallaf benderfynu pa ddyletswydd sy'n cael y flaenoriaeth? Cofiwch ystyried nad yw popeth, efallai, mor syml ag y mae'n ymddangos yn y sefyllfa hon. Pa ffactorau y bydd rhaid i mi, efallai, gymryd sylw ohonyn nhw cyn penderfynu'n derfynol beth sy'n foesol gywir i'w wneud? Sut y gallaf weithio allan beth sydd o bwys gwirioneddol yn y ddau achos?

Er yr ymddengys bod Ross yn datrys problem gwrthdaro dyletswyddau, efallai nad yw'n rhoi digon o ystyriaeth i gwestiwn hawliau. Os na allwn ddweud ymlaen llaw pa ddyletswyddau sydd bwysicaf, yna, yn ddamcaniaethol, mae gwerth cydradd i bob dyletswydd. Ac mae'n amhosibl honni bod hawliau, mewn rhai achosion, yn penderfynu'r mater – yr hawl i fywyd, er enghraifft, neu'r hawl i brawf teg. Efallai bod dyletswyddau *prima facie* eraill y mae Ross wedi'u hanwybyddu, megis parch at ryddid, gofal am deulu a chyfeillion ac amharasitiaeth (yr egwyddor na ddylem dwyllo eraill trwy eu defnyddio er ein budd ein hunain).

Fodd bynnag, mae'r syniad o ddyletswyddau *prima facie* yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i ddamcaniaeth Kant. Nid yw dyletswyddau a allai fod wedi bod yn ddilys yn y ddeunawfed ganrif yn ddilys o angenrheidrwydd heddiw. Cymerwyd eu lle gan ddyletswyddau eraill. Mae dyletswyddau milwr ar faes y gad yn wahanol i ddyletswyddau athro mewn dosbarth a llawfeddyg mewn theatr, yn yr un modd ag y mae gan rieni a'u plentyn wahanol rwymedigaethau. Dim ond os gwrthodwn y syniad o ddyletswyddau yn llwyr, am nad ydynt yn gwneud synnwyr mewn oes unigolyddol, y bydd deontoleg o bob math yn methu.

Tasg ysgrifennu:
(i) Esboniwch sut y gall dyletswyddau *prima facie* ddatrys problem gwrthdaro rhwng dyletswyddau.
(ii) I ba raddau mae'r agwedd hon yn dal i adael deontoleg yn agored i feirniadaeth?

# Pwnc Tri: Moeseg Rhyfel

AMCAN
Ar ddiwedd y pwnc hwn dylech allu:

- Deall y berthynas rhwng crefydd a rhyfel
- Deall achosion gwrthdaro
- Esbonio natur Rhyfel Cyfiawn a Rhyfel Sanctaidd
- Archwilio'r pynciau moesol ynglŷn â Rhyfel Sanctaidd
- Gwerthuso'r dadleuon dros ac yn erbyn Rhyfel Cyfiawn
- Deall ac archwilio safbwyntiau Cristnogol ac Islamaidd
- Gwerthuso'r dadleuon dros ac yn erbyn cynhyrchu a gwerthu arfau
- Archwilio pynciau'n ymwneud ag arfau niwclear a rhagymosod
- Deall natur Heddychiaeth
- Gwerthuso materion yn ymwneud â Heddychiaeth a dulliau di-drais.

**Rhagarweiniad: crefydd a natur rhyfel**

Mae rhyfel a gwrthdaro wedi chwarae rhan hollbwysig yn hanes dynolryw ac yn y broses o lunio tynged cenhedloedd – a bu crefydd bod bob amser yn ffactor pwysig ynddynt. Achosodd hyn gyfyng-gyngor enfawr i gredinwyr oherwydd, ers yr hen oesoedd, bu pobl yn disgwyl i Dduw neu dduwiau eu hamddiffyn rhag eu gelynion. Yn y Beibl, mae sawl enghraifft o Dduw yn ymyrryd i amddiffyn ei bobl:

*'Felly achubodd yr Arglwydd Israel o law'r Eifftiaid y diwrnod hwnnw, a gwelsant yr Eifftiaid yn gorwedd yn farw ar lan y môr'* (Exodus 14: 30).

Eto, ar yr un pryd, sonia'r ysgrythurau am heddwch ac ymwrthod â thrais. Dywedodd Iesu:

*'Rho dy gleddyf yn ôl yn ei le, oherwydd bydd pawb sy'n cymryd y cleddyf yn marw trwy'r cleddyf'* (Mathew 26:52).

Dyna broblem credinwyr – a ddylent ymladd mewn rhyfel neu beidio? Dywedodd Iesu wrth ei ddilynwyr am beidio ag ymladd na gwrthwynebu mewn dicter. Yn hytrach, dysgai am bwysigrwydd cyfiawnder a thangnefedd a charu gelynion:

*'Peidiwch â gwrthsefyll y sawl sy'n gwneud drwg i chwi. Os bydd rhywun yn dy daro ar dy foch dde, tro'r llall ato hefyd'* (Mathew 5:39).

**Achosion Rhyfel a Gwrthdaro Sifil**

Heddiw, cyfrifoldeb y wladwriaeth yw amddiffyn a chynnal diogelwch y genedl a'i phobl. Digwydd rhyfeloedd a gwrthdaro sifil ledled y byd am nifer o resymau, er bod llawer o ffactorau cyffredin. Prif ffactorau rhyfel yw:

- Hunanoldeb a thrachwant
- Ymryson am dir
- Angen am adnoddau a chyfoeth
- Balchder cenedlaethol
- Hen gasineb a hen gwynion.

Yn *Why Nations Go to War* dywedodd John Stoessinger bod rhyfel yn digwydd am fod y ddwy ochr yn credu bod yr hawl foesol o'u tu ac yn tueddu i fod yn or-obeithiol ynglŷn â'r canlyniad ac i gamddeall safbwynt ei gilydd. Mae nifer o wahanol ddamcaniaethau ynglŷn â phrif achosion rhyfel a gwrthdaro sifil:

- **y Ddamcaniaeth Economaidd** – bod rhyfeloedd yn dechrau mewn anghydfod ynglŷn â thiriogaeth a'r adnoddau naturiol sydd eu hangen at gyfoeth a diogelwch. Yn 1919 dywedodd Arlywydd yr Unol Daleithiau, Woodrow Wilson: '*Hedyn rhyfel yn y byd modern yw ymryson diwydiannol a masnachol.*'
- **y Ddamcaniaeth Farcsaidd** – achosir rhyfeloedd gan gystadleuaeth am adnoddau a marchnadoedd.
- **y Ddamcaniaeth Ymddygiad** – y mae bodau dynol yn gynhenid dreisgar ac yn troi eu hymddygiad ymosodol yn gasineb at eu gelynion.
- **y Ddamcaniaeth Arweinyddiaeth** – dechreuir rhyfeloedd nid gan genhedloedd ond gan arweinwyr unigol fel Hitler a Napoleon sy'n chwilio am wrthdaro i gynnal eu grym a'u poblogrwydd.
- **y Ddamcaniaeth Falthusiaidd** – achosir rhyfeloedd gan gynnydd mewn poblogaeth a'r angen am fwy o adnoddau, yn enwedig dŵr. Yn 1095, cyn y Groesgad Gyntaf, cyhoeddodd y Pab Urban II: '*Mae'r wlad yr ydych yn byw ynddi'n awr yn rhy gul i'ch poblogaeth fawr, prin ei bod yn rhoi digon o fwyd. Dyna pam yr ydych yn llofruddio ac yn dinistrio eich gilydd, yn rhyfela, a bod llawer ohonoch yn marw.*'
- **y Ddamcaniaeth 'Ymchwydd Ieuenctid'** – pan fo gan genhedloedd niferoedd mawr o wrywod ifainc di-waith a phrin eu haddysg sy'n ceisio llosgi ymaith eu hymddygiad ymosodol mewn gwrthdaro.
- **y Ddamcaniaeth Gwynion** – achosir rhyfeloedd gan hir gasineb crefyddol neu ethnig rhwng cenhedloedd neu hiliau.

Pwnc Trafod:
A allwch feddwl am ryfeloedd gwirioneddol sy'n cyfateb i'r damcaniaethau hyn?

**'Rhyfel Cyfiawn'**

I gredinwyr, arweiniodd dysgeidiaeth Iesu ar heddwch at gwestiynau moesegol a moesol anodd iawn, oherwydd nid yw'r ddysgeidiaeth yn dweud yn bendant a ddylai credadun ymladd mewn rhyfel. Dilynai'r Cristnogion cyntaf egwyddorion peidio â dial a heddychiaeth. Roedd hynny'n rhywbeth didrafferth ar adegau o heddwch, ond pan ddechreuodd gwrthdaro fe gododd anawsterau. Daeth pethau i ben gan mlynedd wedi i Gristnogaeth ddod yn grefydd swyddogol Ymerodraeth Rufain. Gofidiai'r Ymerawdwr Cystennin, yr oedd arno angen cymorth i ymladd yn erbyn ei elynion, am agwedd Cristnogion yr Ymerodraeth, a chredai bod eu hamharodrwydd i ymladd yn gwanychu lluoedd Rhufain. Roedd yn rhaid i'r Eglwys Gristnogol wneud penderfyniad.

Pwnc Trafod:
A all unrhyw ryfel fod yn 'gyfiawn'?
A all unrhyw ryfel wneud pethau'n iawn?

Daeth ymateb yr Eglwys oddi wrth Awstin Sant, a luniodd y ffurf Gristnogol ar y ddamcaniaeth 'Rhyfel Cyfiawn'. Dros y canrifoedd fe'i datblygwyd gan Thomas Aquinas ac arweinwyr yr Eglwys Gristnogol nes bod heddiw egwyddorion yn ymdrin â'r cwestiwn a ddylai Cristion ymladd mewn rhyfel – saith yn ymwneud â dechrau rhyfel (*jus ad bellum*) a dwy â chynnal rhyfel (*jus in bello*)**.** Datgenir, er bod bywyd yn sanctaidd, fod yn rhaid lladd weithiau i ddiogelu neu amddiffyn bywydau eraill. Dyma'r egwyddorion:


*Troi at ryfel: jus ad bellum*

- Rhaid bod **achos cyfiawn** i ryfel – achub bywyd neu amddiffyn hawliau dynol; sicrhau cyfiawnder, datrys anghyfiawnder; rhaid iddo fod yn rhyfel amddiffynnol, nid ymosodol.
- Rhaid i’r rhyfel gael ei gyhoeddi gan **awdurdod cymwys**. Gan amlaf, y llywodraeth fyddai’r awdurdod cyfreithlon i wneud hynny.
- Rhai **cymharu cyfiawnder** y ddwy ochr. Mae hyn, wrth gwrs, yn beth anodd, am ei bod yn anochel y bydd y ddwy ochr yn hawlio eu bod yn ymladd dros achos cyfiawn.
- Rhaid bod **bwriad cywir** sydd mor gyfiawn â’r achos, h.y. heb fod yn codi o ysbryd o gasineb neu ddialedd.
- Rhaid iddo fod y **dewis olaf**, ar ôl i bob trafod a chyflafareddu a sancsiynau anfilwrol fethu.
- Rhaid bod **tebygolrwydd rhesymol o lwyddiant**, fel y bydd amgylchiadau’n gwella o ganlyniad.
- Dylai fod **cyfrannedd rhesymol** rhwng yr anghyfiawnder yr ymleddir yn ei erbyn a’r dioddefaint y mae’n debygol y bydd y rhyfel yn ei achosi. Ni ddylid cynnal achos cyfiawnder trwy ddulliau anghyfiawn, a byddai’r dulliau hynny’n cynnwys peri dioddefaint i’r rhai hynny y bwriedir i’r rhyfel eu hamddiffyn.

*Ymddygiad mewn rhyfel: jus in bello*

- Rhaid ymarfer **cymesuredd**, h.y. rhaid i’r defnydd o arfau fod yn gymesur â’r bygythiad ac ni ddylid defnyddio ond y grym lleiaf posibl.
- Rhaid rhyfela’n **wyliadwrus** – h.y. rhaid amddiffyn dinasyddion sifil hyd y gellir, ac ni ddylid eu targedu’n uniongyrchol. Gwaherddir lladd dinasyddion sifil o fwriad. Mae defnyddio arfau niwclear yn gwneud rhyfela gwyliadwrus yn amhosibl.

Mae damcaniaeth Rhyfel Cyfiawn yn caniatáu i genhedloedd ddefnyddio grym i’w hamddiffyn eu hunain. Rhaid i rym o’r fath fod yn rhesymol a chymesur, ac ni ddylid ei ddefnyddio i ymosod. Fodd bynnag, beirniadwyd llawer ar y Ddamcaniaeth Rhyfel Cyfiawn, yn enwedig gan rai sy’n credu ei bod yn anymarferol at bwrpas rhyfela yn yr oes fodern.



Pwnc Seminar:
A yw meini prawf Rhyfel Cyfiawn y meini prawf cywir/gorau?
A oes meini prawf eraill y gellid bod wedi eu defnyddio?

**Beirniadu Damcaniaeth Rhyfel Cyfiawn**

Mae llawer o foesegwyr heddiw yn feirniadol o werth ymarferol y Ddamcaniaeth Rhyfel Cyfiawn – yn arbennig, sut i’w chymhwyso a phwy a


fydd yn sicrhau hynny, gan nad yw’n ymddangos ei bod yn briodol ym mhob amgylchiad. Mae rhyfela modern wedi newid y sefyllfa’n fawr, a dadleua’r beirniaid nad yw’r Ddamcaniaeth Rhyfel Cyfiawn yn berthnasol mwyach.

### *Dadleuon ymarferol yn erbyn y Ddamcaniaeth Rhyfel Cyfiawn*

- Mae arfau modern yn gallu dinistrio’r byd i gyd, ac mae ymdrechion i ymosod ar dargedau milwrol yn unig yn agored i gamgymeriadau dynol.
- Mae llawer o genhedloedd, gan gynnwys rhai ansefydlog, yn gallu cael gafael ar arfau niwclear.
- Nid un genedl yn erbyn un arall yw’r rhyfel yn erbyn terfysgaeth, ond un achos yn erbyn un arall.
- Pwy, yn yr achos hwn, yw’r awdurdod cyfreithlon?
- Ni ellir mesur effeithiau byrdymor na hirdymor rhyfel niwclear.
- Gellir cymhwyso’r ddamcaniaeth at unrhyw ryfel i wneud iddo ymddangos yn gyfiawn, a gellir ei chymhwyso at y naill ochr a’r llall, yn enwedig pan fydd y ddwy yn hawlio bod eu hachos yn gyfiawn.

### *Dadleuon moesol yn erbyn y Ddamcaniaeth Rhyfel Cyfiawn*

- Mae pob rhyfel yn anghyfiawn.
- Rhaid i foesoldeb bob amser wrthwynebu trais.
- Mae Rhyfel Cyfiawn yn ystyried bod peth trais yn dderbyniol.
- Mae rhyfel yn tarfu ar yr hyn sy’n arferol mewn cymdeithas; felly, nid yw moesoldeb o unrhyw werth mewn rhyfel.
- Os yw’r achos yn un cyfiawn, ni ddylid gosod unrhyw gyfyngiadau arno.
- Nid yw terfysgwyr yn cadw egwyddorion Rhyfel Cyfiawn.
- Yn ôl egwyddor sancteiddrwydd bywyd, mae pob lladd bwriadol, gan gynnwys lladd mewn rhyfel, yn anghywir.



Pwnc Seminar:
A all fod Rhyfel Cyfiawn yn erbyn terfysgaeth?

Dros y blynyddoedd diwethaf bu peth newid yn y farn gyhoeddus yn y Gorllewin. Yn *The Moral of the Story* (2000), dywedodd Nina Rosenstand bod pobl yn y gorffennol yn ystyried bod marw dros frenin a gwlad yn aberth arwrol. Ond heddiw nid ystyrir rhyfel yn yr un ffordd. Rhoddir gwerth o hyd ar arwriaeth, anrhydedd a dewrder, ond nid ystyrir rhyfel yn beth gogoneddus mwyach. Yn ôl Rosenstand:

‘ . . . *gallwn o hyd siarad am ymddygiad moesol milwr . . . Hyd yn oed mewn storïau a chanddynt neges gwrthryfel, pwysleisir anrhydedd, gwedduster ac arwriaeth y cymeriadau o’u gwrthgyferbynnu â diffyg ystyr rhyfel.’*

Pwnc Trafod:

A oes i arwriaeth a dewrder mewn rhyfel unrhyw wir bwysigrwydd heddiw?

**‘Rhyfel Sanctaidd’**

Rhyfel crefyddol neu Ryfel Sanctaidd yw un sy’n cael ei achosi neu ei gyfiawnhau gan wahaniaethau crefyddol. Gall gwlad a chanddi grefydd sefydledig wrthdaro â gwlad arall a chanddi grefydd wahanol, neu gall grŵp a chanddo gymhellion crefyddol geisio lledaenu ei ffydd trwy drais neu wahardd grŵp arall a chanddo arferion crefyddol gwahanol.

Daeth y cysylltiad rhwng crefydd a thywallt gwaed yn rhan o hunaniaeth ddiwylliannol ac ysbrydol ffydd grefyddol. Mae gan y rhan fwyaf o grefyddau draddodiad o bobl yn ymladd ac yn marw dros y ffydd – merthyron crefyddol a gredai mai dyna yr oedd Duw am i’w ddilynwyr ei wneud.

Crefydd sy’n gyrru Rhyfel Sanctaidd. Mae iddo dair elfen:

- Cyflawni amcan crefyddol
- Bod arweinydd crefyddol yn ei awdurdodi
- Bod gwobr ysbrydol i’r sawl sy’n cymryd rhan.

Sonnir yn gyffredinol fod pump o achosion i Ryfel Sanctaidd:

- Lledaenu’r ffydd
- Adfer y ffydd mewn gwledydd a oedd gynt yn perthyn iddi
- Achub credinwyr o wledydd anghred
- Adfer a phuro lleoedd cysegredig a gipiwyd gan anghredinwyr
- Dial ar rai a fu’n cablu’r ffydd neu’n cablu credinwyr.

Nid y llywodraeth yw'r awdurdod cyfreithlon i gyhoeddi Rhyfel Sanctaidd ond yr Eglwys neu arweinwyr y ffydd, a dywedir y bydd y rhai sy'n ymladd ynddo yn cael gwobr ysbrydol gan Dduw.



Pwnc Trafod:
A yw'r achosion hyn yn cyfiawnhau Rhyfel Sanctaidd?

Fe all mai'r Rhyfeloedd Sanctaidd enwocaf oedd y Croesgadau, pan aeth byddinoedd Cristnogol i'r Wlad Sanctaidd i adfer lleoedd a oedd yn gysegredig i Gristnogion oddi ar y Mwslimiaid. Fe'u cyfiawnhawyd fel rhyfeloedd i gywiro camweddau yn erbyn Cristnogaeth. Dangoswyd ysbryd Rhyfel Sanctaidd gan y Pab Urban II, a ddywedodd, wrth roi gollyngdod oddi wrth eu pechodau i filwyr ar ddechrau'r Groesgad Gyntaf yn 1095:

*'Bydded hyn yn rhyfelgri i chi, oherwydd mae'r gair hwn wedi cael ei roi i chi gan Dduw. Pan fyddwch yn ymosod ar y gelyn, bydded i holl filwyr Duw weiddi: dyma ewyllys Duw! . . . pwy bynnag fydd yn mynd ar y bererindod sanctaidd hon gan dyngu llw i Dduw, a'i gyflwyno'i hun i Dduw yn aberth byw, bydd yn gwisgo arwydd croes yr Arglwydd ar ei dalcen.'*

Cipiodd y Croesgadwyr Cyntaf Jerwsalem a lladd ei holl ddinasyddion oedd ddim yn Gristnogion.

***Problemau Rhyfel Sanctaidd***

Mae Rhyfeloedd Sanctaidd yn aml yn cynnig negeseuon cymysg am Dduw a thrais. Ar y naill law, mae'r ysgrythurau'n dysgu'r angen am heddwch a thrugaredd; ar y llaw arall maen nhw'n annog rhyfel a thrais. Yn *Cultures of Peace:The Hidden Side of History*, ysgrifennodd Elise Boulding:

*'. . . mae testunau cysegredig yn llawn delweddau o dduw dialgar a threisgar. Mae'r rhyfelwr o dduw yn tra-arglwyddiaethu cymaint yn storïau ein cymunedau ffydd nes ei bod yn aml yn anodd clywed y stori arall am ofal dynol a thrugaredd a chymod.'*

Heddiw, efallai nad yw crefydd a rhyfel mor gysylltiedig â'i gilydd ag yr ymddengys. Mewn astudiaeth ddiweddar ym Mhrifysgol Bradford, dywedir mai ychydig iawn o '*ryfeloedd crefyddol go iawn*' a gafwyd yn y 100 mlynedd diwethaf, er i lawer a fu'n ymladd ynddyn nhw honni iddyn nhw wneud hynny oherwydd eu ffydd grefyddol. Yn ôl John Stott (1999):

'*Edmygwn deyrngarwch, hunanaberth a dewrder milwyr wrth eu swydd. Ond rhaid i ni beidio â gwneud i ryfel ei hun edrych fel rhywbeth deniadol neu ogoneddus . . . mewn rhai amgylchiadau gellir ei amddiffyn fel y lleiaf o ddau ddrwg, ond ni all Cristion byth feddwl amdano ond fel anghenraid poenus mewn byd syrthiedig.'*

Yn yr un modd, yn *Violence in God's Name***,** mae Oliver McTernan yn herio pobl o bob ffydd i archwilio eu credoau sylfaenol:

'*Nes bydd pob ffydd yn barod i hyrwyddo parch at y rhodd o fywyd uwchlaw pob cred a dogma a diddordeb arall, bydd gan grefydd bob amser y gallu i fod yn rym sy'n cau pobl allan, yn rhannu ac yn dinistrio.'*

***Y Beibl a 'Rhyfel Sanctaidd'***
Dysga'r Beibl nad yn erbyn pobl na chrefyddau y mae unrhyw wir Ryfel Sanctaidd. Dywedodd Iesu mai rhyfel ysbrydol oedd y gwir ryfel, rhwng pobl Dduw a lluoedd drygioni. Ysgrifennodd Sant Paul:

*'. . . ymarfogwch â tharian ffydd; â hon byddwch yn gallu diffodd holl saethau tanllyd yr Un drwg. Derbyniwch helm iachawdwriaeth a chleddyf yr Ysbryd, sef gair Duw'* (Effesiaid 6:16-17).

Yn ôl y Beibl, uchafbwynt y Rhyfel Sanctaidd hwn fydd y frwydr fawr derfynol, gosmig, ar ddiwedd amser – brwydr fydd yn cael ei hennill gan y Meseia a'i fyddinoedd nefol. Mae canlyniad y frwydr hon eisoes wedi'i benderfynu:

*'Pan ddaw'r mil blynyddoedd i ben, caiff Satan ei ollwng yn rhydd o'i garchar, a daw allan i dwyllo'r cenhedloedd ym mhedwar ban y byd . . . Cyrchasant dros wyneb y ddaear ac amgylchynu gwersyll y saint a'r ddinas sy'n annwyl gan Dduw. Ond disgynnodd tân o'r nef a'u difa'n llwyr; a bwriwyd y diafol, twyllwr y cenhedloedd, i'r llyn tân a brwmstan, lle mae'r bwystfil hefyd a'r gau broffwyd. Yno cânt eu poenydio ddydd a nos byth bythoedd'* (Datguddiad 20:7-10).



Pwnc Trafod:

Sut mae'r syniad Beiblaidd o Ryfel Sanctaidd yn wahanol i'r syniad a ddefnyddiwyd gan y Croesgadwyr?

***Islam a 'Rhyfel Sanctaidd'***

Enw'r Mwslimiaid ar eu gwir Ryfel Sanctaidd yn *jihad*, sy'n golygu 'ymdrechu'. Fel yn achos Cristnogaeth, mae 'Jihad mewnol' yn ymwneud â brwydr bersonol ysbrydol a seicolegol yr unigolyn i'w reoli ei hun, ac yn enwedig i oresgyn lluoedd drygioni sy'n ei rwystro rhag bod yn agos at Allah. Ymdrech ddiffuant i gyrraedd daioni ysbrydol yw Jihad. Bydd y sawl sy'n ymarfer Jihad mewnol yn cael gwobrau lawer yn y bywyd a ddaw. Dywed y Qur'an:

'*Y rhai llwyddiannus yw'r rhai sy'n credu ac yn ymdrechu dros achos Duw gyda'u cyfoeth a'u personau.'*

Fodd bynnag, y mae hefyd Jihad allanol, sy'n adlewyrchu agweddau mwy rhyfelgar Islam. Mae'r Qur'an yn dysgu, er bod rhyfel yn beth cyffredinol ddrwg, bod yna rai amgylchiadau pan fydd crefydd Islam yn goddef yr arfer o ymladd Rhyfel Sanctaidd yn ei henw i'r dibenion a ganlyn:

- rhwystro ymosodwr
- ymladd yn erbyn gorthrwm
- hunanamddiffyniad
- sefydlu cyfiawnder a rhyddid i ymarfer crefydd.

Fel yn achos y syniad Cristnogol o Ryfel Cyfiawn, y mae i'r Jihad allanol reolau manwl:

- Rhaid peidio ag ymladd i ennill tiriogaeth
- Rhaid i arweinydd crefyddol ei lansio
- Rhaid ei ymladd i sefydlu heddwch
- Rhaid mai dyma'r dewis olaf
- Rhaid peidio â thargedu dinasyddion sifil diniwed
- Rhaid trin gelynion â chyfiawnder
- Mae rhyfela cemegol yn cael ei wahardd.

Pwnc Seminar:
Beth yw'r prif bethau sy'n debyg a'r prif wahaniaethau rhwng y fersiynau Cristnogol ac Islamaidd o Ryfel Sanctaidd?

Cafodd y syniad o 'Ryfel Sanctaidd' Islamaidd sylw mawr yng nghyfryngau'r Gorllewin yn dilyn yr ymosodiadau ar Ganolfan Fasnach y Byd a gweithgareddau eraill gan grwpiau cysylltiedig ag al-Qaeda. Oddi mewn i Islam, mae llawer o ansicrwydd ynglŷn â natur Rhyfel Sanctaidd ac mae testunau yr ymddengys eu bod yn cefnogi defnyddio trais a rhyfel, fel y nododd Karen Armstrong yn 'When God Goes to War' (*The Guardian*, 29 Rhagfyr 2003):

'*Mae'r holl ysgrythurau'n dwyn creithiau eu cenhedlu treisgar; y mae felly'n hawdd i eithafwyr ddod o hyd i destunau sy'n rhoi sêl bendith ddwyfol ar gasineb'.*

Mae Caner a Caner yn *Unveiling Islam* (Kragel Publications, 2002) yn honni mai digwyddiadau diweddar fel yr ymosodiad ar Ganolfan Fasnach y Byd ar 9/11 oedd '*arwyddion cyntaf'* Rhyfel Sanctaidd a gyhoeddwyd ar Unol Daleithiau America ar 23 Chwefror 1998 gan bum califfiaeth a oedd yn credu bod Duw wedi dweud wrthynt am:

*'… ladd pawb o'r Americaniaid a'u cynghreiriaid'*.

Awgrymant mai anghywir yw dehongli Jihad fel ymdrech ddeallusol ac mai ei amcan yw dinistrio rhai nad ydynt yn Fwslimiaid:

*'Os myn neb grefydd heblaw Islam, ni dderbynnir hynny ganddo byth'* (Surah 3:85).

Felly, efallai nad yw'n syndod darllen gweddi Muhammad Atta ychydig cyn iddo hedfan awyren i mewn i Ganolfan Fasnach y Byd ar 11 Medi 2001:


*'O Dduw agor bob drws i mi . . . O Dduw, rhoddaf fy hun yn dy ddwylo. Gofynnaf i oleuni dy ffydd, a oleuodd yr holl fyd a llewyrchu drwy holl dywyllwch y ddaear, fy nhywys . . .'*

Os yw'n wir bod hwn yn Rhyfel Sanctaidd, efallai nad crefydd wnaeth ei achosi o gwbl, ond tlodi, gormes ac anghydraddoldeb. Mewn rhai rhannau o'r Dwyrain Canol, ac mewn mannau eraill, daeth pobl i feddwl am wledydd cyfoethog y Gorllewin fel gwledydd trachwantus, hunanol a gormesol. Nid oedd yr ymosod ar Iraq ac Afghanistan a'r cam-drin honedig ar garcharorion Bae Guantanamo yn ddim cymorth. Mae hyn i gyd yn dir ffrwythlon i eithafiaeth grefyddol ac i alwadau am Ryfel Sanctaidd. Dywedodd Osama Bin Laden:

'*Dyma America wedi'i tharo gan Dduw Hollalluog yn un o'i horganau hanfodol fel bod ei hadeiladau pwysicaf yn cael eu dinistrio . . . tyngaf i Dduw Hollalluog . . . na chaiff yr Unol Daleithiau na'r sawl sy'n byw yn yr Unol Daleithiau fwynhau diogelwch nes bydd . . . holl fyddinoedd yr anghrediniwr wedi ymadael â gwlad Muhammad.'*

Cynhyrchodd yr olwg hon ar ryfel hunanfomwyr sy'n credu eu bod, trwy eu ffrwydro eu hunain a lladd gelynion eu ffydd, yn sicrhau bywyd tragwyddol ym Mharadwys. O'i gweld yn y ffordd hon, mae crefydd nid yn unig yn cyfiawnhau trais, ond mae Duw ei hun fel petai'n ei orchymyn. Dyma safbwynt hyd yn oed yr Arlywydd Bush, a ddywedodd:

'*Dywedodd Duw wrthyf am daro al-Qaeda ac fe'u trawais, ac yna fe'm cyfarwyddodd i daro Saddam, ac fe wnes i hynny.'*



Pwnc Seminar:
A yw'r gwrthdaro rhwng y Gorllewin ac Al-Qaeda yn:
(a) Rhyfel Sanctaidd
(b) Rhyfel Cyfiawn
(c) dim un o'r ddau?

Tasg Ysgrifennu:

Esboniwch y gwahaniaethau rhwng Rhyfel Sanctaidd a Rhyfel Cyfiawn.

Pwnc Seminar:
I ba raddau y mae cysyniadau Rhyfel Cyfiawn yn berthnasol i ryfela a gwrthdaro heddiw?
A oes unrhyw le dilys i Ryfel Sanctaidd yn y byd sydd ohoni?

**Moeseg Cynhyrchu a Gwerthu Arfau**

Mae cynhyrchu a gwerthu arfau yn codi cwestiynau moesegol a moesol difrifol oherwydd gall gwneud a gwerthu arfau at ryfel ymddangos cynddrwg â'u defnyddio. Mae hyn yn codi llawer o gwestiynau:

- A oes gwahaniaeth rhwng rhoi neu werthu gwn i rywun a'i ddefnyddio eich hun?
- Os ydych yn gwneud gwn a'i werthu i rywun y gwyddoch y bydd yn ei ddefnyddio i ladd rhywun, a ydych chi yr un mor euog?
- A yw'n dderbyniol cynhyrchu a gwerthu arfau i unbenaethiaid creulon a llywodraethau gormesol?
- Ai dim ond i wladwriaethau cyfeillgar a democrataidd y dylid gwneud a gwerthu arfau?
- Ai diben gwneud a gwerthu arfau yw elwa ar ryfel a thywallt gwaed?
- Ai dyma'r pris sy'n rhaid i wledydd ei dalu i fod yn rhydd o ormes tramor?
- A fyddai'n well gwario'r arian a werir ar arfau i fwydo'r newynog?
- Sut y gellir rheoli cynhyrchu a gwerthu arfau?
- A yw'n iawn caniatáu i wledydd hel cyflenwad o arfau heb unrhyw arolygu na chyfyngu?

Dywedodd Oscar Arias Sanchez, enillydd Gwobr Heddwch Nobel ac Arlywydd Costa Rica:

'*Pan benderfyna gwlad fuddsoddi mewn arfau, yn hytrach nag mewn addysg, tai, amgylchedd ac iechyd ei phobl, y mae'n amddifadu cenhedlaeth gyfan o'i hawl i ffyniant a hapusrwydd. Mae gennym un gwn am bob deg preswyliwr ar y blaned ac eto nid ydym wedi trafferthu rhoi terfyn ar newyn er bod hynny o fewn ein cyrraedd yn hawdd.'*

Tasg Ysgrifennu:
(a) Archwiliwch ac esboniwch y dadleuon dros ac yn erbyn cynhyrchu a gwerthu arfau.
(b) 'Nid oes dim gwahaniaeth moesol rhwng (a) gwneud arfau a (b) gwerthu arfau.' – Gwerthuswch y safbwynt hwn.

Pwnc Ymchwil:
Gan gyfeirio at nifer o ryfeloedd diweddar (e.e. yr Ail Ryfel Byd, Rhyfel y Gwlff, etc.), archwiliwch ac ystyriwch y canlynol:

- A oeddent yn ateb gofynion Rhyfel Cyfiawn neu Ryfel Sanctaidd?
- Pwy oedd yn brwydro? A oedd yna unrhyw arwyddocâd crefyddol?
- A oedd a dinasyddion preifat yn gysylltiedig â'r rhyfel? Beth oedd eu hagwedd nhw?
- Sut yr oedd pobl o'r tu allan yn gweld y rhyfel?
- Beth oedd rhai o ganlyniadau'r rhyfel?

**Moeseg Arfau Niwclear**

Mae'n bosibl i arfau niwclear ac Arfau Dinistrio Torfol eraill – arfau cemegol a biolegol, er enghraifft – ddifa ardaloedd eang, lladd miliynau o bobl a dinistrio pob bywyd ar y blaned. Mae llawer o ddadleuon moesegol o blaid ac yn erbyn bod ag arfau niwclear.

O blaid arfau niwclear ac Arfau Dinistrio Torfol

- Nhw yw'r ataliad eithaf; ni fydd gwlad elyniaethus yn ymosod ar wlad y mae ganddi arfau niwclear neu Arfau Dinistrio Torfol rhag iddi gael ei dinistrio ei hun.
- Ers diwedd yr Ail Ryfel Byd mae bodolaeth arfau o'r fath wedi cadw'r heddwch; felly y mae ataliad niwclear yn gweithio.

Yn erbyn arfau niwclear ac Arfau Dinistrio Torfol

- Maen nhw'n mynd y tu hwnt i holl amodau Rhyfel Cyfiawn.
- Gallant achosi colli llawer o fywydau diniwed.
- Maen nhw'n aruthrol o ddrud.
- Gallant beri dinistr mawr yn nwylo terfysgwyr neu wladwriaethau treisgar.

Dywedodd Pax Christi, y Mudiad Heddwch Cristnogol byd-eang:

'*Mae bod ag arfau o'r fath a bygwth eu defnyddio yn sarhad ar fywyd ac yn gamddefnydd enbyd ar bŵer a statws mewn byd bregus. Ni ddaw arfau niwclear â diogelwch i ni, ac ni allant ddod â diogelwch i ni; yn hytrach, i'r gwrthwyneb, maen nhw'n debygol o achosi gelyniaeth a chasineb.'*

Galwodd y Pab Benedict XVI am ddiarfogi niwclear:

'*Mewn rhyfel niwclear ni fyddai dim buddugwyr, dim ond dioddefwyr . . . dylai'r gwledydd hynny y mae ganddynt arfau niwclear gydymdrechu am ddiarfogi niwclear cynyddol.'*

Datganodd Ail Gyngor y Fatican:

'*Mae unrhyw weithred ryfelgar a anelir yn ddiwahân at ddinistrio dinasoedd cyfan neu ardaloedd eang a'u poblogaeth yn drosedd yn erbyn Duw a dyn.'*

Yn ôl adroddiad Eglwys Loegr, *The Church and the Bomb*:

*'Ni ellir defnyddio arfau o'r fath heb niweidio rhai nad ydynt yn ymladd ac ni allant byth fod yn gymesur ag achos cyfiawn ac amcan rhyfel.'*

Pwnc Seminar:
A oes gwahaniaeth moesol rhwng defnyddio arfau niwclear a defnyddio Arfau Dinistrio Torfol?

Pwnc Ymchwil:
Ewch ati i ddarganfod pa wahanol fathau o Arfau Dinistrio Torfol sydd. Pam oedd pwnc Arfau Dinistrio Torfol mor dyngedfennol cyn Ail Ryfel y Gwlff?

**Moeseg rhagymosod**

Rhagymosod yw gweithred filwrol gan wlad mewn ymateb i fygythiad oddi wrth wlad arall i atal y wlad honno rhag gweithredu ei bwriad.

Enghraifft dda yw'r Rhyfel Chwe Diwrnod yn 1967, pan ragymosododd Israel ar yr Aifft. Cyn y rhagymosodiad, yr oedd yr Aifft wedi:

- Cyhoeddi polisi o elyniaeth at Israel
- Rhoi ei lluoedd arfog ar y wyliadwriaeth uchaf
- Cryfhau ei lluoedd ar y ffin ag Israel
- Ffurfio cynghreiriau milwrol gyda gelynion Israel.

Yn wyneb hyn, rhagymosododd Israel.

Dywed y rhai sy'n cefnogi'r syniad o ragymosod ei fod yn ddilys oherwydd:

- Mae'n iawn gweithredu mewn ymateb i fygythiad cyn ei bod yn rhy hwyr.
- Fel arall, gallai eich gwlad gael ei goresgyn a'r bobl gael eu lladd.

Pwnc Trafod:
Pa enghreifftiau eraill o ragymosod y gallwch feddwl amdanynt?

Dadleua'r rhai sy'n gwrthwynebu rhagymosod ei fod yn groes i'r Ddamcaniaeth Rhyfel Cyfiawn oherwydd:

- ei fod yn digwydd cyn i'r ochr arall ymosod; felly y wlad sy'n rhagymosod yw'r ymosodwr;
- mae'n gallu digwydd cyn cyhoeddi rhyfel yn gyfreithlon.

Tasg Ysgrifennu:
(a) Esboniwch y dadleuon dros ac yn erbyn bod ag arfau niwclear.
(b) 'Mae'r hawl i hunanamddiffyniad yn cyfiawnhau rhagymosod.' Gwerthuswch y safbwynt hwn.

**Heddychiaeth**

Dros y blynyddoedd diwethaf bu cynnydd yn nerth a phoblogrwydd y mudiad Heddychiaeth yn y Gorllewin. Mae'n deillio o eiriau Crist, a anogodd ei ddilynwyr i drin eu gelynion nid â chasineb ond â charedigrwydd:

*'Carwch eich gelynion, a gweddïwch dros y rhai sy'n eich erlid'* (Mathew 5:44).

Dysgodd Crist ei ddilynwyr hefyd (Mathew 5:38–48):

- i beidio â gwrthwynebu pobl ddrwg
- i droi'r foch arall
- i weddïo dros eu herlidwyr.

Argymhellwyd egwyddorion Heddychiaeth gan Conrad Grebel, arweinydd y Brodyr Swistirol, a ddywedodd yn 1524:

'*Nid yw gwir Gristnogion yn defnyddio cleddyf bydol nac yn rhyfela, oherwydd yn eu plith nhw y mae cymryd bywyd dynol wedi llwyr beidio . . . Nid yw'r Efengyl na'r rhai sy'n ei derbyn i'w hamddiffyn â'r cleddyf, ac nid felly ychwaith y dylent eu hamddiffyn eu hunain.'*

Daeth Heddychiaeth i'r amlwg yn ystod yr Ail Ryfel Byd pan oedd y rhai a wrthodai ymladd yn cael eu hadnabod fel 'gwrthwynebwyr cydwybodol'. Aeth llawer ohonynt i swyddi anymladdol yn y lluoedd arfog – yn feddygon, staff meddygol ac arlwywyr, er enghraifft. Carcharwyd y rhai a wrthododd.

Heddiw, nid yw Heddychiaeth yn cael ei chyfyngu i Gristnogion. Mae heddychwyr yn cefnogi'r egwyddor o sancteiddrwydd bywyd, yn honni bod pob lladd bwriadol mewn rhyfel yn beth drwg, ac yn dadlau nad oes gan lywodraeth yr hawl i orchymyn pobl i ymladd.

Er bod heddychwyr yn credu na ellir cyfiawnhau rhyfel ac y dylid datrys gwrthdaro mewn modd heddychol, nid ydynt, serch hynny, yn gwbl gytûn â'i gilydd, ac y mae sawl gwahanol fersiwn ar Heddychiaeth:

- **Heddychiaeth lwyr** neu **absoliwt** – mae'r heddychwyr hyn yn cymryd y safbwynt na ddylid defnyddio grym milwrol o gwbl – pa un bynnag a yw'r achos yn un cyfiawn ai peidio. Mae gwerth bywyd dynol mor uchel fel na all dim gyfiawnhau lladd pobl.

- **Heddychiaeth gymharol, ddethol,** neu **amodol** – mae'r heddychwyr hyn yn gwrthwynebu rhyfel a thrais ond yn credu y gall fod rhai sefyllfaoedd lle y byddai rhyfel yn llai drwg na'r dewis arall. Penderfynir hyn yn aml ar egwyddorion Iwtilitaraidd – y gall canlyniad da orbwyso penderfyniad drwg (rhyfel).

- **Heddychiaeth ddethol/niwclear** – mae'r heddychwyr hyn yn derbyn rhyfel a thrais i ryw raddau ond yn gwrthwynebu rhyfel niwclear a defnyddio Arfau Dinistrio Torfol ar y sail na ellir ennill rhyfeloedd o'r fath.

Mae Heddychiaeth yn achosi cyfyng-gyngor i Gristnogion – a ddylent ymladd yn erbyn y drwg ai peidio? Tanlinellodd John Stott y gwrthdaro moesol yn *Issues Facing Christians Today*:

'*Mae ceisio heddwch yn beth llawer mwy costus na dyhuddiad. Edmygwn deyrngarwch, hunanaberth a dewrder milwyr wrth eu swydd. Ond rhaid i ni beidio â gwneud rhyfel yn beth deniadol na'i ogoneddu . . . mewn rhai amgylchiadau gellir ei amddiffyn fel y lleiaf o ddau ddrwg, ond ni all Cristion byth feddwl amdano ond fel anghenraid poenus mewn byd syrthiedig.*' John Stott, *Issues Facing Christians Today*, (1999).

Pwnc Seminar:
A ddylai pob Cristion fod yn heddychwr?
Ai esgus dros lwfrdra yw heddychiaeth?

***Math arbennig o Heddychiaeth – y Dull Di-drais***

Dull o weithredu'n gadarnhaol yn erbyn gormes ac i beri newid yw'r dull di-drais. Yr un enwocaf i'w ddefnyddio oedd Gandhi. Amcan y dull di-drais yw ennill calonnau a meddyliau'r gwrthwynebwyr a'u perswadio i ddatrys anghydfod yn heddychlon. Ymhlith dulliau di-drais o brotestio y mae:

- Gwrthdystiadau heddychlon
- Cynnal gwylnosau
- Ymprydio a streiciau newyn
- Gwarchaeau
- Anufudd-dod heddychlon.

'*Arf y cryf ydyw, nid yw'n caniatáu unrhyw drais mewn unrhyw amgylchiadau o gwbl; ac y mae bob amser yn mynnu'r gwir.'* – Gandhi

**Beirniadu Heddychiaeth**

- Mae heddychwyr weithiau'n euog o dderbyn gormes a gorthrwm
- Dylai heddychwyr frwydro yn erbyn drygioni
- Ni all Heddychiaeth fod yn bolisi gwladol oherwydd byddai'n gadael y wlad yn agored i'w goresgyn gan ymosodwr
- Mae'n ddyletswydd ar lywodraethau i amddiffyn eu pobl
- Nid oes lle i Heddychiaeth yn wyneb drygioni eithafol.

Pwnc Seminar:
A oes byth gyfiawnhad moesol dros Heddychiaeth ar adeg o ryfel?

Tasg Ysgrifennu:
(a) Archwiliwch sylfaen a phrif nodweddion Heddychiaeth
(b) Ystyriwch yn feirniadol y safbwynt bod heddychiaeth yn ymateb afrealistig i sefyllfaoedd o wrthdaro heddiw.

# Pwnc Pedwar: Moeseg Feddygol a Genynnol

AMCAN
Ar ddiwedd y pwnc hwn dylech allu:

- esbonio a gwerthuso problemau sy'n codi o gyfyng-gyngor meddygol yn cynnwys erthylu, lles babanod cynamserol iawn ac ewthanasia
- esbonio a gwerthuso cwestiynau sy'n codi o drin genynnol, yn cynnwys clonio ac ymchwil i fôn-gelloedd
- esbonio a gwerthuso safbwyntiau Peter Singer ar rai o'r pynciau hyn
- esbonio a gwerthuso safbwyntiau Cristnogol ar y pynciau hyn.

**1. Problemau moesegol meddygaeth**

Mae moeseg feddygol yn arbennig o bwysig ym maes moeseg ymarferol neu gymwysedig yn y byd modern. Cododd cwestiynau moesegol mewn perthynas ag ymarfer a gweithdrefnau meddygol ers dechreuad meddygaeth ffurfiol ac, fel yr eglura'r Llw Hipocrataidd, sy'n hynafol ond yn dal yn hynod o berthnasol, mae gan bobl broffesiynol ym myd meddygaeth gyfrifoldeb mawr i ofalu am gleifion mewn modd sy'n foesegol briodol. Mae ymarfer meddygol wedi newid yn llwyr ers y dyddiau cynnar, a bu pob newid a datblygiad yn agored i heriau ac anghydfod ynglŷn â moeseg. Gan fod credoau crefyddol ar faterion moesol yn aml yn arafach i newid nag yw datblygiadau meddygol, sy'n esblygu ac yn symud ymlaen yn gyson, mae gwrthdaro anochel dros beth sy'n iawn neu ddim yn iawn, o fudd neu'n beryglus, ac mae'n aml yn anodd i gredinwyr benderfynu pa arferion meddygol y gellir eu cyfiawnhau. Dros y degawdau diwethaf cefnogwyd datblygiadau mewn arferion meddygol gan ddeddfwriaeth newydd, ond nid yw cyfreithloni technolegau meddygol newydd yn ddigon bob amser i fodloni moesegwyr a moesolwyr crefyddol. Er enghraifft, pan gyfreithlonwyd erthylu yn 1967, ni newidiwyd statws moesol erthylu, dim ond ei gwneud hi'n gyfreithlon i ferch derfynu beichiogrwydd dan rai amodau. Parhaodd y ddadl foesol byth oddi ar hynny.

Mae pob datblygiad mewn meddygaeth yn achosi llu o benderfyniadau newydd y mae'n rhaid i feddygon a moesegwyr eu hwynebu. Gwnaeth meddygaeth fodern hi'n bosibl i fabanod cynamserol iawn ddatblygu i fod yn blant iach, ac i gadw cleifion sy'n farw, yn ôl pob maen prawf cyfreithiol a meddygol, yn artiffisial 'fyw' er mwyn cadw eu horganau i'w trawsblannu. Mae'r hawl i fyw yn gysyniad adnabyddus a threuliedig, ond mae moesegwyr modern, a hyd yn oed 'enwogion' blaenllaw fel Terry Pratchett a Stephen Fry, yn ymboeni'n awr am sefydlu bod yr hawl i farw yr un mor bwysig. I lawer o bobl mae'r syniad yn un gwrthun a pheryglus; i eraill, yr un mor wrthun yw ei wadu.

Daeth datblygiad technoleg enynnol hefyd â llu o faterion newydd i'w hystyried: dechreuodd yr ymchwil i fôn-gelloedd greu buddiannau therapiwtig o bwys, ond mae o hyd anghytuno ffyrnig pa un ai bôn-gelloedd embryonig ai bôn-gelloedd oedolion sydd fwyaf gwerthfawr, cwestiwn y mae'n bwysig ei ddatrys am fod bôn-gelloedd embryonig yn codi llawer mwy o broblemau moesegol na bôn-gelloedd oedolion. Gwnaeth peirianneg genetig hi'n bosibl cynhyrchu'r sibling-waredwyr cyntaf a sicrhau y caiff plant eu geni heb ragdueddiad at etifeddu afiechydon peryglus. Ond nid yw'r datblygiadau hyn eto heb eu heriau na hyd yn oed eu peryglon posibl, fel y dengys y ffilm *Gattaca,*1997.

I gredinwyr crefyddol, y broblem gyda nifer o faterion mewn moeseg feddygol yw a ddylid seilio penderfyniadau ynglŷn â datblygiadau ym maes technoleg feddygol ar egwyddorion crefyddol, neu a yw'r egwyddorion hynny yn amherthnasol. Mae technoleg feddygol yn mynd rhagddi'n gyson, a datblygir triniaethau newydd bron bob dydd. Ond rhaid rheoleiddio'r triniaethau newydd a chadw golwg arnynt, ac mae'r un peth yn wir am yr arbrofi mewn labordai wrth eu datblygu. Mae'n bosibl iawn y gall apelio at ddysgeidiaeth grefyddol fod yn un ffordd o fonitro'r datblygiadau hyn, fel hefyd y gall apelio at ddyngarwch, rheswm a phrofiad. Ond mewn rhai achosion fe fydd credinwyr yn debyg o ddadlau mai'r ddysgeidiaeth grefyddol ddylai fod y brif ystyriaeth wrth benderfynu. Ar y llaw arall, bydd anghredinwyr a meddylwyr crefyddol mwy rhyddfrydig yn ymwybodol o beryglon rhoi egwyddorion o flaen pobl mewn maes lle y gwneir penderfyniadau ar fywyd a marwolaeth yn ddyddiol ac y gellir colli cyfle i wneud daioni os clymir dwylo meddygon gan gredoau crefyddol.



Pwnc Trafod:
Beth yw eich teimlad cychwynnol ynglŷn â hyn? A ydych yn meddwl y dylai credoau crefyddol ddylanwadu ar ddatblygiadau mewn meddygaeth? Ysgrifennwch yr hyn yr ydych yn ei deimlo ar hyn o bryd – peidiwch â chael eich temtio i'w olygu nac i feddwl gormod am safbwyntiau croes. Nodwch un maes mewn moeseg feddygol sy'n peri pryder i chi, a pham. Nodwch dri chwestiwn am y maes hwnnw yr ydych yn gobeithio y bydd eich astudiaeth o foeseg feddygol yn gymorth i'w hateb.

## 2. Materion mewn moeseg feddygol

Mae materion moeseg feddygol yn aml yn troi o gwmpas dau gysyniad pwysig: y canfyddiad o sancteiddrwydd bywyd a chwestiwn bod yn berson.

Mynegir egwyddor sancteiddrwydd bywyd yn aml fel egwyddor grefyddol, yn deillio o ddysgeidiaeth Genesis 2:7: *'Yna lluniodd yr Arglwydd Dduw ddyn o lwch y tir, ac anadlodd yn ei ffroenau anadl einioes; a daeth y dyn yn greadur byw*.' Mae Salm 139:13-24 hefyd yn cefnogi'r safbwynt mai Duw sy'n gyfrifol am bob bywyd dynol hyd yn oed o'i genhedlu: *' Ti a greodd fy ymysgaroedd, a'm llunio yng nghroth fy mam. Clodforaf di, oherwydd yr wyt yn ofnadwy a rhyfeddol, ac y mae dy weithredoedd yn rhyfeddol'.* Dywedodd Duw wrth y proffwyd Jeremeia: *'Cyn i mi dy lunio yn y groth, fe'th adnabûm; a chyn dy eni,*

*fe'th gysegrais'* (Jeremeia 1:5), a defnyddir yr adnod hon hefyd yn aml i amddiffyn y safbwynt bod bywyd yn dechrau gyda'r cenhedlu. Parheir i gefnogi'r egwyddor yn y Testament Newydd; er enghraifft yn Actau 17:25, dywed Paul: *'ef ei hun sy'n rhoi i bawb fywyd ac anadl a'r cwbl oll.'* Ar sail y ddysgeidiaeth hon, *os* yw bywyd yn gysegredig (wedi'i neilltuo i bwrpas Duw) ac wedi'i greu gan Dduw, yna, trwy ddiffiniad, rhaid mai Duw biau rheoli ei ddiwedd yn ogystal â'i ddechrau. Unwaith y mae Duw wedi cychwyn bywyd, dim ond ef sy'n gallu ei derfynu. Felly, mae afiechyd sy'n arwain at farwolaeth naturiol yn fater o fywyd llawn a derfynir gan Dduw yn ei amser ei hun ac yn ôl ei bwrpas ei hun, ond y mae ewthanasia yn her i ewyllys Duw.

Mae'n bosibl, serch hynny, credu yn sancteiddrwydd bywyd heb gyfeirio at egwyddorion crefyddol ond yn hytrach at werth cynhenid bywyd, safbwynt y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn ei dderbyn. Mae'r egwyddor hon yn dal fod gan fodau dynol diniwed, ac eithrio mewn rhai amgylchiadau arbennig, yr hawl i beidio â chael eu lladd yn fwriadol, ac ni ddylid ychwaith eu cynorthwyo i'w lladd eu hunain. Mae bywyd yn werthfawr ac, er nad oes angen ei amddiffyn beth bynnag y gost, rhaid cymryd o ddifrif unrhyw golli bywyd, ac ni ddylid byth derfynu bywyd i arbed arian neu i osgoi anghyfleustra i eraill. Mae gorchymyn diamod Kant a'r fformiwla o ddiben ynddo'i hun yn cynnig arweiniad yma trwy annog meddygon i feddwl am eu cleifion fel unigolion gwerthfawr, nid fel nwyddau neu gyfleoedd i hyrwyddo technoleg feddygol.

Mae **Jonathan Glover** yn ei lyfr ***Causing Death and Saving Lives*** yn cynnig enghraifft o'r modd y gellir deall egwyddor sancteiddrwydd bywyd mewn cyd-destun anghrefyddol. Dadleua fod a wnelo '*llawer o'r rhesymau posibl dros beidio â lladd rhywun â sgil-effeithiau'* ac awgryma '*pan fydd dyn farw neu pan gaiff ei ladd, efallai y bydd ei rieni, ei wraig, ei blant neu ei gyfeillion yn drist . . . bydd y gymuned yn colli pa gyfraniad da bynnag y byddai'r dyn wedi ei wneud iddi . . . gall y weithred o ladd gynorthwyo i wanhau'r amharodrwydd cyffredinol i gymryd bywyd neu gellir meddwl ei bod yn gwneud hynny.'* Rhaid felly cynnal ac amddiffyn egwyddor sancteiddrwydd bywyd gan y gall cymryd bywyd rhywun '*wneud rhywfaint i danseilio synnwyr diogelwch pawb.'*



Pwnc Trafod:

A yw hyn yn gwneud synnwyr i chi, neu a oes gan y term 'sancteiddrwydd bywyd' oblygiadau mor grefyddol fel na ellir ei ddefnyddio mewn cyd-destun anghrefyddol? Os felly, a allwn ni sôn am werth cynhenid bywyd dynol o safbwynt dyngarol neu ryw safbwynt anghrefyddol arall? Beth sy'n rhoi gwerth i fywyd os oes iddo arwyddocâd crefyddol? Pa awdurdod sydd gan adnodau o'r Beibl pan dynnir nhw o'u cyd-destun? A ellir eu cymhwyso at sefyllfaoedd sydd ymhell iawn o'r amser yr ysgrifennwyd nhw?

Nid yr un peth yw bywyd a *bod yn berson*. Gall bywyd berthyn i unrhyw beth byw – mae bywyd gan lysieuyn a physgodyn a phryfyn a chan bob mamal anddynol. Dim ond bodau dynol a all fod yn bersonau. Dyna sy'n eu gwahanu


oddi wrth fywyd biolegol. A'r cysyniad o fod yn berson sy'n peri i ni wneud deddfau pwysig ynglŷn â bodau dynol ac i roi arnynt werth arbennig hyd yn oed os nad oes gennym gymhellion crefyddol dros wneud hynny.

Dadleua Mary Anne Warren mai nodweddion bod yn berson yw:

- ymwybyddiaeth a'r gallu i deimlo poen
- gallu datblygedig i resymu
- gweithgaredd o'i ben a'i bastwn ei hun
- gallu i gyfathrebu amrywiaeth o negeseuon
- hunanymwybyddiaeth.

Nid pawb sy'n cytuno ar y meini prawf hyn gan nad yw'r holl bethau a restrir yn perthyn i fabanod newydd-anedig nac ychwaith i rai oedolion. Gellir dweud, fodd bynnag, fod gan bob ffetws iach y *potensial* i fod â'r nodweddion hyn ac y dichon iddo felly fod yn berson. O ganlyniad, mae'n haeddu'r parch a roddir i bersonau, ond nid yw o angenrheidrwydd yn briodol rhoi iddo'r *hawliau* a fydd ganddo pan ddatblyga i fod yn berson cyflawn.

Gellir hefyd gysylltu'r cysyniad o fod yn berson â'r ffaith bod gennym hawliau dynol na ellir eu rhoi i rywogaethau eraill – rhyddid i lefaru, er enghraifft. Am ein bod yn rhyngweithio â phobl eraill mewn modd ystyrlon, byddwn yn ystyried materion sy'n ymwneud â bywyd a marwolaeth pobl yn wahanol iawn i'r modd y byddwn yn ystyried materion sy'n ymwneud â bywyd a marwolaeth anifeiliaid. Er na fyddai pawb yn cytuno bod hyn yn wahaniaeth teg, mae'r cwestiynau sy'n codi o derfynu bywyd ci sy'n derfynol wael yn wahanol iawn i'r rhai sy'n codi o derfynu bywyd bod dynol sy'n derfynol wael.



Pwnc Seminar:
Mewn grwpiau bach trafodwch beth yr ydych yn ei feddwl sy'n eich gwneud yn berson, gan gofio na fydd hyn o anghenraid yr un peth i bawb ohonoch – fe wna'r gwahanol atebion y dasg yn fwy diddorol. Yna ystyriwch sut y byddech yn teimlo petai un neu fwy o'r elfennau hyn yn cael eu cymryd oddi wrthych. A fyddech am i feddygon barhau â thriniaeth ymosodol i achub eich bywyd? Pam? Pam ddim? Byddwch yn barod i ddweud eich atebion wrth weddill y dosbarth.

## 3. Erthylu

**Erthylu** yw terfynu bywyd ffetws yn y groth. Gellir ei alw'n *erthylu llawfeddygol* neu'n *erthylu therapiwtig*, i egluro mai'n feddygol y gwnaed ef. Gelwir erthylu digymell neu naturiol yn 'golli plentyn'. Nid oes dim problemau moesegol ynglŷn â cholli plentyn, wrth gwrs, ond y mae erthylu, er ei fod yn gyfreithlon yn y DU ers dros 40 mlynedd, yn dal i achosi dadlau ac anghytuno.

Mae erthylu'n un o'r dilemâu sy'n achosi'r dadlau moesol, gwleidyddol a chrefyddol tanbeitiaf yn y byd datblygedig. Fe'i hystyrir yn fater hollbwysig i ennill neu golli cefnogaeth mewn etholiadau cyffredinol yn Unol Daleithiau America. Y cwestiwn yw a ydyw'r ffetws (y cyfeirir ato weithiau, gyda mwy o

deimlad, fel y plentyn sydd heb ei eni) yn fod dynol, neu'n berson.

Yn ôl y sawl sy'n credu ei fod yn berson:

- *'Nid yw'n iawn cymryd bywyd dynol.'*
- *'Mae ffetws yn fywyd dynol.'*
- *'Mae erthylu, felly, yn beth anghywir.'*

Mae'r sawl sy'n haeru nad yw'n berson yn gallu dadlau:

- *'Nid yw'n iawn cymryd bywyd dynol.'*
- *'Mae ffetws yn fywyd dynol posibl ond nid yn wir fywyd dynol.'*
- *'Nid yw erthylu, felly, yn beth anghywir.'*

Mae'n amlwg, felly, fod yna gryn anghytuno ar ba bryd y mae bywyd dynol yn dechrau. Gellir awgrymu pump achlysur posibl, y cwbl ohonynt yn seiliedig ar gredoau a barnau meddygol, cyfreithiol, cymdeithasol, moesegol a chrefyddol:

1. Ar eiliad y ffrwythloni?
2. Ar yr eiliad pan blennir yr wy a ffrwythlonwyd yn wal y groth?
3. Ar yr eiliad pan symuda'r ffetws yn y groth (y bywiocáu)?
4. Ar yr adeg pan fyddai'n bosibl, mewn egwyddor, i'r ffetws gael ei eni'n fyw a bodoli'n annibynnol ar ei fam? Gelwir hyn yn hyfywedd.
5. Adeg y geni?

Roedd erthylu'n anghyfreithlon yn y DU tan 1967. Felly, roedd yn rhaid i ferch a oedd am gael erthyliad derfynu ei beichiogrwydd yn anghyfreithlon, yn aml dan amodau peryglus a gyda staff anghymwys, gan beryglu ei bywyd a'i hiechyd. Achosodd hyn ddadlau mawr, gyda chefnogwyr cyfreithloni erthylu'n haeru y byddai merch a oedd am gael erthyliad yn sicr o'i gael beth bynnag, ac y byddai cyfreithloni erthylu yn ei harbed o leiaf rhag dioddef mwy.

O ganlyniad, cyfreithlonwyd erthylu o dan **Ddeddf Erthylu 1967** (a ddiwygiwyd yn 1990), sy'n caniatáu erthylu hyd at bedwaredd wythnos ar hugain beichiogrwydd os yw dau feddyg yn cytuno y gellir cymhwyso o leiaf un o'r amodau canlynol:

a. Bod bywyd y fam mewn perygl.
b. Bod iechyd corfforol neu feddyliol y fam mewn perygl.
c. Y gallai'r plentyn gael ei eni gydag anabledd difrifol.
ch. Bod perygl i iechyd plant eraill y fam.

Ni chaniateir erthylu diweddarach ond am resymau eithriadol. Mae dros 200,000 o erthyliadau cyfreithlon yn y DU bob blwyddyn a gwneir y rhan fwyaf yn ystod deuddeg wythnos cyntaf beichiogrwydd. Mae nifer gynyddol o ferched yn eu harddegau yn cael erthyliad, gan gynnwys 1000 o ferched 15 oed. Yn y DU y mae'r nifer uchaf o erthyliadau yn Ewrop.

Mae'n debyg y newidir y Ddeddf Erthylu yn y dyfodol agos, gan fod pleidwyr dewis (sy'n dadlau mai hawl y fam i ddewis parhau â'i beichiogrwydd neu beidio yw'r peth pwysicaf) yn wynebu gwrthwynebiad oddi wrth bleidwyr

bywyd (sy’n dadlau gan fwyaf mai’r peth pwysicaf yw’r hawl i fyw). Mae llawer o bleidwyr bywyd o’r farn bod y terfyn o 24 wythnos yn llawer rhy hwyr a bod datblygiadau yn y gofal am fabanod newydd-anedig yn golygu bod gan fabanod cynamserol iawn lawer mwy o gyfle i oroesi nag a fu. Gan nad oes bellach gymaint o berygl i fywyd baban a enir ar ôl 24 wythnos, ymddengys nad yw’n iawn erthylu ffetysau mor hwyr â hyn. Nid yw’n annhebygol y tynnir y terfyn i lawr i 18 wythnos rywbryd yn y dyfodol. Mae’r mater hwn yn gorgyffwrdd â phryderon am ofal babanod cynamserol ac i ba raddau y mae’r gyfraith yn gyson yn caniatáu erthylu hyd at 24 wythnos er yn disgwyl i bobl broffesiynol ym maes meddygaeth roi triniaeth achub bywyd i fabanod cynamserol difrifol wael neu â nam arnynt, pa un a ydyw eu rhieni’n dymuno hynny ai peidio.


Pwnc Trafod:
A ydych yn meddwl y gall y gyfraith ar ei phen ei hun ddiffinio cywirdeb neu anghywirdeb erthylu? Pa anghysonderau, dybiwch chi, sydd yn y gyfraith fel y mae ar hyn o bryd? A ddylem bryderu bod pobl yn gweld y DU fel ‘prifddinas erthylu Ewrop’? Pam mae pobl broffesiynol ym myd meddygaeth, yn ogystal â chredinwyr crefyddol, yn poeni am hyn?

- **Dadleuon o blaid erthylu**

1. *Hawl y Ferch i Ddewis*

Mae’r sawl sy’n cefnogi hawl y ferch i ddewis cael erthyliad neu beidio yn hawlio bod y penderfyniad yn effeithio ar bum adran o’i bywyd na ddylai neb eu rheoli ond hi:

- ei dyfodol
- ei pherthynas ag eraill
- a ydyw am gael plentyn neu beidio
- beth sy’n digwydd i’w chorff
- beth sy’n digwydd i’w bywyd.

Mewn rhai achosion fe all fod hefyd ddadl seiliedig ar drugaredd, os byddai cael y baban yn achosi caledi mawr. Mae erthylu’n rhoi cyfle i’r ferch wneud dewis ynglŷn â’i ffrwythlondeb, gan ystyried yr holl ffactorau a fydd yn effeithio arni hi a’r baban ac, o bosibl, ei phartner a’i phlant eraill. Ym mhob achos, bydd y pleidiwr dewis yn dadlau bod hawliau’r fam yn fwy na hawliau’r ffetws am na all y ffetws oroesi y tu allan i groth y fam. Mae gan y fam eisoes ei bywyd annibynnol ei hun; dim ond bywyd potensial sydd gan y ffetws.

2. *Y Ddadl Ansawdd Bywyd*

Mae'r ddadl hon yn ystyried y bywyd y bydd y ffetws yn debygol o'i gael y tu allan i'r groth. Os bydd yn debygol o ddioddef poen neu galedi mawr, yna fe all y bydd ansawdd bywyd y plentyn yn gorbwyso egwyddor sancteiddrwydd bywyd.

3. *Cynnydd mewn poblogaeth*

Mae rhai gwleidyddion wedi dadlau bod erthylu yn ddull o reoli twf y boblogaeth, yn enwedig mewn gwledydd traddodiadol Babyddol fel Brasil, lle y mae eisoes dlodi a gorboblogi mawr. Mae rhai gwledydd, fel China, yn gosod cosb ariannol ar deuluoedd gyda mwy nag un plentyn, ac mewn achosion felly mae erthylu nid yn unig yn dderbyniol ond yn rhwymedigaeth.

- **Dadleuon yn erbyn erthylu**

Mae grwpiau sy'n pleidio bywyd a grwpiau gwrth-erthylu, fel LIFE a'r Gymdeithas Amddiffyn Plant Heb eu Geni, yn hawlio y dylid rhoi blaenoriaeth i hawliau'r ffetws fel bod dynol. Mae felly mor anghywir lladd ffetws methedig ag y byddai lladd plentyn methedig pum mlwydd oed, ac y mae awgrymu y byddai'n well i rai plant beidio â chael eu geni neu y byddent yn ymyrryd â chynlluniau eraill y fam yn galon-galed ac annynol. Yn y ddadl o blaid bywyd, cyfeirir at y plentyn yn y groth fel rheol fel y 'ffetws' yn hytrach na'r 'baban'. Dywed gwrth-erthylwyr mai iaith meddygaeth yw hyn - nid yw 'terfynu'r ffetws' yn swnio mor frawychus â 'lladd y baban'.

Dadleua pleidwyr bywyd fod gan y ffetws yr hawl:

- i gyflawni ei botensial
- i fod â gwerth ar ei fywyd
- i beidio â chael ei ladd
- i gael ei gynrychioli'n deg gan drydydd parti diduedd (h.y. nid y fam na'r tad).

Gall grwpiau pledio bywyd fynegi hefyd bryder mawr ynglŷn â'r dulliau a ddefnyddir i erthylu. Mae'r 'bilsen erthylu', sy'n dileu'r angen am lawdriniaeth, wedi gwneud erthylu cynnar yn haws ei gael a'i gyflawni. Ac oherwydd y 'bilsen erthylu' mae'n fwy tebygol bod erthylu'n cael ei ystyried yn ffurf ar atal cenhedlu. Gall hyd yn oed y sawl nad yw'n credu bod bywyd yn dechrau ar adeg y cenhedlu feddwl bod hyn yn annog agwedd anghyfrifol iawn at berthynas rywiol ac yn tanseilio ymhellach werth bywyd.

Oddi mewn i **Gristnogaeth**, mae'r rhan fwyaf o Gatholigion a grwpiau Efengylaidd Protestannaidd yn gwrthwynebu erthylu. Gallant gynnig amryw ddadleuon, yn cynnwys:

- mae gan bob bod dynol yr hawl i fyw
- llofruddio yw erthylu, ac mae'r Beibl yn gwahardd llofruddio
- sancteiddrwydd bywyd – mae bywyd yn rhodd gysegredig gan Dduw, a dim ond ef a all derfynu beichiogrwydd
- mae'r plentyn sydd heb ei eni wedi'i greu ar ddelw Duw
- mae gan Dduw gynllun ar gyfer pob bywyd dynol*: 'Ti a greodd fy ymysgaroedd, a'm llunio yng nghroth fy mam' (*Salm 139:13)
- mae bywyd yn dechrau ar eiliad y cenhedlu.

***Safbwyntiau'r* Eglwys**

- *'Mae erthylu yn drosedd erchyll . . . rhaid i'r gyfraith roi sancsiynau addas ar gyfer pob cam bwriadol a wneir â hawliau'r plentyn.'* (Catecism Eglwys Rufain)
- *'Credwn hefyd fod atal trugaredd mewn sefyllfaoedd o drallod neu angen eithafol yn ddrwg mawr iawn. Mewn byd amherffaith y dewis 'iawn' weithiau yw'r lleiaf o ddau ddrwg.'* (Eglwys Loegr)
- *'Mewn byd amherffaith fe fydd amgylchiadau pan all terfynu beichiogrwydd fod y lleiaf o ddau ddrwg.*' (yr Eglwys Fethodistaidd)
- Yn 2004 datganodd Cynhadledd Esgobion Pabyddol Cymru a Lloegr: *'Er y gwneir ef [erthylu] gyda phob arddangosiad o ofal meddygol, a'i amgylchynu gan eiriau pert, terfynu bywyd yw terfynu beichiogrwydd. Mae cymryd bywyd baban yn y groth yr un mor anghyfiawn ag yw cymryd bywyd baban newydd-anedig . . . Yng ngeiriau Ail Gyngor y Fatican, mae erthylu a lladd babanod yn "droseddau ffiaidd".'*

Wrth ddatblygu eu safbwyntiau, gall Cristnogion gymryd sylw o'r canlynol:

- Dysgodd Iesu ei ddilynwyr i weithredu mewn ysbryd o gariad a thrugaredd. Gall glynu at reol gaeth yn erbyn erthylu ym mhob amgylchiad fod yn anghariadus at y fam a'r plentyn. Mae egwyddorion Moeseg Sefyllfa Joseph Fletcher yn cynnig ffordd i Gristnogion weithredu mewn ysbryd o gariad heb gael eu rhwymo gan reolau absoliwt. Darpara cariad (agape) – fel y gwelwyd ef yn Iesu – arweiniad ar faterion moesol sy'n gwrthwynebu cymhwyso deddfau absoliwt ac yn galluogi gwneud penderfyniadau ar sail cariad.

  Defnyddiodd Fletcher lawer astudiaeth achos o fywyd go iawn i ddarlunio egwyddorion Moeseg Sefyllfa, gan gynnwys achos merch dan anfantais feddyliol a wnaed yn feichiog gan aelod o staff y sefydliad preswyl lle'r oedd hi'n byw. Er bod erthylu yn anghyfreithlon ar y pryd, roedd ei thad yn credu y dylid caniatáu erthyliad iddi am mai dyna fyddai'r peth mwyaf cariadus. Cefnogai Fletcher yn gryf y syniad o 'gynllunio at fod yn rhieni' a mynegodd farn bendant ar ystod o bynciau meddygol dadleuol. Yn ddiddorol, yr oedd o blaid erthylu ar alwad ac, er ei fod yn weinidog yn yr Eglwys Esgobol, fe'i disgrifiodd ei hun yn ddiweddarach fel anffyddiwr.

- Torrir sancteiddrwydd bywyd mewn rhai achosion a gefnogir gan grefydd – er enghraifft, yn amser rhyfel.
- Nid yw'n sicr o gwbl bod bywyd yn dechrau adeg y cenhedlu. Barn reddfol a goddrychol yw hynny.
- Datblygodd technoleg feddygol fel y gellir dod o hyd i ffetysau methedig yn fuan; gellir felly wneud erthyliadau'n gynt ac yn llai llym, gyda llai o sgil-effeithiau i'r fam.

Tasg Seminar:
Ym mis Rhagfyr 2010 cafwyd adroddiadau am yr achos a ganlyn: *Daethpwyd â Christion a gyflogid gan ymddiriedolaeth iechyd meddwl yn Llundain o flaen panel disgyblu am roi i ddau gydweithiwr daflen yn gwrthwynebu erthylu. Dywedodd iddi eu rhoi i rybuddio am y 'niwed corfforol a seicolegol' a ddaw o derfynu beichiogrwydd, a hawliodd nad oedd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn rhoi digon o wybodaeth i ferched am beryglon cael erthyliad. Ataliwyd hi o'i swydd, ond hawliodd iddi gael ei bwlio gan benaethiaid yr ymddiriedolaeth a'i thrin fel troseddwr oherwydd ei chred. Dywedodd fod yr achos yn codi o sgwrs anffurfiol gyda'i chydweithwyr am ei barn ac nad oedd wedi ceisio dylanwadu ar gleifion. Fodd bynnag, cyhuddwyd hi dan reolau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol o 'ddosbarthu deunydd y gall rhai pobl ei ystyried yn dramgwyddus'. Mae'n cael ei hamddiffyn gan y Ganolfan Gyfreithiol Gristnogol.*

*Am beth yr ydych yn meddwl y mae'r achos hwn? A yw'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn iawn i wneud safiad ynglŷn â gweithredoedd y ferch neu a yw'n gwneud môr a mynydd o ddim byd? A ydych yn meddwl y byddai unrhyw un yn ystyried taflen o blaid bywyd yn 'dramgwyddus'? A ddylai wneud unrhyw wahaniaeth pe bai'r weithwraig wedi rhoi'r taflenni hyn i gleifion yn hytrach nag i gydweithwyr?*

**Peter Singer – 'Datrys yr anghytundeb ar erthylu'**

Mae Peter Singer, y moesegwr o Awstralia, yn ŵr dadleuol ym maes biofoeseg, fel y gwelir yn glir yn ei lyfr *Rethinking Life and Death*, a gyhoeddwyd mor bell yn ôl â 1994.

Mae Singer yn gweithio ar y rhagdybiaeth bod agweddau at erthylu yn dibynnu ar y cwestiwn a yw'r ffetws yn fywyd dynol newydd. Mae'n nodi, fodd bynnag, mai proses raddol yw datblygiad dynol ac nad yw'n hawdd dynodi'r adeg pan fydd bywyd dynol yn dechrau. Fel rheol, geni yw'r pwynt di-droi'n-ôl yn hyn o beth, ac eto, dadleua Singer: '*Pam y dylai lleoliad y ffetws/ plentyn, y tu mewn neu'r tu allan i'r groth, fod mor bwysig nes ei fod yn dynodi dechrau bywyd newydd?'*

Am ei bod bron yn amhosibl ateb y cwestiwn hwn yn foddhaol, apelia amddiffynwyr erthylu at hyfywdra - yr adeg pan allai'r ffetws fyw y tu allan i'r groth. Er i gyfraith y DU gael ei seilio ar 24 wythnos, nid oes dim terfynol ynglŷn â hynny o safbwynt meddygol, am fod hyfywdra, hyd yn oed yn achos baban wedi llwyr ddatblygu, yn dibynnu ar yr arbenigedd meddygol a'r cyfarpar sydd ar gael.

Awgryma Singer y gallai 'ymennydd byw' (y gwrthwyneb i 'ymennydd marw') fod yn faen prawf arall. Gallai hyn amddiffyn y ffetws o'r ddegfed wythnos wedi'r cenhedlu, pan ddigwydd 'integreiddio niwro-niwronaidd ym mharth y plât cortigol'. Dywed Singer fod y syniad o fywyd dynol yn ymestyn o ddyfod bywyd i'r ymennydd hyd at farw'r ymennydd yn syniad 'apelgar', ond mae'n golygu derbyn mai marw'r ymennydd yw diwedd bywyd ac, yn rhyfedd efallai, penderfyniad moesegol, nid meddygol, yw hwnnw. Byddai'r un anawsterau ynglŷn â diffinio pa bryd y mae bywyd yr ymennydd yn dechrau ag sydd ynglŷn â diffinio pa bryd y mae'n marw.

Cyfeiria Singer at waith y Parchg Ddr Norman Ford (Coleg Diwinyddol Catholig Melbourne) ac awgryma y gall fod Ford 'yn iawn' pan sonia am bedwar diwrnod ar ddeg wedi'r cenhedlu, unwaith y mae'n amhosibl i'r embryo ymrannu'n efeilliaid. Fodd bynnag, yn ôl Singer, er y gall hyn ddynodi unigolyn sy'n fyw ac yn fod dynol, nid yw'n dweud dim am arwyddocâd moesegol ei fodolaeth nac am gyfiawnhau ei erthylu yn ddiweddarach.

Felly, yn ôl Singer, rhaid i ni ddychwelyd at y cwestiwn canolog, sef pam nad yw'n iawn cymryd bywyd dynol, ac ni ellir datrys yr anghydfod ynglŷn ag erthylu nes i ni gael ateb boddhaol i'r cwestiwn 'beth sydd mor arbennig ynglŷn â'r ffaith fod bywyd yn fywyd dynol?'



Pwnc Trafod:
A ydych yn meddwl bod Singer yma wedi dod i gasgliad sydd o gymorth? Os gallwn sefydlu beth sydd mor arbennig ynglŷn â bywyd dynol, a fydd hynny'n gymorth i ddatrys y ddadl ar erthylu? A oes unrhyw un yn anghytuno bod bywyd dynol yn beth arbennig beth bynnag? A oes angen eglurhad pellach?

## 4. Lles babanod cynamserol iawn

Gyda datblygiad technoleg feddygol, mae gan fabanod cynamserol, a fyddai gynt wedi marw, lawer mwy o gyfle i fyw. Fodd bynnag, mewn llawer achos, mae babanod cynamserol iawn yn dioddef o broblemau meddygol difrifol, ac mae'r cwestiynau allweddol yn canolbwyntio ar ba mor bell y dylai meddygon fynd i achub bywyd plentyn y gall ei ddisgwyliad einioes fod yn fyr iawn ac a all fod yn dioddef cryn dipyn. Mewn achosion eraill, fe all na fydd y baban yn dioddef fawr ddim am fod cymaint difrod i'w ymennydd neu ei fod yn 'anenseffalig' (yn llythrennol, 'heb ymennydd').

Yn y DU, bu diddordeb sylweddol gan y cyhoedd a'r cyfryngau yn achos Charlotte Wyatt, y cefnogodd barnwr gyngor yr ysbyty i beidio â'i hadfywio.

Roedd gan Charlotte niwed lluosog i'r organau mewnol; roedd hi'n ddall a heb fedru cyfathrebu, a dywedid ei bod mewn poen mawr. Roedd ei rhieni am aros i weld a fyddai Duw'n ymyrryd trwy wyrth, ond credai'r ysbyty nad oedd ei hadfywio er lles iddi. Brwydrodd y rhieni'n gyson i'w chadw'n fyw, a llwyddo nes ei bod hi'n barod i adael yr ysbyty pan oedd hi'n dair oed. Yn eironig, nid aeth ei rhieni â hi adref, ac aeth Charlotte at rieni maeth. Gwahanodd ei rhieni wedi hynny, ac awgrymai rhai adroddiadau yn y wasg nad oedd ei mam yn gallu ymdopi ag ymweld â hi.



Pwnc Trafod:
Edrychwch ar y wefan a ganlyn sy'n cynnwys sawl adroddiad am frwydrau cyfreithiol ynglŷn â thriniaeth, neu atal triniaeth, babanod newydd-anedig - nid yn unig Charlotte Wyatt. Ar ôl edrych ar ddwy neu dair erthygl, ysgrifennwch eich safbwyntiau ar y cwestiynau a godir. Beth ydych yn ei feddwl yw'r pethau allweddol y dylid eu hystyried mewn achosion fel hyn?

://explore.dailymail.co.uk/people/wyatt_

Yn 1997 cyhoeddodd Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant ym Mhrydain ganllawiau ar atal neu dynnu'n ôl driniaeth cynnal bywyd i blant. Cynigiodd bump achos lle y gellid ystyried hynny:

- marwolaeth bôn yr ymennydd
- Cyflwr diymateb parhaol (*PVS: persistent vegetative state*) (neu farwolaeth cortecs yr ymennydd)
- afiechyd difrifol lle nad yw triniaeth ond yn gohirio marwolaeth
- pan fyddai goroesi yn gadael y plentyn gyda niwed difrifol a olygai na fyddai'n gallu gwneud dewisiadau yn y dyfodol
- pan na all y plentyn neu'r teulu ddal triniaeth bellach.


Fodd bynnag, byddai'r sawl sy'n dal safbwynt eithafol o blaid bywyd yn dadlau ei bod yn briodol parhau â'r driniaeth, ni waeth pa mor ymosodol ydyw, hyd yn oed yn yr amgylchiadau hyn. Ar y llaw arall dywed D. Gareth Jones:

*Yn fy marn i, mae rhoi triniaeth mewn amgylchiadau fel hyn yr un peth ag addoli "bywyd" . . . Nod amgen yr agwedd Gristnogol yw caru cymydog, sy'n golygu gofalu am y plentyn sy'n marw a'i amddiffyn; nid oes dim lle i ecsbloetio, hyd yn oed gyda'r bwriad gorau. (Valuing People, 1999)*

**Peter Singer – ‘Dechreuadau Ansicr’**

Cyfeiria Peter Singer at achos Peggy a Robert Stinson a oedd, bedair wythnos ar hugain trwy feichiogrwydd anodd iawn, yn ceisio penderfynu ynglŷn ag erthyliad hwyr (ond cyfreithlon). Gadawsant hi’n rhy hwyr, fodd bynnag, a ganwyd y baban Andrew yn fyw, ond mor gynamserol nes ei bod yn amheus a fyddai’n goroesi. Gofynnodd y rhieni na chymerid dim mesurau arwrol i achub bywyd Andrew, ond bygythiodd ei feddygon fynd â nhw i’r llys oni bai eu bod yn cytuno i’r triniaethau a awgryment. Gosodwyd Andrew ar beiriant anadlu, a daliwyd i roi triniaeth iddo hyd yn oed wedi iddi ddod yn glir bod difrod i’w ymennydd. Yn ei dyddiadur, mae Peggy’n pendroni ar y ddeuoliaeth foesegol ryfedd: ‘*Gall merch derfynu beichiogrwydd hollol iach drwy erthylu wedi 24 wythnos, ac mae hynny’n gyfreithlon. Gall natur derfynu beichiogrwydd anodd wedi 24 wythnos, a rhaid achub y baban deued a ddelo; mae popeth arall yn anghyfreithlon ac yn anfoesol.*’ Mae Singer yn gofyn, ‘*pa foeseg gyson y gellir ei haddasu at ein gwahanol arferion ynglŷn â babanod a anwyd a rhai nas ganwyd?’*

Yn 1983 gorchmynnodd llywodraeth Regan yn UDA hysbysu pob darparwr gofal iechyd ei bod yn anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn babanod dan anfantais wrth fwydo na rhoi gofal. Sefydlwyd ‘Llinell Babanod dan Anfantais’ fel y gallai gweithwyr proffesiynol ddweud am gydweithwyr nad oedd yn dilyn y rheol hon. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o ofalwyr iechyd proffesiynol o’r farn na ellid ei gweithredu. Mewn un achos, gwariwyd $400,000 i ofalu am faban yr oedd y meddygon o’r farn nad oedd ganddo ‘ddim siawns o gwbl i fyw bywyd normal’. Treuliodd meddyg arall o New Mexico awr gyfan yn ceisio adfywio baban a chanddo sawl abnormaledd, dim ond am fod arno ofn i’w gydweithwyr achwyn arno pe na bai’n gwneud hynny. Ni fu’n hir cyn i’r Barnwr Gerhard Gesell ddiddymu’r canllawiau ar y sail na bu unrhyw ymgynghori â’r sawl yr effeithient arnynt, ond dangosodd yr anghydfod y gwahanol ffyrdd y gellir cymhwyso ‘moeseg ansawdd bywyd’. Yn arwyddocaol, cynhwysai’r datganiad yr haeriad ‘*nad yw’r gyfraith yn mynnu triniaethau ofer na wnânt ddim ond estyn y broses o farw yn achos plentyn . . . a aned gydag anenseffali neu waedu rhyng-greuanol*.’ Erbyn 1984, newidiwyd y rheolau ymhellach fel nad oedd angen rhoi dim ond triniaeth ‘o les meddygol’.



Tasg Seminar:
Yn eich grwpiau bach ystyriwch sut y byddai Cristnogion yn ymateb i’r dyfarniadau hyn. A oes rheidrwydd ar Gristion i ymdrechu i gadw baban yn fyw, waeth beth yw cyflwr ei iechyd? A yw ceisio diffinio bywyd a marwolaeth yn gymorth neu’n rhwystr yn yr achos hwn? Ystyriwch achos Samuel Linares – ://findarticles.com/p/articles/mi_go2103/is_n4_v19/ai_n28584074/ – a thrafodwch a ydych yn cytuno neu’n anghytuno â dyfarniad y barnwr.

Yn 1981 aeth y Dr Leonard Arthur ar brawf am lofruddio John Pearson, baban a anwyd â syndrom Down ac roedd ei rieni wedi mynegi’n glir nad oeddent am iddo fyw. Cytunodd y Dr Arthur i roi ‘gofal nyrsio’ yn unig a rhagnododd

hefyd ddos uchel o DF 118, poenladdwr pwerus. Ni roddwyd i John Pearson ddim byd i'w fwyta na'i yfed ond dŵr, a bu farw ar fore'i bedwerydd diwrnod. Rhoddodd  y mudiad o blaid bywyd, Life, wybod am y farwolaeth i'r heddlu, ar ôl i aelod o staff yr ysbyty ddisgrifio iddynt y driniaeth a gafodd John, ac fe gyhuddwyd y meddyg o lofruddiaeth. Fodd bynnag, fe'i cafwyd yn ddieuog ar ôl i'r rheithgor fod allan am ddim ond dwy awr, a bu gorfoleddu mawr. Yn ôl pennawd y *Times*, '"*Diolch i Dduw," gwaedda'r merched – Dr Arthur yn ddieuog*'. Roedd y ddedfryd yn siom fawr i Life, nid yn lleiaf am ei bod yn boblogaidd gyda'r cyhoedd. Dangosodd arolwg barn wedi hynny  nad oedd ond 7% o'r cyhoedd o'r farn y dylid cael neb yn euog mewn achosion o'r fath, a derbyniai 86% mai dim ond 'arfer meddygol normal' oedd yr hyn a wnaeth y meddyg.

Dywed Peter Singer i achosion fel un y Dr Arthur fod yn bwysig i ddwyn i'r amlwg yr arfer o weithredu babanladdiad meddygol a'r ffaith bod hynny'n dderbyniol i'r cyhoedd. Awgryma fod mwy o gydnabod erbyn hyn ar ganllaw'r Arglwydd Ustus Taylor: '*i ystyried yr ansawdd bywyd y bydd yn rhaid i'r plentyn ei ddioddef os caiff driniaeth*' *(Rethinking Life and Death, 1994).* Yn y pen draw, yn UDA a'r DU, pan fydd y dewis rhwng moeseg sancteiddrwydd bywyd a moeseg ansawdd bywyd, moeseg ansawdd bywyd sy'n drech.

Tasg Ysgrifennu:

(i) Esboniwch y problemau sy'n wynebu pobl broffesiynol ym maes meddygaeth wrth ofalu am fabanod cynamserol iawn a babanod difrifol wael.

(ii) '*Mae bywyd yn sanctaidd beth bynnag ei ansawdd.'* Trafodwch oblygiadau'r datganiad hwn.

**5. Ymchwil i Fôn-gelloedd**

Un maes dadleuol yn y dechnoleg feddygol sy'n datblygu yw ymchwil i fôn-gelloedd (*SCR: stem cells research*). Ystyrir mai bôn-gelloedd yw blociau adeiladu neu brif gelloedd y system waed ac imiwnedd. Gellir eu tynnu o embryonau heb eu defnyddio a grëwyd at ddiben ffrwythloni in vitro (*IVF: in vitro fertilisation*), ond gellir eu tynnu hefyd o'r llinyn bogail ac, i ryw raddau, o oedolyn. Arweiniodd gwaith diweddar ar glonio celloedd at ddefnyddio bôn-gelloedd i gynhyrchu genynnau iach y gellir eu rhoi yn lle genynnau afiach neu â nam arnynt. Gellir cymell bôn-gelloedd i ddatblygu bron unrhyw un o gelloedd y corff dynol, gan gynnwys celloedd y galon a'r ymennydd. Nid yw bôn-gelloedd embryonig wedi datblygu arbenigedd eto, ac mae'n bosibl iddynt felly dyfu i fod yn unrhyw un o gelloedd y corff. Byddai'n bosibl defnyddio'r celloedd hyn i dyfu organau dynol neu i adnewyddu celloedd a niweidiwyd, yn yr ymennydd, dyweder, neu ym madruddyn y cefn. Ym mêr yr esgyrn y mae bôn-gelloedd  oedolion - ac fe'u defnyddiwyd yn llwyddiannus eisoes wrth drawsblannu mêr esgyrn. Nid ydynt fel rheol yn datblygu i fod yn ddim ond celloedd gwaed, er bod ymchwil ar y gweill i'r posibilrwydd o'u defnyddio hwythau i gymryd lle unrhyw gell ddynol.

Gall ymchwil i fôn-gelloedd fod yn dyngedfennol mewn datblygu meddyginiaeth i afiechydon fel Clefyd Alzheimer na ellir ar hyn o bryd eu

gwella, ond yr ofn amlwg yw y gallai arwain yn y pen draw at glonio nid yn unig gelloedd dynol ond unigolyn dynol – clonio atgynhyrchiol yn hytrach na chlonio therapiwtig – yn enwedig gan fod clonio anifeiliaid a rhannau o gyrff anifeiliaid eisoes wedi datblygu ymhell. Ym mis Rhagfyr 2004, am y tro cyntaf erioed, cloniwyd cath fach, ar gost o $50,000, o DNA cath flaenorol ei pherchennog a oedd wedi marw flwyddyn ynghynt. Os yw pobl yn pryderu am oblygiadau moesol hyn, faint mwy fydd eu pryder ynglŷn â chlonio bodau dynol?

Ond ymchwil i fôn-gelloedd embryonig sy'n achosi'r dadlau mwyaf. Y rheswm pennaf am hynny yw bod y bôn-gelloedd hyn yn dod o embryo a grëwyd mewn labordy ac a ddinistrir ar ôl cael y celloedd. Achosa hyn anhawster difrifol i'r credinwyr hynny sy'n mynnu bod pob bywyd dynol yn gysegredig, hyd yn oed os nad yw'r bywyd hwnnw ond bywyd potensial. Awgryma rhai adnodau yn y Beibl fod baban cyn ei eni yn arddangos nodweddion y bod dynol datblygedig a enir i'r byd. Er enghraifft, mae ymgodymu Jacob ac Esau yn y groth yn ddrych o'u hymryson yn ddiweddarach yn eu bywyd (Genesis 25:22-23), ac mae Ioan Fedyddiwr yn llamu yng nghroth ei fam pan mae hi'n cwrdd â'i pherthynas, Mair, mam Iesu (Luc 1:44). Bydd Cristnogion ceidwadol bob amser yn dadlau bod gorchymyn Duw i fodau dynol fod 'yn ffrwythlon ac amlhau' (Genesis 1:28) yn mynnu bod yr embryo - a hyd yn oed yr wy a ffrwythlonwyd - yn cael pob cyfle i ddatblygu, hyd yn oed os crëwyd ef mewn labordy ac nid trwy genhedlu naturiol.

- **Cefnogi Ymchwil i Fôn-gelloedd**

I ba raddau y gall safbwyntiau o'r fath effeithio mewn difrif ar ddatblygu technoleg feddygol? Yn 2001, gwaharddodd cyn-Arlywydd UDA, George Bush, unrhyw gyllid ffederal at ymchwil i fôn-gelloedd ar sail y math hwn o feddylfryd, tra bod dysgeidiaeth y ddeddf foesol naturiol, a ffafrir gan Eglwys Rufain, yn annog yn erbyn technegau sy'n tanseilio gwerth cynhenid bywyd a'r angen i'w ddiogelu. Fodd bynnag, gall fod yn arwyddocaol i'r Arlywydd Obama gyhoeddi ar 9 Mawrth 2009: '*Fel un a chanddo ffydd, credaf y gelwir ni i ofalu am ein gilydd ac i weithio i leddfu dioddefaint dynol. Credaf fod gennym y gallu i wneud hynny a'r dyngarwch a'r gydwybod i wneud hynny'n gyfrifol'* (http://episcopalian.wordpress.com/). Serch hynny, ni roddodd Obama dragwyddol heol i'r ymchwil i fôn-gelloedd. Galwodd am sefydlu canllawiau a rheoliadau clir o fewn pedwar mis, neu byddai'r gwaharddiad yn cael ei adfer. Wrth ddisgrifio'i hun fel 'un a chanddo ffydd', roedd Obama yn uniaethu'i hun â'r Cristnogion hynny nad ydynt mewn egwyddor yn gwrthwynebu ymchwil i fôn-gelloedd, ac sy'n credu bod y deallusrwydd a'r cyfle a rydd Duw i ni i ddatblygu technoleg feddygol er budd ei greaduriaid yn bethau cadarnhaol os defnyddir nhw'n gyfrifol.

Dyma hefyd farn Eglwys Esgobol America sy'n dadlau bod '*Duw yn ein galluogi i ddod â'r posibilrwydd o iachâd i'r rhai hynny sy'n dioddef oddi wrth afiechyd*' (http://www.episcopalchurch.org/3577_62380_ENG_HTM.htm). Mae'r farn hon yn gydnaws â theodiciaeth Irenaeus yn gymaint ag y gall dynolryw gau'r pellter epistemig rhyngddi a Duw trwy ddefnyddio'r sgiliau a'r medrau hynny sy'n peri y gall bodau dynol gynyddu mewn nerth, rhyddid a gwybodaeth. Os yw Duw'n pennu unrhyw agwedd o gwbl ar fywyd dynol,

mae'n bosibl ei fod wedi pennu bod bodau dynol yn datblygu potensial yr ymchwil i fôn-gelloedd a hyd yn oed ganiatáu dinistrio embryonau er mwyn iacháu llawer o bobl – safbwynt iwtilitaraidd dwyfol, efallai? Ymhellach, mae rhai credinwyr yn dadlau nad oes gan embryo pedwar diwrnod ar ddeg oed – y terfyn ar gyfer arbrofi – enaid. Dyna hefyd farn llawer o Fwslimiaid, er nad oes unrhyw safbwynt Islamaidd swyddogol ar ymchwil i fôn-gelloedd. Eto i gyd, gan fod Duw wedi galw'r proffwyd Jeremeia cyn ei eni, mae'n bosibl dadlau y gellir diffinio hyd yn oed y cyn-embryo yn berson y mae ei ddyfodol yn hysbys i Dduw a hyd yn oed wedi'i bennu gan Dduw.

- **Gwrthwynebiad seciwlar**

Y mae, wrth gwrs, nifer o resymau moesegol seciwlar y gellir eu rhoi yn erbyn ymchwil i fôn-gelloedd embryonaidd. Yn gyntaf, gellir dadlau o safbwynt dyngarol, nid crefyddol, bod bywyd dynol yn yr embryo. Yn ail, buwyd yn ymchwilio i fôn-gelloedd ers yr 1960au, ond hyd yn hyn ychydig fu'r datblygiadau ac ni chafwyd yr un feddyginiaeth o ganlyniad i'r arbrofi (a lesteiriwyd, rhaid cyfaddef, gan y gwaharddiad ar gyllid ffederal). Ai arwydd yw'r methiant parhaus i ddod o hyd i feddyginiaeth mai therapi heb ddyfodol iddo yw hwn ac y byddai'n well gwario'r arian ar ddatblygu technolegau eraill fel triniaeth at ganser neu hyd yn oed ymchwil i fôn-gelloedd oedolion?

Rhaid ystyried hefyd y byddai rhai pobl yn gwrthwynebu defnyddio organau a gynhyrchwyd mewn labordy. Gall y cyhoedd fod yn amheus iawn o rai darganfyddiadau gwyddonol, yn enwedig pan nad yw'r ffeithiau yn gyfan gwbl hysbys. Ni ddarganfuwyd holl sgil-effeithiau ymchwil i fôn-gelloedd, ac fe all cleifion a fyddai o bosibl yn elwa arno obeithio cymaint am feddyginiaeth yn ystod eu hoes nes methu gweld unrhyw synnwyr mewn ceisio dygymod â'u hafiechyd neu eu hanabledd.

- **Yn fyw ond heb fywyd**

Eto i gyd, y mae'r gefnogaeth i ymchwil i fôn-gelloedd gan rai nad ydynt yn gredinwyr yn dal yn gryf. Cred llawer nad oes gan embryo pedwar diwrnod ar ddeg oed, nad yw'n fawr mwy na phigiad pin, fywyd, er ei fod yn fyw; gall fod ganddo fywyd potensial, ond nid bywyd go iawn. Nid yw'r ymennydd a'r system nerfau yn datblygu tan oddeutu 21 diwrnod; felly, mae'r terfyn o bedwar diwrnod ar ddeg yn fwy na digon ac mae bron yn afraid dweud nad yw'r embryo ar yr adeg hon yn ymwybodol ohono'i hun nac yn gallu ei ysgogi ei hun. Dadleua Peter Singer na ddylem fawrygu bywyd er ei fwyn ei hun; golygai hynny fod gan bob un o gelloedd y croen sydd heb farw fywyd dynol ynddi – casgliad afresymol, nid annhebyg i ddweud bod bywyd dynol ym mhob sberm ac wy ac y dylid felly eu hamddiffyn. Gan nad yw 50% o wyau a ffrwythlonwyd yn llwyddo i ymblannu, mae'n amlwg na fydd pob un ohonynt yn datblygu i'r hyn y byddem ni'n hapus i'w alw'n fywyd dynol. Mae defnyddio ffrwythloni in vitro yn arwain yn anochel at ddinistrio wyau a ffrwythlonwyd, a hyd yn oed embryonau. Felly, onid yw'n sicr o fod yn deg caniatáu defnyddio embryonau at yr amcan o ddatblygu meddyginiaethau?

Yn y pen draw, er bod ystyriaethau crefyddol yn bwysig, gellir dadlau nad nhw yw'r unig ystyriaethau mewn perthynas â datblygu technoleg feddygol. Mae'r ffaith bod cynifer o gredinwyr crefyddol yn y byd yn gofyn na ddiystyrir credoau crefyddol, ond rhaid rhoi sylw cyfartal o leiaf i safbwyntiau dyngarol, seciwlar. Mae'n amhosibl rhoi'r un sylw i bob ystyriaeth, ac ymddengys bod technoleg feddygol yn gweithio ar y sail mai'r peth gorau yw parhau â'r ymchwil i fôn-gelloedd, ac unwaith y bydd ei effeithiau a'i fuddiannau yn llwyr hysbys, gadael i gredinwyr benderfynu a ydynt am ei dderbyn ai peidio.

- **Datblygiadau diweddar**

Fe all datblygiadau diweddar yn yr ymchwil i fôn-gelloedd arwain at alwadau pellach am iddo barhau. Er enghraifft, cafwyd bod Americanwr a oedd yn dioddef o *HIV* ac na roddwyd iddo enw ond 'claf Berlin' wedi'i iacháu o'r clefyd dair blynedd ar ôl derbyn trawsblaniad bôn-gell fel rhan o driniaeth at lewcemia madruddol difrifol. Cafwyd bod y rhoddwr yn imiwn i *HIV*, fel yn achos 1 ym mhob 100 o Gawcasiaid. Er gwaetha'r canlyniad annisgwyl hwn, roedd y meddygon yn annog pwyll am fod y driniaeth – trawsblannu bôn-gell – yn gallu bod yn farwol ynddi'i hun.

Hefyd, darganfu ymchwilwyr yn ddiweddar fod gan rai sy'n dioddef o lewcemia, a chanddynt fwy o enynnau a gysylltir â bôn-gelloedd canser, lawer llai o siawns cael adferiad. Canfu ymchwil ym Mhrifysgol Stanford fod 'rhai canserau'n tarddu o boblogaeth fechan o gelloedd gwydn sy'n eu hatgynhyrchu eu hunain ac yn ailgyflenwi'r canser'. Gall hynny esbonio pam eu bod yn gwrthsefyll triniaeth neu'n achosi i rai cleifion ailwaelu.

Creodd gwyddonwyr ym Mhrifysgol Rochester ddull o ynysu o feinwe'r ymennydd dynol y bôn-gelloedd niwral sy'n cynhyrchu holl gelloedd yr ymennydd. Mae hynny'n gam pwysig at ddatblygu triniaethau newydd at gyflyrau'r system nerfau, megis clefydau Parkinson a Huntington ac anafiadau i fadruddyn y cefn.

Ar gost o £50,000, galluogodd triniaeth arloesol yn China i eneth bedair oed o Brydain gael gweld am y tro cyntaf. Roedd ei theulu wedi clywed am y driniaeth fôn-gell a olyga chwistrellu rhigol yr asgwrn cefn â chelloedd a gymerwyd o linynnau bogail babanod iach, ac yna defnyddio'r celloedd i ailadeiladu nerfau optig. Nid yw'r triniaethau hyn i'w cael yn y DU; dim ond ychydig o leoedd yn y byd sy'n eu gwneud.

- **Bancio gwaed llinynnau bogail**

Mae banciau gwaed llinyn yn storio gwaed llinynnau bogail at ddefnydd pellach. Sefydlwyd nifer o fanciau preifat a chyhoeddus ers y 1990au mewn ymateb i ymwybyddiaeth gynyddol o botensial trawsblannu gwaed llinyn i drin afiechydon y gwaed a'r system imiwnedd. Mae banciau preifat, sy'n codi ffi, yn storio gwaed er budd y rhoddwr yn unig, tra bod banciau cyhoeddus, nad ydynt yn codi ffi, yn llai hunanol ac yn storio gwaed y gellir ei roi i bawb, ac ni all y rhoddwr ei neilltuo at ei ddefnydd ei hun. Mae i waed llinyn fanteision arbennig oherwydd gellir tywallt ei fôn-gelloedd yn ôl yn ddiogel i'r corff y

cymerwyd hwy ohono heb i system imiwnedd y corff eu gwrthod, ac mae iddynt nodweddion unigryw o'u cymharu â bôn-gelloedd eraill. Er bod y dechneg yn un weddol newydd, mae eisoes ofyn mawr amdani, ac mae'r problemau moesegol sy'n codi o ddefnyddio gwaed llinyn yn llawer llai na'r rhai sy'n codi o ddefnyddio bôn-gelloedd eraill.

Pwnc ymchwil a thrafod:
Edrychwch ar y fideos a ganlyn ar YouTube sy'n dilyn triniaeth Maia Freidlander â gwaed llinyn bogail yn 2008. Ysgrifennwch ddarn byr – rhyw 500 gair – ar y pethau cadarnhaol a negyddol yr ydych yn meddwl sy'n codi o'r astudiaeth achos hon. ://www.youtube.com/watch?v= ://www.youtube.com/watch?v=NK4JfyP3KwY&feature=

Pwnc ymchwil a thrafod:
Defnyddiwch y Rhyngrwyd i gael gwybodaeth am y datblygiadau hyn a datblygiadau eraill sy'n defnyddio bôn-gelloedd. A ydynt yn eich arwain i'r casgliad y dylai ymchwil i fôn-gelloedd barhau? Ystyriwch o leiaf dair dadl dros a thair yn erbyn y farn bod yr ymchwil yn beth da ac y dylid parhau i'w ddatblygu. A yw cost rhai o'r triniaethau hyn yn dylanwadu arnoch? A ydych yn meddwl y dylai'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol eu darparu? Chwiliwch am fwy o wybodaeth am driniaethau â Gwaed Llinyn Bogail. A ydych yn meddwl eu bod yn ateb da i rai o'r dadleuon ynglŷn ag ymchwil i fôn-gelloedd embryonig?

## 6. Peirianneg Genetig

Mae peirianneg genetig yn dechnoleg sy'n datblygu'n gyflym. Yn ei hanfod, golyga newid strwythur y genynnau, yn bennaf i iacháu afiechydon a etifeddwyd yn y genynnau trwy newid y genynnau. Er y gall hyn fod o fudd enfawr, mae cwestiynau moesol pwysig i'w hystyried. Un o'r rhain yw y gellid, yn ddamcaniaethol, ddefnyddio peirianneg genetig nid yn unig i ddileu afiechydon sy'n amlwg annymunol ond hefyd i gynyddu nodweddion dymunol: deallusrwydd, dengarwch corfforol neu ryw, er enghraifft. Gellid hefyd estyn y defnydd ohono i ddileu nodweddion y byddai rhieni neu genetegwyr yn ystyried eu bod yn rhai annymunol: moelni, dibyniaeth neu olwg byr, er enghraifft. Mae hyn yn oddrychol dros ben ac ystyrir bod iddo oblygiadau brawychus at y dyfodol, er ei fod, o safbwynt Iwtilitaraidd, yn ymddangos yn ymarferol a hyd yn oed yn beth i'w ddymuno.

I rai Cristnogion, y mae'n groes i ysbryd Salm 139:13-24, sy'n mynnu bod Duw'n penderfynu holl briodoleddau a nodweddion unigolyn hyd yn oed cyn ei genhedlu. Gall peirianneg genetig ddileu nodweddion negyddol (defnydd da, o bosibl, o dechnoleg sy'n rhodd oddi wrth Dduw), a gall hefyd roi yn eu lle nodweddion a ystyrir yn rhai cadarnhaol (er enghraifft, dengarwch corfforol). Yn y naill achos a'r llall, gellir dadlau bod pobl yn ymyrryd mewn pethau sy'n perthyn yn unig i Dduw.

Un o'r prif broblemau sy'n codi o dechnoleg genynnau yw ei fod yn dibynnu ar ymchwil i embryonau ac, yn ddiweddar, i fôn-gelloedd, a drafodwyd eisoes. Problem foesol arall yw i ba raddau y mae gan bobl hawl i gywiro genynnau diffygiol (*ewgeneg negyddol*) neu i wthio syniadau goddrychol am ba enynnau sydd i'w dymuno ac i beidio â'u dymuno. Pwy sy'n penderfynu beth sy'n ddiffygiol neu beidio? A yw 'genyn gwrywgydiaeth' posibl yn ennyn diffygiol? A yw'n gwbl dda y gall triniaeth enetig arwain at ddiddymu, yn rhannol o leiaf, afiechydon genetig megis clefyd Huntington, ffibrosis systig a rhai mathau o ganser?

*Ewgeneg gadarnhaol* – mae trin geneteg i wella nodweddion megis deallusrwydd a phersonoliaeth yn codi ofnau hefyd ynglŷn â photensial hynny i newid y natur ddynol ac, yn y pen draw, y gymuned gyfan. Ymhellach, gall rhai ofyn y cwestiwn, sy'n dipyn o hen drawiad, pa hawl sydd gan bobl i 'chwarae Duw'? Gellir defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gan sgrinio genetig, nid yn unig ar fabanod ond ar oedolion hefyd, i reoli bywydau unigolion mewn llawer ffordd. Gall rhai ohonynt fod yn dda – rhoddant i unigolion wybodaeth hanfodol am eu gwneuthuriad genetig a all fod o fudd iddynt pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â gofal iechyd. Fodd bynnag, os yw cyflogwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth enetig am eu gweithwyr, mae posibilrwydd cryf y bydd anffafrio a stigmateiddio'n digwydd.

Er gwaetha'r holl ymchwil a fu i beirianneg genetig, gwyddor ydyw sy'n dal i dyfu. Ni allwn ond dyfalu beth fydd y canlyniadau hirdymor, er ei bod yn amlwg na fyddant i gyd yn dda. Hefyd, pe bai rhywbeth yn mynd o'i le ar y dechnoleg, byddai'n amhosibl ei gywiro. Mae'r syniad o fodau dynol sy'n ganlyniad dulliau diffygiol o beirianneg genetig yn un brawychus yn wir, a gallai therapi egin-gelloedd gael effaith arswydus ar y pwll genynnau dynol pe bai'n mynd o'i le.

- **Datblygiadau diweddar: Sibling-Waredwyr**

Rhoddwyd sylw mawr yn y cyfryngau i bwnc **sibling-waredwyr**, a genhedlir fel rheol trwy ffrwythloni in vitro, yn bennaf at roi triniaeth achub bywyd i sibling sy'n ddifrifol wael. Profir sygotau a ffrwythlonwyd i weld a ydyn nhw'n enynnol gydnaws, a dim ond sygotau sy'n gydnaws â'r plentyn sy'n cael eu plannu. Mae hyn, yn anochel, yn codi cwestiynau moesegol pwysig, yn arbennig mewn perthynas â fformiwla Kant o ddiben ynddo'i hun. I ba raddau y mae sibling-waredwyr yn ddibenion ynddynt eu hunain, neu ai dull o gyrraedd diben ydynt? Mae'n amlwg eu bod yn cyfrannu at ddiben, ond mae'n bwysig i foesegwyr fod yn siŵr yr amddiffynnir eu gwerth cynhenid a'u hawliau unigol fel bodau dynol.

Ar 21 Rhagfyr 2010, adroddodd y *Guardian* mai geneth naw mlwydd oed oedd y person cyntaf yn y DU i dderbyn trawsblaniad mêr asgwrn. Daeth y mêr o'i brawd bach, a ddewiswyd yn rhoddwr perffaith pan nad oedd ond embryo. Dyma'r teulu cyntaf ym Mhrydain i dderbyn yr holl driniaethau ffrwythlondeb, y profion genetig a'r cydweddu meinwe heb orfod mynd dramor i osgoi'r holl rwystrau cyfreithiol a fu yn y DU yn achos sibling-waredwyr. Casglodd meddygon waed llinyn bogail, sy'n cynnwys bôn-gelloedd, o gorff y bachgen pan anwyd ef, a mêr o'i esgyrn pan oedd yn flwydd oed. Costiodd yr

holl driniaeth £10,000, a dalwyd gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Dywedodd Simon Fishel, rheolwr-gyfarwyddwr y clinig ffrwythlondeb yn Nottingham, '*Yr ydym yn falch iawn o'r canlyniad i'r teulu. Dyma feddyginiaeth gadarnhaol yn rhoi bywyd . . . Mae llawer o arbenigwyr na wyddant fod y driniaeth hon i'w chael ym Mhrydain. Dywedir wrth y rhieni am gael mwy o blant a, gyda lwc, y gall un ohonynt fod yn rhoddwr addas, neu fe ddywedir wrthynt fod yn rhaid iddynt fynd dramor.*' Yn 2003, pan oedd y driniaeth hon yn dal wedi'i gwahardd yn y DU, aeth Michelle a Jayson Whitaker o Swydd Derby i Chicago i gael sibling-waredwr i'w mab a oedd yn dioddef o anemia peryglus.

## HOW MEGAN GOT A SECOND CHANCE

TO produce a saviour sibling, Megan's parents had to undergo IVF. They applied to the NHS for £6,000 funding and were successful.

Six embryos were created at the CARE Fertility Centre in Nottingham. They were tested for disease and suitable tissue type in a process known as Pre-Implantation Genetic Diagnosis – the first time this procedure has been used in a UK laboratory.

Just two embryos met the criteria. These were transferred to Mrs Matthews's womb in October 2008, and one implanted successfully. When Max was born on July 22 last year, blood from his placenta and umbilical cord was taken and stored.

When he was a year old, bone marrow was also taken from his hip because doctors didn't have enough stem cells to carry out Megan's transplant.

Following chemotherapy and radiotherapy to destroy her unhealthy bone marrow, Megan received the new stem cells from Max during an hour-long operation in July this year.

Tasg Ymchwil:
Darllenwch fwy ar: ://www.dailymail.co.uk/health/article-1340611/Saviour-sibling-brings-hope-family-makes-medical-history.html#

**Astudiaeth Achos: Gattaca**

Un o'r ffyrdd gorau o ddeall goblygiadau peirianneg genetig yw gwylio'r ffilm **Gattaca** (1997), a gyfarwyddwyd gan Andrew Nichol gydag Ethan Hawke a Jude Law yn y prif rannau. Mae'r ffilm yn agor gydag adnod o'r Beibl ar draws y sgrin: '*Ystyria'r hyn a wnaeth Duw; pwy all unioni'r hyn a wyrodd ef?*' (Llyfr y Pregethwr 7:13). Er mai ffilm a osodir yn y dyfodol ydyw, mae'n ddyfodol gweddol agos, lle nad yw rhieni cyfrifol yn gadael i Dduw benderfynu dyfodol eu plant. Yn hytrach, mae darpar rieni yn gadael i'w genetegydd lleol greu embryo 'perffaith'. '*Deg o fysedd a deg o fysedd traed – dyna'r cyfan oedd o bwys gynt. Nid yn awr.*' Nid trwy beirianneg genetig y lluniwyd arwr y ffilm, Vincent. Genedigaeth 'ffydd' neu enedigaeth 'o Dduw' oedd ei enedigaeth ef, ac felly fe'i tynghedwyd i fod yn anabl, a'i ddisgwyliad einioes yn ddim ond 30 mlynedd, ac mae'n dioddef o myopia a diffyg ar y galon. Mae'r proffil genetig hwn yn llywio pob dewis y mae'n rhaid iddo ei wneud, a thynghedir pawb y mae ganddynt broffiliau amherffaith i fyw bywyd isddosbarth genetig ac i grwydro o'r naill swydd isel i'r llall: '*Yn fy ymdrech yr oedd fy ngwir broffil . . . Rydym yn awr yn gwahaniaethu ar sail gwyddoniaeth'.*

Cafodd ei frawd iau, Anton, fodd bynnag, ei greu drwy beirianneg genetig fel bod ganddo '*lygaid brown golau, gwallt tywyll a chroen golau*' ac mae'r genetegydd yn sicrhau ei rieni ei fod wedi '*diddymu unrhyw gyflyrau a allai fod yn anfanteisiol – golwg byr, moelni, alcoholiaeth . . .'.* Pan ofynna'r rhieni a ddylent, efallai, adael o leiaf rai pethau i siawns, mae'r genetegydd yn cynghori, *'Mae arnoch eisiau rhoi'r cychwyn gorau posibl i'ch plentyn. Credwch fi, mae gennym ni ddigon o bethau amherffaith yn barod. Does ar eich plentyn ddim angen unrhyw feichiau ychwanegol.'*

Anton yw ffefryn ei rieni, ond mae Vincent yn cael ei fagu i ddisgwyl ychydig iawn, a gosodir rhwystrau cyson ar ffordd ei uchelgais i fynd i'r gofod. Gan weithio y tu allan i'r gyfraith, mae'n herio'r gyfundrefn yn ddewr a, thrwy werthwr *DNA* ar y farchnad ddu, mae'n ffurfio partneriaeth â Jerome Morrow, cyn-bencampwr nofio gydag *'IQ anhygoel . . . calon ych . . . '.* Mae Jerome, fodd bynnag, mewn cadair olwyn. Cafodd ei barlysu mewn damwain ffordd, ac mae'n chwerw ac yn alcoholig. Mae ei dynged yn datgelu'r trychinebau mewn bywyd go iawn y tu ôl i'r gyfundrefn: '*I'r rhai sy'n enynnol uwchraddol, mae'n haws llwyddo, ond does dim gwarant i lwyddiant. Does dim genyn i ffawd. A phan ddaw hi'n amser caled ar yr elît bydd eu hunaniaeth enetig yn nwydd gwerthfawr i'r diegwyddor.'*

Cymer Vincent hunaniaeth Jerome, a defnyddia samplau o'i waed, ei groen a'i wrin i basio'r profion hunaniaeth llym sy'n caniatáu mynediad i'r asiantaeth ofod, Gattaca, a maes o law cyflawna'i uchelgais i fod yn rhan o daith ofod i Titan. Gwaetha'r modd, mae Jerome yn lladd ei hun. Mae wedi cyflawni ei ddefnyddioldeb trwy roi modd i Vincent fynd i mewn i Gattaca, ond ni allodd erioed ddelio â *'baich perffeithrwydd'*. Dysgwn nad oedd erioed wedi dygymod ag ennill dim ond medal arian am nofio, ac mai canlyniad ymgais i'w ladd ei hun, nid canlyniad damwain car, oedd ei anabledd. Mae neges y ffilm yn glir: beth sy'n digwydd pan mae dyn yn cymryd arno'i hun awdurdod Duw i benderfynu bywyd, marwolaeth a thynged pobl? Yn ddiddorol, mae Vincent a Jerome fel ei gilydd yn dioddef dan y gyfundrefn; penderfynir eu dyfodol gan ragdybiaethau sy'n cyfyngu ac yn rheoli'r hyn y dylent neu na ddylent allu ei gyflawni. Nid yw yr un o'r ddau'n rhydd; mae'r ddau'n cael eu llywio gan eu proffil genynnol.



Tasg Seminar:
Os ydych wedi gwylio'r ffilm *Gattaca* yn y dosbarth neu gartref, trafodwch beth, yn eich barn chi, yw'r pynciau pwysicaf y mae'n eu codi, a beth yw'r safbwynt a gyflwyna ar gymdeithas. A oes gormod o duedd yn y ffilm? A yw'n realistig? Ceisiwch wylio *The Island*, ffilm am gymdeithas lle y gall pobl gyfoethog gael clonau wedi'u creu i ddarparu organau neu driniaethau achub bywyd eraill. Daw goblygiadau hyn yn amlwg yn bur fuan pan ddaw un clôn i ddysgu mwy am y cyfleuster nag y myn ei reolwyr ei ddadlennu. Ar ôl gweld y ffilm hon, trafodwch yn y dosbarth neu'r grŵp bach a ydyw, fel *Gattaca*, yn rhoi darlun realistig neu ddarlun llawn arswyd o gymdeithas. Pa un o'r ddwy ffilm, os oes un, sy'n eich trwblo fwyaf?

### Safbwyntiau Cristnogol ar Beirianneg Genetig

Y cymhelliad yw'r ffactor bwysig yma. Gellir dadlau bod defnydd cadarnhaol o dechnolegau genynnol yn rhan gyfreithlon o gyflawni gorchymyn Duw i fod yn stiwardiaid y cread, ond y gall mai'r hyn sydd ar fai yw cymhellion y sawl sy'n defnyddio'r dechnoleg. Efallai mai goruchwyliaeth fanwl ar waith gwyddonwyr genetig, a deddfu ynglŷn ag ef, yw'r allwedd i sicrhau ei fod yn gogoneddu Duw yn hytrach na'i wthio o'r neilltu.

Mae'r safbwynt Cristnogol mwyaf ceidwadol yn gwrthwynebu pob math o beirianneg genetig ar y sail ei fod yn trawsfeddiannu awdurdod Duw i greu bywyd. Hefyd, mae'n ceisio gwneud dynolryw'n berffaith, ac mae hynny'n amhosibl yn y byd hwn. Ni fwriadwyd i'r ddaear fod yn berffaith, am mai dim ond y nefoedd sy'n berffaith. Dibynna ewgeneg gadarnhaol ac ewgeneg negyddol fel ei gilydd ar farnu beth sy'n dda a beth sy'n ddrwg, ac mae hyn yn poeni Cristnogion am fod barnu felly yn beth goddrychol ac yn gaeth i ragfarnau a gogwyddiadau dynol. Yn y pen draw hefyd, ni fyddai gan unigolion a grëwyd trwy beirianneg genetig, na hyd yn oed trwy glonio, fawr o werth ynddynt eu hunain (gwerth *cynhenid*, fel y gelwir ef); ni fyddent yn werthfawr ond am yr hyn y gallent ei wneud (eu gwerth *offerynnol*), sef pwrpas eu creu drwy beirianneg genetig.

Mae'r pwynt olaf yn bryder hefyd i Gristnogion mwy rhyddfrydig, ond maen nhw'n fwy cefnogol i egwyddorion peirianneg genetig ar y sail bod gwaith Iesu'n iacháu pobl yn awgrymu y dylai Cristnogion wneud popeth a allant i iacháu a gwella iechyd bodau dynol. Gellir gwneud apêl glasurol yma at Foeseg Sefyllfa, a dadlau bod ysbryd agape'n galw pobl i wneud popeth a allant i wella ansawdd bywyd cenedlaethau'r dyfodol. Nid yw creu celloedd yn broblem foesegol, ac mae hyd yn oed ymchwil i embryonau llai na 14 diwrnod ar ddeg oed yn dderbyniol. Fodd bynnag, i aelodau Eglwys Rufain a rhai Cristnogion Efengylaidd, nid yw peirianneg genetig yn dderbyniol ond pan nad yw'n cynnwys unrhyw ymchwil o gwbl i embryonau, gan fod hynny'n mynd yn erbyn yr egwyddor o sancteiddrwydd bywyd. Felly, gall ymchwil i fôn-gelloedd oedolion, o'i ddefnyddio at bwrpas gogoneddu Duw a chyfranogi yn ei waith creadigol, fod yn dderbyniol, ond bod yn rhaid bob amser gadw llygad gofalus ar ganlyniadau negyddol posibl unrhyw dechnoleg enetig.

- **Iddewiaeth a Pheirianneg Genetig**

Bu arbenigwyr Iddewig yn meddwl yn arbennig o galed am beirianneg genetig, yn rhannol am fod yr afiechyd genetig Tay Sachs yn effeithio ar rai Iddewon, ac yn rhannol am fod y gyfraith Iddewig trwy gydol hanes wedi archwilio materion meddygol mewn manylder mawr. Mae hefyd yn bwnc poenus i Iddewon am fod dadleuon genetig ac ewgenig anghyfiawn wedi cael eu defnyddio i gyfiawnhau'r Holocost pan gafodd dros chwe miliwn o Iddewon eu llofruddio.

Anhwylder genynnol marwol mewn plant yw Tay Sachs; mae’n achosi dinistr cynyddol yn y system nerfau ganolog. Fe’i rheolir gan bâr o enynnau ar gromosom 15. Os yw’r ddau enyn yn anweithredol, mae’r afiechyd ar y plentyn, a bydd farw’n ifanc iawn. Os oes un genyn yn weithredol, bydd y plentyn yn berffaith iach, ond bydd yn cario’r afiechyd. Os bydd yn priodi â chariwr arall, mae siawns o 25% y bydd unrhyw blentyn fyddan nhw’n eu cael yn dioddef o’r afiechyd, a siawns o 50% y bydd yn ei gario. Mae Iddewon gyda chefndir Ashkenazi yn llawer mwy tebygol o gario Tay Sachs na gweddill y boblogaeth.

**Sgrinio cyn priodi**

Bu llawer o sgrinio cyn priodi i ddod o hyd i bobl sy’n cario genyn afiechyd Tay Sachs. Yn UDA cafodd mwy na 70,000 o bobl eu sgrinio, ac o ganlyniad cafodd dros 100 o gyplau eu cynghori i beidio â phriodi. Yn Israel, llwyddodd y sgrinio i ostwng nifer y plant Tay Sachs a enir i Iddewon Ashkenazi tra-uniongred i ddim.


Mae rhai awdurdodau Iddewig yn ansicr a yw’n iawn i gwpl y mae’r ddau ohonynt yn cario’r afiechyd briodi a pheidio â chael plant. Dywedant fod rhaid i Iddewon priod gael plant, am fod Duw, yn Genesis 1:28, yn gorchymyn ‘Byddwch ffrwythlon ac amlhewch’, ac nad yw’r posibilrwydd o gael plentyn a nam arno yn dileu’r rheidrwydd hwn.

**7. Ewthanasia**

Ewthanasia yw lladd yn fwriadol trwy weithred neu esgeulustod un y mae ef neu eraill yn ystyried nad yw ei fywyd mwyach yn werth ei fyw. Daw’r gair o’r Groeg *eu-thanatos* a’i ystyr gwreiddiol yw marwolaeth ‘dda’ neu ‘hapus’. Yn ein cyd-destun ni, cyfeiria at greu marwolaeth ‘dda’ trwy fwriad, peth a ddisgrifir yn aml fel ‘lladd o drugaredd’. Fe’i hystyrir yn bwnc allweddol mewn moeseg feddygol fodern, er bod ewthanasia a lladd plant yn arfer cyffredin yn yr hen fyd ac mewn diwylliannau cyntefig. Dros y blynyddoedd diwethaf cynyddodd y cydymdeimlad at ewthanasia, yn enwedig yn yr Iseldiroedd a’r Swistir.

Mae’r rhan fwyaf o ddadleuon am ewthanasia yn troi o gwmpas ***Ewthanasia Gwirfoddol***, ‘lladd o drugaredd’ sy’n cael ei gyflawni ar ddymuniad penodol y claf, ond mae tri math arall o ewthanasia.

***Ewthanasia gweithredol***: canlyniad gweithredu cadarnhaol (e.e. pigiad marwol) gan ofalwr, fel rheol aelod o’r proffesiwn meddygol. Yn y DU, dim ond diffodd peiriant cynnal bywyd a ganiateir pan ystyrir bod claf yn ymenyddol farw neu mewn cyflwr diymateb parhaol.



Tasg Ymchwil:
Defnyddiwch y Rhyngrwyd i ymchwilio i achosion Nancy Cruzan, Karen Ann Quinlan a Terri Schiavo. Nodwch nodweddion allweddol yr achosion hyn a’r pynciau crefyddol a godasant. Defnyddiwch eich nodiadau yn eich traethawd nesaf ar y pwnc hwn.

***Ewthanasia goddefol*** yw atal neu derfynu triniaeth sy'n estyn bywyd y claf. Mae hyn yn digwydd eisoes yn achos babanod newyddanedig ac arnynt nam difrifol, a gall ddigwydd hefyd pan atelir cynnal bywyd claf mewn coma. Mae hefyd yn gyfreithlon i gleifion roi gorchymyn nad ydynt i gael eu hadfer yn achos trawiad ar y galon neu fygythiad arall i'w bywyd. Gellir gwneud hynny trwy Ewyllysiau Byw neu Gyfarwyddyd Ymlaen Llaw, lle y mae claf yn mynegi y dylai, os caiff niwed neu anabledd difrifol, gael marw yn hytrach na derbyn triniaeth feddygol ddwys. Mae penderfyniadau ymlaen llaw i atal triniaeth yn dod o dan Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 ac, yn ôl y gyfraith, golyga penderfyniad dilys o'r fath na ellir trin yr unigolyn dan sylw. Pe bai meddyg yn rhoi triniaeth, gellid dwyn achos cyfreithiol yn ei erbyn. Fodd bynnag, fe allai meddyg benderfynu peidio â dilyn Cyfarwyddyd Ymlaen Llaw pe bai'r unigolyn wedi gwneud rhywbeth i wrth-ddweud y penderfyniad neu fod y meddyg o'r farn bod amgylchiadau newydd yn effeithio ar y penderfyniad - er enghraifft, triniaeth newydd nad oedd ar gael pan roddwyd y cyfarwyddyd. Gallai meddyg hefyd benderfynu peidio â dilyn cyfarwyddyd os oedd hwnnw'n aneglur neu amwys.

Ym mis Ebrill 1989, cafodd Tony Bland, 22 mlwydd oed, niwed difrifol i'w ymennydd pan gafodd ei wasgu mewn eisteddle gorlawn yn stadiwm pêl-droed Hillsborough. Cafodd ddiagnosis, ac roedd y diagnosis yn dweud ei fod mewn 'cyflwr diymateb parhaol'. Cafodd ei gadw'n fyw ar beiriant cynnal bywyd a'i fwydo trwy diwb. Credai ei feddygon a'i rieni nad oedd gan Tony ddim ansawdd bywyd a gwnaethant gais i'r llysoedd am gael diffodd y peiriant cynnal bywyd ac atal y driniaeth er mwyn iddo gael marw. Yn y diwedd, fe gytunodd y Llys, gan ddweud, *'I'w rieni, mae Tony Bland wedi marw eisoes. Mae ei ysbryd wedi ei adael, a'r cyfan sydd ar ôl yw cragen ei gorff. Y peth gorau i Tony yw atal y driniaeth'.* Fodd bynnag, ni olygai atal y driniaeth y byddai Tony farw ar unwaith – ac mae'r gyfraith yn gwahardd defnyddio cyffuriau i ladd neb. Ataliwyd y driniaeth ar 22 Chwefror 1993 ac ni roddwyd dim mwy o fwyd i Tony. Bu farw o fethiant yr arennau ar 3 Mawrth.

Sylwa Peter Singer nad oedd Tony Bland yn 'ymenyddol farw' ond yn hytrach mewn cyflwr diymateb parhaol. Roedd hynny'n golygu na ddeuai'n ymwybodol byth. Doedd arno ddim angen peiriant anadlu, ond yr oedd angen ei fwydo trwy diwb ac nid oedd yn ymwybodol o unrhyw ysgogiadau allanol. Er ei bod eisoes yn arfer meddygol i atal bwydo mewn achosion o'r fath, gofynnodd meddyg Bland, y Dr J. G. Howe, am ganiatâd y llys i wneud hynny am fod y crwner wedi bod yn ymchwilio i farwolaethau Hillsborough ac nid oedd am ei osod ei hun mewn perygl o wynebu cyhuddiad troseddol. Apeliodd y Cyfreithiwr Swyddogol a benodwyd i warchod buddiannau Bland yn erbyn y ddedfryd, ond fe'i cadarnhawyd gan Dŷ'r Arglwyddi.

***Ewthanasia anwirfoddol*** yw ewthanasia a gyflawnir heb ganiatâd pendant y claf – efallai, ond nid o angenrheidrwydd, am fod y claf yn anabl i fynegi barn.

***Cynorthwyo Hunanladdiad*** yw darparu dull a/neu gyfle i glaf derfynu ei fywyd ei hun. Mewn llawer ffordd, yr un peth ydyw ag ewthanasia gwirfoddol. Heddiw, efallai mai dyma'r dull mwyaf cyffredin o ewthanasia, er gwaetha'r ffaith bod Deddf Hunanladdiad 1961 yn UDA yn ei gwneud hi'n drosedd cynorthwyo rhywun i'w ladd ei hun, a'r gosb yn uchafswm o 14 mlynedd mewn carchar. Cyfeiriodd y cyfryngau yn ddiweddar at sawl achos lle y cynorthwyodd aelodau o'r teulu neu gyfeillion eraill gleifion a oedd yn derfynol wael i farw, ac ymddengys bod pwysau cynyddol ar y gyfraith i beidio â'u herlyn. Golygodd rhai o'r achosion hyn deithio i'r Swistir at Dignitas, cyfleuster meddygol cwbl gyfreithlon sy'n rhoi cymorth i rai sydd ag afiechyd marwol i'w lladd eu hun. Rhaid i'r sawl sy'n dymuno marw gyfarfod yn gyntaf â'r meddygon a chytuno i'r weithdrefn gymorth. Cyflawnir yr hunanladdiad trwy bigiad neu ddiod farwol a bydd y person yn marw'n dawel. Mae'r gost yn ychydig dros £3,000. Bu farw oddeutu 100 o bobl o'r DU yn y clinig. Weithiau gelwir pobl sy'n mynd dramor i gael cymorth i'w lladd eu hunain yn 'dwristiaid angau' ac mae yn awr alw mawr am gyfreithloni cynorthwyo hunanladdiad, gyda rheoliadau priodol, yn y DU, fel na orfodir cleifion sy'n marw i wneud y siwrnai feichus i'r Swistir yn nyddiau olaf eu bywyd. Awgrymir hefyd fod y farn gyhoeddus yn gynyddol o blaid cynorthwyo hunanladdiad ac fe'i gwnaed yn fwy deniadol fyth gan gefnogaeth unigolion cyhoeddus carismatig fel Terry Pratchett.

Mae'r ymgyrch i gyfreithloni Cynorthwyo Hunanladdiad yn rhan o'r hyn a elwir fel rheol y mudiad hawl i farw. Mae'r cwestiynau a gwyd y mudiad hwn yn wahanol i'r rhai a godwyd yn achos Bland a Cruzan, oherwydd yn yr achosion hynny ni fedrai'r cleifion fynegi eu dewis na gwneud penderfyniad. Daw achosion o gynorthwyo hunanladdiad fel rheol wedi i glaf fynegi dymuniad i farw ac fe'u sylfaenir ar y gred bod ganddo hawl foesol i hynny.

Un o'r achosion diweddar mwyaf dadleuol yw achos Daniel James. Cafodd Daniel James, 23 mlwydd oed, ddamwain ddifrifol wrth chwarae rygbi ac fe'i parlyswyd. Roedd mewn poen cyson, ni allai symud ac roedd arno angen gofal ddydd a nos. Roedd yn casáu hyn a cheisiodd ar dri achlysur ei ladd ei hun, ond methodd. O'r diwedd, gofynnodd i'w rieni fynd ag ef i Glinig Dignitas yn y Swistir, lle y gallai farw. Cytunasant yn anfoddog, ac ym mis Hydref 2008 cafodd gymorth gan wirfoddolwr dienw yn y clinig i yfed cymysgedd marwol o gyffuriau a bu farw'n dawel.

Beirniadodd llawer o bobl rieni Daniel am adael iddo farw pan oedd mor ifanc ac yn ei iawn bwyll. Dywedodd ei fam eu bod yn parchu ei benderfyniad i farw ac mai ei benderfyniad ef ydoedd. Cariad a thrugaredd, meddai, oedd y tu ôl i'w cefnogaeth nhw fel rhieni: '*Pa hawl sydd gan neb i ddweud wrth neb arall fod yn rhaid iddo fyw bywyd fel yna, yn llawn arswyd ac anghysur a gwarth?*' Er i'r rhieni dorri cyfraith y DU, penderfynodd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus na fyddai er lles y cyhoedd eu herlyn.

Roedd Diane Pretty eisoes wedi tynnu sylw'r cyhoedd at y mudiad hawl i farw. Ym mis Mai 2002, roedd Diane Pretty, 42 mlwydd oed, yn dioddef o afiechyd marwol motor niwron. Doedd arni ddim eisiau tagu i farwolaeth, fel y gwna'r rhai sy'n dioddef o'r afiechyd hwn yn aml, ac felly gofynnodd i lys barn

ganiatáu i'w gŵr ei chynorthwyo i'w lladd ei hun. Dywedodd wrth y llys ei bod yn un o'i hawliau dynol i ddewis sut a pha bryd y byddai farw. Gwrthododd y llys ganiatáu ei chais. Dywedodd Diane yn drist: '*Mae'r gyfraith wedi dwyn fy holl hawliau'.* Bu farw ychydig ddyddiau'n ddiweddarach. Dywedodd ei gŵr: *'Bu'n rhaid i Diane fynd trwy yr un peth yr oedd hi wedi ei ragweld ac yr oedd arni ei ofn – a doedd dim byd a allwn i ei wneud i helpu.'*

Tasg Ymchwil:
Defnyddiwch y Rhyngrwyd i ymchwilio i achos Debbie Purdy, a oedd yn dioddef o sglerosis ymledol (*MS*) ac a ofynnodd i Arglwyddi'r Gyfraith egluro a fyddai ei gŵr yn cael ei erlid neu beidio petai'n ei chynorthwyo i farw.

- **Dadleuon o blaid ewthanasia**

Gall y sawl sydd o blaid ewthanasia gynnig y rhesymau a ganlyn:

- Mae'n rhoi i'r claf farwolaeth dyner, ddi-boen.
- Mae'n caniatáu i'r claf farw gydag urddas, yn hytrach na dioddef marwolaeth araf yn dilyn dadfeilio cynyddol y meddwl a'r corff.
- Mae'n arbed costau ysbyty a chostau meddygol ac yn rhyddhau gwelyau i gleifion nad yw eu hafiechyd yn un marwol.
- Mae'n ysgafnhau'r baich emosiynol ac ariannol i deuluoedd.

Erbyn hyn, mae lefel y gofal meddygol y gellir ei roi i gleifion sy'n ddifrifol wael neu'n marw yn broblem ynddi'i hun. Gall technoleg feddygol yn awr gadw pobl yn fyw yn hirach o lawer, ond gall ansawdd eu bywyd fod yn wael, ac fe all na wnânt ddim ond llithro o ymwybyddiaeth i anymwybyddiaeth. Mae'n bosibl y bydd angen rhoi cyflenwadau enfawr o boenladdwyr, a gall hynny ynddo'i hun achosi marwolaeth. Weithiau fe'i gwneir o fwriad – enghraifft o effaith ddwbl, sef mai'r pwrpas cyntaf yw lladd poen ond yr ail effaith (anochel er nad bwriadol) yw bod y claf yn marw o orddos.

Dadleua cefnogwyr ewthanasia y byddai pobl, pe na bai arnynt gymaint o ofn marw ac yn ei osgoi i'r fath raddau, yn fwy parod i weld ewthanasia fel rhywbeth cadarnhaol, dyngarol, yn hytrach na rhywbeth i'w ofni.

*'Er bod marwolaeth ddynol yn beth drwg y mae'n rhaid ymladd yn ei erbyn ac yn realiti na ellir byth ei geisio o fwriad, gellir weithiau ei derbyn a hyd yn oed ei chroesawu fel arwydd o drugaredd Duw.'* John Wyatt, **Matters of Life and Death** (1998)

Tasg Seminar: [://www.guardian.co.uk/society/2010/feb/01/terry-pratchett-ewthanasia-](://www.guardian.co.uk/society/2010/feb/01/terry-pratchett-ewthanasia-)

Yn eich grwpiau bach darllenwch yr erthygl hon ar y Rhyngrwyd ac yna trafodwch y pynciau y mae Terry Pratchett yn eu codi. A ydych yn meddwl ei fod yn gywir pan hawlia fod ‘yr amser yn dod pan fydd hi’n gyfreithlon cynorthwyo rhywun i farw’? Gwnaeth Pratchett yn glir nad oes ganddo unrhyw gred grefyddol. A yw hyn yn ei gwneud hi’n haws iddo gefnogi’r ymgyrch hawl i farw? Pam neu pam ddim?

- **Dadleuon yn erbyn ewthanasia**

Canolbwyntia’r dadleuon yn erbyn ewthanasia ar broblem yr hyn a elwir y llwybr llithrig, sef yr ofn, os cyfreithlonir ewthanasia gwirfoddol o dan amodau caeth, y bydd yn amhosibl ei rwystro dan amodau eraill hefyd. Golygai hynny lai a llai o gymhelliad dros ymchwil meddygol, tanseilio mwy fyth ar werth bywyd a rhoi pwysau enfawr ar y rhai sy’n glaf ac yn marw. Mae’n hysbys i rai cleifion ddadebru o gyflwr diymateb parhaol, ac nid pawb y tybir eu bod yn dioddef o afiechyd marwol sy’n marw. Fodd bynnag, petai ewthanasia ar gael yn rhwydd, gellid gwneud y penderfyniad i farw yn llawer rhy fuan. Nid yw’n wir ychwaith fod yn rhaid i gleifion sy’n marw farw mewn poen a heb urddas. Sefydlwyd y mudiad hosbis i ofalu am bobl sy’n derfynol wael; mae’n canolbwyntio ar leddfu poen, ac yn ceisio cynorthwyo meddygon a’r cyhoedd yn gyffredinol i ddeall bod yna ddewis heblaw ewthanasia. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae gofal hosbis yn ddrud a chyfyngedig a honnir nad oes digon o feddygon a nyrsys yn ymddiddori mewn gofal lleddfu poen i’w wneud yn flaenoriaeth. Nid yw mor amlwg hudolus â rhai arbenigeddau meddygol eraill.

> *'Rydym yn awr bob amser yn gallu rheoli poen canser terfynol yn y cleifion a anfonir atom . . . nid yw ewthanasia fel a argymhellir yn iawn . . . ni ddylai fod angen amdano; mae’n gyfaddefiad o fethiant.’* (Y Mudiad Hosbis Cristnogol)

- **Safbwyntiau crefyddol**

Fel gydag erthyliad, mae ewthanasia’n ymwneud â sancteiddrwydd bywyd, a dyna’r sail gadarnaf yn erbyn ei gyfreithloni. Cytuna rhai enwadau y dylai fod gan feddygon yr hawl i ddiffodd peiriant cynnal bywyd gyda chaniatâd teulu’r claf, ond mae Eglwys Rufain a’r rhan fwyaf o Brotestaniaid Efengylaidd yn dysgu nad yw’n iawn gwneud dim i ladd claf na pheidio â gwneud dim i’w gynorthwyo i fyw, hyd yn oed os y bwriad yw lleddfu poen. *‘Golyga achosi marwolaeth trwy weithredu neu beidio â gweithredu i leddfu poen lofruddio mewn dull sy’n gwbl groes i urddas dynol yr unigolyn ac i’r parch y dylid ei roi i’r Duw byw, ei Greawdwr’* (Catecism Eglwys Rufain).

Ysgrifennodd Joni Eareckson Tada, cwadriplegig o Gristion sy'n ymgyrchu dros hawliau'r anabl, lyfr pwerus dan y pennawd **When is it right to die?** (1992). Ynddo, mae'n ysgrifennu: *'Unwaith, mi gornelais y Dr J. L. Packer, diwinydd efengylaidd amlwg, a gofyn iddo'r cwestiwn hwn: "Beth fyddech chi'n ei awgrymu i ddyn difrifol anabl o barlys yr ymennydd, na all godi o'i wely na siarad, ac sydd wedi ei droi o'r neilltu i ystafell gefn mewn cartref nyrsio? Does neb yn ymweld ag ef na'r un nyrs yn trafferthu elwa oddi wrth ei agwedd dda. Beth all y dyn methedig yna ei wneud?" . . . Atebodd y Dr Packer, "Gall dyn fel yna addoli a gogoneddu Duw".'*



Pwnc Trafod:
Beth ydych yn ei feddwl o haeriad Tada? A yw'n eich ysbrydoli neu'n eich dychryn? Ystyriwch eich safbwynt yn ofalus a meddyliwch beth sy'n dylanwadu ar eich ymateb i'r hyn a hawliodd Tada. Ysgrifennwch ychydig sylwadau'n seiliedig ar eich myfyrdod y gallwch eu defnyddio mewn traethawd.

Mewn Bwdhaeth Theravada, bydd person lleyg yn addo 'peidio â dinistrio creaduriaid byw'. I fynachod Bwdhaidd, mae'r rheol yn fwy penodol, ac yn gwneud yn glir bod y sawl sy'n cymryd bywyd, neu annog neb i gymryd ei fywyd ei hun, yn ei wahanu ei hun oddi wrth y gymuned Fwdhaidd.

Cyhoeddwyd safbwynt swyddogol Eglwys Rufain mor gynnar â 1980 yng Nghynulliad Sanctaidd Athrawiaeth y Ffydd, a chondemniai ewthanasia fel 'trosedd yn erbyn bywyd ac yn erbyn Duw'. Mae gan Brotestaniaid ystod o wahanol safbwyntiau ac, yn dilyn huodledd cynyddol y lobi cynorthwyo hunanladdiad, cynigiodd rhai Protestaniaid rhyddfrydig, yn ysbryd Joseph Fletcher ac wedi'u hysbrydoli gan foeseg sefyllfa, ddadleuon crefyddol o'i blaid.

Mae Hindŵaid yn cydnabod bod marwolaeth yn anochel ac weithiau'n annisgwyl. I'r Hindŵ, er y gall cynorthwyo i derfynu bywyd poenus fod yn weithred dda, y mae, serch hynny, yn ymyrryd â chylch marw ac aileni, a bydd y sawl sy'n ymwneud ag ewthanasia yn cymryd karma'r claf. Ar y llaw arall, defnyddir yr un ddadl i gyrraedd y casgliad mai ymyrraeth hefyd yw cadw rhywun yn fyw yn artiffisial ar beiriant cynnal bywyd.

Mae Islam yn gwahardd pob ffurf ar hunanladdiad, a gwaherddir i Fwslim gynllunio amser ei farw ymlaen llaw. Fodd bynnag, gellir caniatáu i Fwslim wrthod triniaeth yn achos gwaeledd terfynol.